



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 23 Mai 2012
Wednesday, 23 May 2012

Cynnwys
Contents

| | |
|-----|--|
| 3 | Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services |
| 29 | Pwynt o Drefn Point of Order |
| 29 | Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol Questions to the Counsel General |
| 32 | Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad Questions to the Assembly Commission |
| 32 | Cynnig i Ethol Aelod i'r Pwyllgor Busnes Motion to Elect a Member to the Business Committee |
| 33 | Datganiad gan y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru Statement by the Rt Hon. Cheryl Gillan MP, Secretary of State for Wales |
| 59 | Pwynt o Drefn Point of Order |
| 60 | Araith y Frenhines The Queen's Speech |
| 123 | Cyfnod Pleidleisio Voting Time |
| 130 | Dadl Fer: Plant sy'n Ceisio Lloches a Sut y Cânt eu Hamddiffyn yng Nghymru Short Debate: Child Asylum Seekers and their Protection in Wales |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

The Presiding Officer: Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session—for everybody.

Y Llywydd: Prynawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru—i bawb.

Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

Dyfodol GIG Cymru

The Future of the Welsh NHS

I. Darren Millar: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau ar gyfer dyfodol GIG Cymru. OAQ(4)0124(HSS)*

I. Darren Millar: *Will the Minister make a statement on her plans for the future of the Welsh NHS. OAQ(4)0124(HSS)*

The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths): The strategic direction for the future of the NHS in Wales is set out in 'Together for Health'.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths): Mae'r cyfeiriad strategol ar gyfer dyfodol y GIG yng Nghymru wedi'i nodi yn 'Law yn Llaw at Iechyd'.

Darren Millar: A large crowd was gathered outside the Senedd today, concerned about the future of local NHS services at Prince Philip Hospital in Llanelli. Given that your Government has endorsed a paper that confirms the need to reduce the number of accident and emergency sites offering consultant-led services 24 hours a day, seven days a week, what assurances can you give them that the A&E services at Prince Philip Hospital will not be downgraded or reduced?

Darren Millar: Roedd tyrfa fawr o bobl wedi ymgasglu y tu allan i'r Senedd heddiw, ac roeddent yn pryderu am ddyfodol gwasanaethau lleol y GIG yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn Llanelli. O ystyried bod eich Llywodraeth wedi cymeradwyo papur sy'n cadarnhau'r angen i leihau nifer y safleoedd damweiniau ac achosion brys sy'n cynnig gwasanaethau dan arweiniad meddyg ymgynghorol 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, pa sicrwydd y gallwch ei roi iddynt na fydd y gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn cael eu hisraddio neu'u lleihau?

Lesley Griffiths: I can give them an assurance that I want the best services for the people of Wales. I want them to be safe, sustainable and to be high quality and effective. You might want differently, but that is what I want.

Lesley Griffiths: Gallaf roi sicrwydd iddynt fy mod am gael y gwasanaethau gorau i bobl Cymru. Rwyf am iddynt fod yn ddiogel, yn gynaliadwy, yn effeithiol ac o ansawdd uchel. Efallai eich bod chi am weld rhywbeth gwahanol, ond dyna'r wyf fi am ei weld.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Macmillan has acknowledged in its paper today that a diagnosis of cancer can lead to increased financial costs for a patient, which means that they have to deal with that on top of the trauma of being so ill. Indeed, 95% of patients will have increased travel costs. What is the Government doing to bring cancer services as close to people's homes as

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Mae Macmillan wedi cydnabod yn ei bapur heddiw y gall diagnosis o ganser arwain at gostau ariannol uwch i glaf, sy'n golygu bod yn rhaid iddo ymdopi â hynny ar ben y trawma o fod mor sâl. Yn wir, bydd gan 95% o gleifion gostau teithio uwch. Beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i ddod â gwasanaethau canser mor agos i gartrefi pobl ag sy'n bosibl er mwyn

possible to minimise travel?

Lesley Griffiths: That report made for interesting reading. We have not thought quite enough about the other impacts that a diagnosis of cancer can have on an individual and their family. I am working on this with Macmillan, which also works closely with us on our cancer delivery plan. We will look at this.

Kirsty Williams: Despite the comments from the Member for Cardiff Central last week, who said that there was no alternative to travelling to receive cancer therapy, the truth is, of course, different. Many methods of chemotherapy especially can be delivered in a patient's home, in community hospitals and in mobile units. What steps are you taking to ensure that, where possible, chemotherapy services can be delivered via those mechanisms, thereby making it easier for the patient to obtain treatment and more cost-effective for them personally?

Lesley Griffiths: The point that you raise about mobile units is good. We have all visited the mobile unit that is run by a third sector organisation. It is about talking to these organisations and making sure that we can cover Wales and take these mobile units around.

David Rees: Last week, like many others, I received this booklet, outlining the challenges ahead for the NHS and the broad reasons for changing services within the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board. It requested feedback on the concept of necessary changes, but did not provide specific detail of what those changes would be or how they would be implemented. It was identified in the schedule that any form of consultation was to take place by way of the submission of a detailed strategy to you. Do you agree that consultation with stakeholders, especially the public receiving the services, should be a compulsory requirement for health boards and that it should take place prior to the submission of any detailed strategy to you?

Lesley Griffiths: The community health

lleihau'r angen i deithio?

Lesley Griffiths: Roedd yr adroddiad hwnnw'n ddiddorol. Nid ydym wedi meddwl ddigon am yr effeithiau eraill y gall diagnosis o ganser eu cael ar unigolyn a'i deulu. Rwyf yn gweithio ar y mater hwn gyda Macmillan, sydd hefyd yn gweithio'n agos gyda ni ar ein cynllun cyflawni ar gyfer cancer. Byddwn yn edrych ar hyn.

Kirsty Williams: Er gwaethaf y sylwadau gan yr Aelod dros Ganol Caerdydd yr wythnos diwethaf, a ddywedodd nad oedd modd osgoi teithio i gael therapi cancer, mae'r gwir, wrth gwrs, yn wahanol. Gellir rhoi sawl math o gemotherapi'n enwedig yng nghartref y claf, mewn ysbytai cymuned ac mewn unedau teithiol. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau cemotherapi drwy'r dulliau hynny, lle y bo modd, gan ei gwneud yn haws i'r cleifion gael triniaeth a'i gwneud yn fwy cost-effeithiol iddynt yn bersonol?

Lesley Griffiths: Mae'r pwynt yr ydych yn ei godi am unedau teithiol yn un da. Mae pob un ohonom wedi ymweld â'r uned deithiol sy'n cael ei rhedeg gan fudiad yn y trydydd sector. Mae a wnelo â siarad â'r mudiadau hyn a gwneud yn siŵr ein bod yn gallu cynnwys Cymru gyfan a mynd â'r unedau teithiol hyn o gwmpas.

David Rees: Yr wythnos diwethaf, fel sawl un arall, cefais y llyfryn hwn, sy'n amlinellu'r heriau sydd i ddod ar gyfer y GIG a'r rhesymau cyffredinol dros newid gwasanaethau ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Roedd yn gofyn am adborth ynghylch y cysyniad o wneud newidiadau angenrheidiol, ond nid oedd yn rhoi manylion penodol am beth fyddai'r newidiadau hynny neu sut y byddent yn cael eu rhoi ar waith. Nodwyd yn yr atodlen y byddai unrhyw fath o ymgynghoriad yn digwydd drwy gyflwyno strategaeth fanwl ichi. A ydych yn cytuno y dylai ymgynghori â rhanddeiliaid, yn enwedig y cyhoedd sy'n cael y gwasanaethau, fod yn ofyniad gorfodol i fyrddau iechyd, ac y dylai ddigwydd cyn cyflwyno unrhyw strategaeth fanwl ichi?

Lesley Griffiths: Mae gan y cyngor iechyd

council has a massive role to play in this process. It is the organisation that represents the local population and the public who will receive these services, and so it is vital that it has a part in the process. We are just at the engagement stage now. Plans are being drawn up and there will be formal consultation by all the health boards in late summer or early autumn.

Elin Jones: Earlier in your answer to Darren Millar, you said that you wanted to see safe NHS services. Do you monitor every health board's risk register?

Lesley Griffiths: We certainly look at their risk registers. My officials constantly do so.

Elin Jones: I am pleased to hear that. In light of the fact that service reconfiguration is likely, will you consider publishing and asking health boards to publish their risk registers so that the public can see the safety or otherwise of the services that they currently receive and propose to receive in the future?

Lesley Griffiths: I will consider that.

Gofal Iechyd yng Nghwm Cynon

2. Christine Chapman: *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella mynediad at ofal iechyd yng Nghwm Cynon. OAQ0122(HSS)*

Lesley Griffiths: Our commitment to improving access to healthcare in the Cynon valley is demonstrated by our investment in the new community hospital in Mountain Ash. The hospital includes the new dental teaching unit at a cost of £12 million.

Christine Chapman: I was very pleased to visit the hospital last week with Jane Hutt, and I really think that it fulfils the vision of delivering a comprehensive range of local services to a high standard. I also welcome the Government's ongoing commitment to improving access to GP surgeries, and I was pleased to learn that Cwm Taf Local Health Board has made progress with 99% of its

cymuned rôl enfawr i'w chwarae yn y broses hon. Hwn yw'r sefydliad sy'n cynrychioli'r boblogaeth leol a'r cyhoedd a fydd yn cael y gwasanaethau hyn, ac felly mae'n hanfodol bod ganddo ran yn y broses. Rydym yn y cam ymgysylltu yn awr. Mae cynlluniau'n cael eu creu, a bydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal gan bob un o'r byrddau iechyd ddiweddd yr haf neu ddechrau'r hydref.

Elin Jones: Yn gynharach yn eich ateb i Darren Millar, bu ichi ddweud eich bod am weld gwasanaethau diogel yn y GIG. A ydych yn monitro cofrestr risg pob bwrdd iechyd?

Lesley Griffiths: Rydym yn sicr yn edrych ar eu cofrestrau risg. Mae fy swyddogion yn gwneud hynny'n gyson.

Elin Jones: Rwyf yn falch o glywed hynny. Yng ngoleuni'r ffaith bod ad-drefnu gwasanaethau'n debygol, a wnewch chi ystyried cyhoeddi a gofyn i fyrddau iechyd gyhoeddi eu cofrestrau risg fel y gall y cyhoedd weld diogelwch, neu ddiffyg diogelwch, y gwasanaethau y maent yn eu cael ar hyn o bryd a'r gwasanaethau y maent yn bwriadu eu cael yn y dyfodol?

Lesley Griffiths: Rwyf yn fodlon ystyried hynny.

Healthcare in Cynon Valley

2. Christine Chapman: *What is the Welsh Government doing to improve access to healthcare in Cynon Valley. OAQ0122(HSS)*

Lesley Griffiths: Mae ein hymrwymiad i wella mynediad i ofal iechyd yng nghwm Cynon yn amlwg yn ein buddsoddiad yn yr ysbyty cymuned newydd yn Aberpennar. Mae'r ysbyty yn cynnwys uned addysgu ddeintyddol newydd am gost o £12 miliwn.

Christine Chapman: Roeddwn yn falch iawn o ymweld â'r ysbyty yr wythnos diwethaf gyda Jane Hutt, ac rwyf yn wir yn credu ei fod yn gwireddu'r weledigaeth o ddarparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau lleol i safon uchel. Rwyf hefyd yn croesawu ymrwymiad parhaus y Llywodraeth i wella mynediad i feddygfeydd meddygon teulu, ac roeddwn yn falch o glywed bod Bwrdd

surgeries now open all day and a number of practices offering the extended opening hours enhanced service. Will you continue to make this a priority, and will you work with the British Medical Association and health boards across Wales, to ensure that people are able to access the appropriate services when they need them?

Lesley Griffiths: I certainly will continue to make it a priority, and better access to general practitioners is in our programme for government. We are committed to ensuring that working people in particular can access GP services at times that are convenient to them. I certainly will work closely with both the BMA and the Royal College of GPs. I am due to meet the BMA next Monday, and I met with the Royal College of GPs just last month.

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): Minister, a key service for access to healthcare is the ambulance service. Sadly, in the Rhondda Cynon Taf area, the figures for ambulance response times for the past three months have been nearly 10% slower than the category A target that your Government has set. Will you commit this afternoon to look into why there is almost a 10% discrepancy in hitting that target for the Rhondda Cynon Taf area, and will you report back on your findings?

Lesley Griffiths: I recognise that the consistency of response time performance in the Rhondda Cynon Taf area needs to improve. I expect response times across Wales to meet the 60% standard, and the Welsh Ambulance Services NHS Trust is striving to improve performance in RCT, for example through the introduction of a head of service delivery for the Cwm Taf health board, in addition to the implementation of the alternative care pathways, which are designed to improve service delivery in the area, as well as in all localities across Wales.

Iechyd Lleol Cwm Taf wedi gwneud cynnydd, gyda 99% o'i feddygfeydd bellach ar agor drwy'r dydd a nifer o bractisiau'n cynnig gwasanaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig ag oriau agor estynedig. A fyddwch yn parhau i roi blaenoriaeth i hynny, ac a fyddwch yn gweithio gyda Chymdeithas Feddygol Prydain a byrddau iechyd ar draws Cymru i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad i wasanaethau priodol pan fydd arnynt eu hangen?

Lesley Griffiths: Byddaf yn sicr yn parhau i roi blaenoriaeth i hynny, ac mae sicrhau gwell mynediad i wasanaethau meddygon teulu yn rhan o'n rhaglen lywodraethu. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod pobl sy'n gweithio, yn enwedig, yn gallu cael mynediad i wasanaethau meddygon teulu ar adegau sy'n gyfleus iddynt. Yn sicr, byddaf yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Feddygol Prydain a Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu. Rwyf i fod i gyfarfod â Chymdeithas Feddygol Prydain ddydd Llun nesaf, a chyfarfûm â Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu fis diwethaf.

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Weinidog, mae'r gwasanaeth ambiwlans yn wasanaeth allweddol o ran cael mynediad i ofal iechyd. Yn anffodus, yn ardal Rhondda Cynon Taf, mae'r ffigurau ar gyfer amseroedd ymateb ambiwlansys yn ystod y tri mis diwethaf wedi bod bron i 10% yn arafach na'r targed categori A y mae eich Llywodraeth wedi'i osod. A wnewch chi ymrwmo y prynhawn yma i ymchwilio i'r rheswm pam y mae gwahaniaeth o bron i 10% o ran cyrraedd y targed hwnnw ar gyfer ardal Rhondda Cynon Taf, ac a wnewch chi adrodd yn ôl ynghylch eich canfyddiadau?

Lesley Griffiths: Rwyf yn cydnabod bod angen gwella cysondeb perfformiad o ran amseroedd ymateb yn ardal Rhondda Cynon Taf. Rwyf yn disgwyl i amseroedd ymateb ledled Cymru gyrraedd y safon, sef 60%, ac mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn ymdrechu i wella perfformiad yn Rhondda Cynon Taf, er enghraifft, drwy gyflwyno pennaeth darparu gwasanaethau ar gyfer bwrdd iechyd Cwm Taf, yn ogystal â gweithredu'r llwybrau gofal amgen, y bwriedir iddynt wella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn yr ardal, ac ym

I monitor performance closely and will continue to do so.

The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood): Constituents have raised concerns with me that babies will not be born in the Cynon valley because of the transfer of the birthing centre to Prince Charles Hospital for a trial period. Do you understand the importance of being able to give birth locally to many parents, and can you tell us when that service will be available in the new Ysbyty Cwm Cynon?

Lesley Griffiths: I do, of course, understand parents' concerns, but what I have to be assured of is that those services are not stretched, are not unsafe, and are not unsustainable. It is really important that we ensure that any medical rotas can be covered.

Dyfodol y Gwasanaethau Iechyd

3. Peter Black: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y gwasanaethau iechyd yng Ngorllewin De Cymru. OAQ(4)0121(HSS)*

Lesley Griffiths: The strategic direction for the future of services in south-west Wales and the whole of the NHS in Wales are set out in 'Together for Health'.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister. I have had complaints from constituents that patients who want to have a pacemaker fitted in Bridgend hospital can do so and they can also have a check-up there if they have a heart condition. However, if they want to have their pacemaker checked, or to have a check-up for the fitting of a pacemaker, they have to go to Morriston Hospital. I have also been told that A&E at Bridgend closes at 6 p.m., and so anybody turning up after that time will also have to go to Morriston. Are you aware of those changes, and are they part of the health board's strategic change of direction, which, allegedly, we are still being consulted on?

mhob ardal arall ar draws Cymru hefyd. Rwyf yn monitro perfformiad yn agos, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood): Mae etholwyr wedi mynegi pryderon wrthyf na fydd babanod yn cael eu geni yng nghwm Cynon oherwydd bod y ganolfan eni'n cael ei throsglwyddo i Ysbyty'r Tywysog Siarl am gyfnod prawf. A ydych yn deall pwysigrwydd gallu rhoi genedigaeth yn lleol i lawer o rieni, ac a allwch ddweud wrthym pryd y bydd y gwasanaeth hwnnw ar gael yn Ysbyty newydd Cwm Cynon?

Lesley Griffiths: Rwyf yn deall pryderon rhieni, wrth gwrs, ond yr hyn y mae'n rhaid imi gael sicrwydd yn ei gylch yw nad yw'r gwasanaethau hynny dan bwysau, nad ydynt yn anniogel ac nad ydynt yn anghynaliadwy. Mae'n wirioneddol bwysig ein bod yn sicrhau bod modd staffio unrhyw rotâu meddygol.

The Future of Health Services

3. Peter Black: *Will the Minister make a statement on the future of the health services in South Wales West. OAQ(4)0121(HSS)*

Lesley Griffiths: Mae'r cyfeiriad strategol ar gyfer dyfodol gwasanaethau yn y de-orllewin a'r GIG cyfan yng Nghymru wedi'i nodi yn 'Law yn Llaw at Iechyd'.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwyf wedi cael cwynion gan etholwyr bod cleifion sydd am gael llawdriniaeth i osod rheolydd calon yn gallu cael y llawdriniaeth honno yn ysbyty Pen-y-bont ar Ogwr, a gallant gael archwiliad yno hefyd os oes ganddynt gyflwr ar y galon. Fodd bynnag, os ydynt am i'w rheolydd calon gael ei archwilio, neu os ydynt am gael archwiliad ar gyfer gosod rheolydd calon, rhaid iddynt fynd i Ysbyty Treforys. Rwyf hefyd wedi cael gwybod bod adran damweiniau ac achosion brys Pen-y-bont ar Ogwr yn cau am 6 p.m., ac felly bydd yn rhaid i unrhyw un sy'n cyrraedd ar ôl yr amser hwnnw fynd i Dreforys hefyd. A ydych yn ymwybodol o'r newidiadau hynny, ac a ydynt yn rhan o newid cyfeiriad strategol y bwrdd iechyd, yr ydym, yn ôl pob sôn, yn dal i ymgynghori yn ei gylch?

Lesley Griffiths: I assume that they are not part of its process because, as you said, it is currently consulting on that. When we see the proposals, we will be able to see what services it is planning.

Mike Hedges: Minister, you and the First Minister recently visited Morrision Hospital to launch the Welsh Government's doctor recruitment campaign. Were you impressed by the hospital and the facilities that were available there, and were you pleased with the development of the hospital site, which was paid for by this Welsh Labour Government? Did you also see the area where the next £87 million will be spent?

Lesley Griffiths: I was very impressed by the facilities. I did not have a great amount of time to look around, but it was not my first visit to Morrision Hospital. I went there last summer, when I visited the burns and plastics unit, which is absolutely world class. Certainly, we have spent a great deal of money—I think that it is over £90 million already—but I am expecting a further business case from the health board in the next few weeks, which I understand will set out plans for further redevelopment. If approved, work on that will commence later this summer.

Byron Davies: Minister, a serious concern is emerging in the Abertawe Bro Morgannwg health board area that age is a factor in assessing urgent healthcare options. This is compounded in emergency situations, and especially at weekends. Will you assure the Chamber and allay the fears of my constituents that, regardless of age, they will get first-class treatment?

Lesley Griffiths: Absolutely. The NHS is there for everybody, regardless of their age.

Bethan Jenkins: Weinidog, yn ddiweddar, aeth fy nghydweithiwr, Lindsay Whittle, i weld ysbyty Clydach yn fy rhanbarth, a chyfarfu â'r grwp Healing the Wounds, sef elusen sy'n helpu pobl sydd ag anhwylder straen wedi trawma. Dywedodd y caiff yr

Lesley Griffiths: Rwyf yn tybio nad ydynt yn rhan o'i broses oherwydd, fel y bu ichi ddweud, mae'n dal i ymgynghori ynghylch hynny. Pan welwn y cynigion, byddwn yn gallu gweld pa wasanaethau y mae'n eu cynllunio.

Mike Hedges: Weinidog, buoch chi a'r Prif Weinidog yn ymweld ag Ysbyty Treforys yn ddiweddar i lansio ymgyrch recriwtio meddygon Llywodraeth Cymru. A wnaeth yr ysbyty a'r cyfleusterau a oedd ar gael yno argraff arnoch, ac a oeddech yn fodlon â'r gwaith o ddatblygu safle'r ysbyty, sef gwaith y talodd y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru amdano? A welsoch chi hefyd yr ardal lle y caiff y £87 miliwn nesaf ei wario?

Lesley Griffiths: Gwnaeth y cyfleusterau argraff fawr arnaf. Nid oedd gennyf lawer iawn o amser i edrych o gwmpas, ond nid hwn oedd fy ymweliad cyntaf ag Ysbyty Treforys. Euthum yno yr haf diwethaf, pan ymwelais â'r uned llosgiadau a llawdriniaeth blastig, sydd gyda'r gorau yn y byd. Yn sicr, rydym wedi gwario llawer iawn o arian—dros £90 miliwn eisoes, mi gredaf—ond rwyf yn disgwyl achos busnes pellach gan y bwrdd iechyd yn ystod yr wythnosau nesaf, a deallaf y bydd yn nodi cynlluniau ar gyfer ailddatblygu pellach. Os cânt eu cymeradwyo, bydd y gwaith ar hynny'n dechrau yn ddiweddarach yr haf hwn.

Byron Davies: Weinidog, mae pryder difrifol yn dod i'r amlwg yn ardal bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg bod oedran yn ffactor wrth asesu opsiynau ar gyfer gofal iechyd brys. Caiff hynny ei waethygu mewn argyfyngau, ac yn enwedig ar benwythnosau. A wnewch chi roi sicrwydd i'r Siambr a thawelu ofnau fy etholwyr drwy gadarnhau y byddant yn cael triniaeth o'r radd flaenaf, waeth beth yw eu hoedran?

Lesley Griffiths: Yn bendant. Mae'r GIG yno i bawb, waeth beth yw eu hoedran.

Bethan Jenkins: Minister, my colleague, Lindsay Whittle, recently went to Clydach hospital in my region and met the group Healing the Wounds, which is a charity helping people who have post-traumatic stress disorder. He said that the hospital was

ysbyty ei droi i mewn i gartrefi, ond mae gan yr elusen ddiddordeb mewn rhedeg yr ysbyty hwnnw os bydd y bwrdd iechyd yn cytuno un ai i'w werthu neu efallai i'w roi i'r elusen. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'r elusen i geisio dod i gytundeb o ran sut y gall barhau i ddefnyddio'r ysbyty?

Lesley Griffiths: I have not had any discussions with the charity, and I am not aware of any with my officials, but I will look into it and write to the Member.

David Rees: Minister, two weeks ago, you came to visit the walk-in physiotherapy facilities at the Baglan Moors resources centre in my constituency, which is an excellent example of how we can take services out to the community and away from a traditional hospital environment. It is an excellent facility that is accepted and appreciated by people. What actions will the Welsh Government take to ensure that such schemes are rolled out across the wider populations, providing better services closer to people?

Lesley Griffiths: It was a great example of best practice. I do not think that I have seen another like it in my year as Minister for health. It was about patients being seen in the right place, at the right time, by the right people. The infrastructure was there for it to happen, which was important, and the satisfaction not just of patients, but also of staff, was certainly apparent. Staff felt empowered, and although they thought that they would be flooded with people just walking in and self-referring, that had not happened. I am setting up a best practice and innovation board, and I will want the board to look at examples such as the one that you mentioned to ensure that those sorts of facilities are rolled out across Wales.

Cynlluniau Byrddau Iechyd Lleol

4. Elin Jones: *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Byrddau Iechyd Lleol am eu cynlluniau ar gyfer y 12 mis nesaf. OAQ(4)0127(HSS)*

to be turned into homes, but that the charity is interested in running the hospital if the health board would agree either to sell it or perhaps to donate it to the charity. What discussions have you had with the charity to try to come to an agreement with it regarding how it can continue to make use of the hospital?

Lesley Griffiths: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau â'r elusen, ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau â'm swyddogion, ond byddaf yn ymchwilio i'r mater ac yn ysgrifennu at yr Aelod.

David Rees: Weinidog, bythefnos yn ôl, daethoch i ymweld â'r cyfleusterau ffisiotherapi galw i mewn yng nghanolfan adnoddau Rhosydd Baglan yn fy etholaeth, sy'n enghraifft ardderchog o sut y gallwn fynd â gwasanaethau allan i'r gymuned ac i ffwrdd o amgylchedd ysbyty traddodiadol. Mae'n gyfleuster ardderchog sy'n cael ei dderbyn a'i werthfawrogi gan bobl. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn cael eu cyflwyno ar draws poblogaethau ehangach, gan ddarparu gwasanaethau gwell yn nes at bobl?

Lesley Griffiths: Roedd yn enghraifft wych o arfer gorau. Nid wyf yn meddwl fy mod wedi gweld un arall tebyg iddo yn ystod fy mlwyddyn fel Gweinidog iechyd. Roedd a wnelo â chleifion yn cael eu gweld yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, gan y bobl iawn. Roedd y seilwaith yno i hynny ddigwydd, a oedd yn bwysig, ac roedd boddhad nid yn unig y cleifion, ond y staff hefyd, yn sicr yn amlwg. Roedd y staff yn teimlo eu bod wedi'u grymuso, ac er iddynt gredu y byddai llawer iawn o bobl yn cerdded i mewn ac yn eu cyfeirio eu hunain at y ganolfan, nid oedd hynny wedi digwydd. Rwyf yn sefydlu bwrdd arfer gorau ac arloesi, a byddaf am i'r bwrdd edrych ar enghreifftiau megis yr un a grybwyllwyd gennyh, er mwyn sicrhau bod y mathau hynny o gyfleusterau'n cael eu cyflwyno ar draws Cymru.

Local Health Board Plans

4. Elin Jones: *What discussions has the Minister had with Local Health Boards regarding their plans for the next 12 months. OAQ(4)0127(HSS)*

Lesley Griffiths: My officials meet health boards regularly to discuss a range of issues relating to health services. I last met the chairs of health boards on Wednesday, 16 May.

Elin Jones: Dywedasoch yn gynharach y prynhawn yma y byddai'r byrddau iechyd yn cyhoeddi eu cynlluniau ailgyflunio yn y dyfodol agos—yn ystod yr haf, o bosibl. A fyddwch yn gweld y cynlluniau hynny cyn iddynt gael eu cyhoeddi, ac a fyddwch yn eu cytuno ar gyfer ymgynghoriad?

Lesley Griffiths: I personally will not have sight of those plans before formal consultation. My officials will, to ensure that the plans that will have gone through the national clinical forum fit in with Welsh Government policy.

William Graham: On the reconfiguration of services by local health boards, we are all aware that one alarming indicator of our ageing population is that almost a third of staff working in the NHS are aged 50 or over. In view of that, how do you feel confident that we can attract the right staff in Wales when there are already difficulties attracting doctors?

Lesley Griffiths: It is a difficulty, and we have accepted that. That is why we have started the medical recruitment campaign. However, it is not just about doctors, and it is important that we continue to attract the right staff. I work closely on workforce development with my officials.

William Graham: Thank you for your answer on that point, Minister. I want to ask you about people diagnosed with diabetes. It is acknowledged that the increase in diabetes accounts for an estimated 10% of NHS costs, and many types of diabetes are a result of lifestyle factors and are therefore largely preventable. How could you promote healthy lifestyles to combat diabetes and prevent other health conditions?

Lesley Griffiths: Mae fy swyddogion yn cwrdd â byrddau iechyd yn rheolaidd i drafod ystod o faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd. Y tro diwethaf imi gyfarfod â chadeiryddion byrddau iechyd oedd dydd Mercher, 16 Mai.

Elin Jones: You said earlier this afternoon that the health boards would publish their plans for reconfiguration in the near future—possibly over the summer. Will you have sight of those schemes before they are published, and will you agree them for consultation?

Lesley Griffiths: Ni fyddaf i'n bersonol yn gweld y cynlluniau hynny cyn yr ymgynghoriad ffurfiol. Bydd fy swyddogion yn eu gweld er mwyn sicrhau bod y cynlluniau a fydd wedi mynd drwy'r fforwm clinigol cenedlaethol yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru.

William Graham: O ran ad-drefnu gwasanaethau gan fyrddau iechyd lleol, rydym i gyd yn ymwybodol mai un dangosydd brawychus o'n poblogaeth sy'n heneiddio yw bod bron i draean y staff sy'n gweithio yn y GIG yn 50 oed neu'n hŷn. O ystyried hynny, sut yr ydych yn hyderus y gallwn ddenu'r staff cywir yng Nghymru, pan geir anawsterau eisoes o ran denu meddygon?

Lesley Griffiths: Mae'n anhawster, ac rydym wedi derbyn hynny. Dyna pam yr ydym wedi dechrau'r ymgyrch recriwtio feddygol. Fodd bynnag, nid oes a wnelo hyn â meddygon yn unig, ac mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddenu'r staff cywir. Rwyf yn gweithio'n agos gyda'm swyddogion ar ddatblygu'r gweithlu.

William Graham: Diolch am eich ateb ar y pwynt hwnnw, Weinidog. Rwyf am eich holi am bobl sy'n cael diagnosis o ddiabetes. Cydnabyddir bod y cynnydd mewn diabetes yn cyfrif am oddeutu 10% o gostau'r GIG, ac mae llawer o wahanol fathau o ddiabetes yn ganlyniad ffactorau sy'n ymwneud â ffordd o fyw, ac mae modd eu hatal i raddau helaeth, felly. Sut y gallech hyrwyddo ffyrdd iach o fyw i fynd i'r afael â diabetes ac atal cyflyrau iechyd eraill?

Lesley Griffiths: That is a priority for us as a Government. When there are failings, the NHS picks them up, but it is about making people realise, in ensuring that they have the right information, that the right services are there for them. We are all in it together, to coin a phrase, and we need to look after ourselves and ensure that we maintain healthy lifestyles.

Lesley Griffiths: Mae hynny'n flaenoriaeth inni fel Llywodraeth. Pan fydd diffygion, mae'r GIG yn mynd i'r afael â hwy, ond mae a wnelo â gwneud i bobl sylweddoli, drwy sicrhau bod y wybodaeth gywir ganddynt, bod y gwasanaethau cywir yno ar eu cyfer. Rydym yn y sefyllfa hon gyda'n gilydd, fel y dywed pawb, ac mae angen inni ofalu amdanom ein hunain a sicrhau ein bod yn cynnal ffyrdd iach o fyw.

1.45 p.m.

William Powell: Less than an hour ago, the Petitions Committee received a petition carrying over 26,000 signatures from the citizens of Llanelli and the surrounding area with respect to the retention of key services at Prince Philip Hospital. What advice would you give to Hywel Dda Local Health Board as to how it can restore trust in terms of its forward plans and the safety of that community?

William Powell: Lai nag awr yn ôl, cafodd y Pwyllgor Deisebau ddeiseb ac arni dros 26,000 o lofnodion gan ddinasyddion Llanelli a'r ardal gyfagos ynghylch cadw gwasanaethau allweddol yn Ysbyty'r Tywysog Philip. Pa gyngor y byddech yn ei roi i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ynghylch sut y gall adfer ymddiriedaeth o safbwynt ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol a diogelwch y gymuned honno?

Lesley Griffiths: The Hywel Dda health board is doing all that it can. It has had a prolonged period of engagement, which I asked it to extend, and it will be presenting its formal proposals for public consultation, as I said, in late summer or early autumn. I encourage everyone to get involved in that. I assure everyone in this Chamber, and outside of it, that I understand how strongly people feel about the healthcare services in their local area, but this is not about buildings; it is about services and ensuring that we have the proper services for the people of Wales. We must all accept that change needs to happen. We must ensure that we have those safe, sustainable, high-quality and effective services that we all want for the people of Wales.

Lesley Griffiths: Mae bwrdd iechyd Hywel Dda yn gwneud popeth o fewn ei allu. Mae wedi cael cyfnod hir o ymgysylltu, y gofynnais iddo ei ymestyn, a bydd yn cyflwyno ei gynigion ffurfiol i ymgynghori â'r cyhoedd yn eu cylch, fel y dywedais, ddiwedd yr haf neu ddechrau'r hydref. Rwyf yn annog pawb i gymryd rhan yn hynny. Hoffwn sicrhau pawb yn y Siambr hon, a'r tu allan iddi, fy mod yn deall mor gryf y mae pobl yn teimlo am y gwasanaethau gofal iechyd sydd yn eu hardal leol, ond nid oes a wnelo hyn ag adeiladau; mae a wnelo â gwasanaethau a sicrhau bod y gwasanaethau priodol gennym ar gyfer pobl Cymru. Rhaid inni i gyd dderbyn bod angen i newid ddigwydd. Rhaid inni sicrhau bod gennym y gwasanaethau diogel, cynaliadwy, effeithiol hynny o ansawdd uchel yr ydym i gyd am eu cael ar gyfer pobl Cymru.

Iechyd a Lles

5. Julie Morgan: *Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella iechyd a lles pobl Cymru ymhellach. OAQ(4)0130(HSS)*

Health and Wellbeing

5. Julie Morgan: *What plans does the Minister have to further improve the health and well-being of the people of Wales. OAQ(4)0130(HSS)*

Lesley Griffiths: ‘Together for Health’ sets out how we aim to improve health and health services for the people of Wales. It re-emphasises the importance of preventing ill health and of improving health by encouraging healthy lifestyles, and takes forward our public health priorities.

Julie Morgan: I thank the Minister for that response. Next week, the Minister will open a garden in the Children’s Hospital for Wales at the University Hospital of Wales and, some years ago, I opened a garden next to the concourse at the University Hospital of Wales. What benefits do green spaces in hospital areas provide for the health and wellbeing of patients?

Lesley Griffiths: They are hugely important. I visited a hospital in north Wales last week, and one garden that I passed was beautiful and was full of patients enjoying the spring weather, while another one was completely overgrown and empty of people. People want to go out to sit in natural surroundings if they can. I have asked my officials to ask Public Health Wales to carry out a review for the Welsh Government on the provision of green spaces in relation to health inequalities, given that green space is beneficial. It improves both physical and mental health and promotes wellbeing.

Antoinette Sandbach: I recently wrote to you about the health and wellbeing of a constituent of mine with suspected spinal injuries who had been waiting outside Glan Clwyd Hospital for three hours, along with four other ambulances stacked up. He would not have been held at Glan Clwyd if there had been an ability to admit him either at Ysbyty Gwynedd or at Wrexham Maelor Hospital. What assurances can you give to my constituent that, given the high level of demand on accident and emergency services in north Wales, there will be no downgrading of any accident and emergency departments in the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area?

Lesley Griffiths: I do not want to see the downgrading of any services in Wales. Therefore, your constituent has my absolute

Lesley Griffiths: Mae ‘Law yn Llaw at Iechyd’ yn nodi sut yr ydym yn bwriadu gwella iechyd a gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl Cymru. Mae’n ailbwysleisio pwysigrwydd atal afiechyd a gwella iechyd drwy annog ffyrdd iach o fyw, ac mae’n symud ein blaenoriaethau ar gyfer iechyd y cyhoedd yn eu blaen.

Julie Morgan: Diolchaf i’r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Yr wythnos nesaf, bydd y Gweinidog yn agor gardd yn Ysbyty Plant Cymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Rai blynyddoedd yn ôl, agorais innau ardd wrth ymyl y cyntedd yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Pa fanteision y mae mannau gwyrdd mewn ardaloedd ysbytai’n eu darparu ar gyfer iechyd a lles cleifion?

Lesley Griffiths: Maent yn bwysig tu hwnt. Bûm yn ymweld ag ysbyty yn y gogledd yr wythnos diwethaf, ac roedd un ardd yr euthum heibio iddi yn hardd ac yn llawn cleifion a oedd yn mwynhau tywydd y gwanwyn, tra oedd gardd arall yn hollol wyllt heb neb ynddi. Mae pobl am fynd allan i eistedd mewn amgylchedd naturiol os gallant. Rwyf wedi gofyn i’m swyddogion ofyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru gynnal adolygiad ar ran Llywodraeth Cymru ar ddarparu mannau gwyrdd yng nghyswllt anghydraddoldebau iechyd, o gofio bod mannau gwyrdd yn fuddiol. Maent yn gwella iechyd corfforol a meddyliol ac yn hybu lles.

Antoinette Sandbach: Yn ddiweddar, ysgrifennais atoch am iechyd a lles un o’r hetholwyr yr amheuwyd bod ganddo anafiadau i’w asgwrn cefn ac a oedd wedi bod yn aros y tu allan i Ysbyty Glan Clwyd am dair awr, lle’r oedd pedwar ambiwlans arall yn aros hefyd. Ni fyddai wedi cael ei gadw yng Nglan Clwyd pe gellid bod wedi’i dderbyn naill ai i Ysbyty Gwynedd neu i Ysbyty Maelor Wrecsam. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i’r hetholwr, o ystyried y lefel uchel o alw sydd ar wasanaethau damweiniau ac achosion brys yn y gogledd, na fydd unrhyw adrannau damweiniau ac achosion brys yn cael eu hisraddio yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr?

Lesley Griffiths: Nid wyf am weld unrhyw wasanaethau’n cael eu hisraddio yng Nghymru. Felly, gallaf roi sicrwydd pendant

assurance that that will not happen.

Rhodri Glyn Thomas: Mewn ymateb cynharach i gwestiwn gan Kirsty Williams, bu ichi gyfeirio at y ffigurau sydd wedi'u rhyddhau heddiw gan Macmillan Cancer Support ynglŷn â thlodi cancer. A dderbyniwch fod y ffigurau hyn yn dangos bod angen dybryd i Lywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth ar gyfer cancer a fyddai'n mynd i'r afael â rhai o'r problemau lleol y soniodd Kirsty Williams amdanynt? A allwch chi gadarnhau mai dyma'r union fath o bobl a fyddai'n gwneud cais am fudd-dal y dreth gyngor, oherwydd yr effaith y gall eu hafiechyd ei chael ar incwm y teulu?

Lesley Griffiths: As I mentioned in answer to Kirsty Williams, we are working closely with Macmillan on our cancer delivery plan, which will come to fruition very soon. This is something on which we will be working closely with Macmillan.

Eluned Parrott: The issue of bedblocking is a practical problem for our health boards, but, for individual patients, being kept in hospital longer than is strictly necessary while they are waiting for proper social care packages to be put together is deeply distressing and can have a significant detrimental impact on their long-term health and wellbeing. What steps will you take over the next year to speed up the safe discharge of patients from our hospitals?

Lesley Griffiths: Bedblocking is a matter of greater concern, as is the delayed transfers of care. I work closely with the Deputy Minister for Children and Social Services on these issues. We are doing a great deal of work on several policies to ensure that health and social services are much more integrated, because I do not think that we have that integration at present. That will be a priority for me and the Deputy Minister over the coming year.

Gofal i'r Newydd-anedig

6. Rebecca Evans: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal i'r newydd-anedig. OAQ(4)0123(HSS)*

i'ch etholwr na fydd hynny'n digwydd.

Rhodri Glyn Thomas: In response to an earlier question from Kirsty Williams, you referred to the figures released by Macmillan Cancer Support today on cancer poverty. Do you accept that these figures demonstrate that there is a real need for the Welsh Government to introduce a cancer strategy that would get to grips with some of the local issues that Kirsty Williams mentioned? Can you confirm that these are the very same people who would apply for council tax benefit, given the impact that their illness can have on family income?

Lesley Griffiths: Fel y soniais wrth ateb Kirsty Williams, rydym yn gweithio'n agos gyda Macmillan ar ein cynllun cyflawni ar gyfer cancer, a fydd yn dod i'w derfyn yn fuan iawn. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn gweithio'n agos arno gyda Macmillan.

Eluned Parrott: Mae blocio gwelyau'n broblem ymarferol i'n byrddau iechyd, ond, ar gyfer cleifion unigol, mae cael eu cadw yn yr ysbyty'n hwy nag sydd raid tra byddant yn aros i becynnau gofal cymdeithasol priodol gael eu llunio'n peri gofid difrifol, a gall gael effaith niweidiol sylweddol ar eu hiechyd a'u lles hirdymor. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd yn ystod y flwyddyn nesaf i gyflymu'r broses o ryddhau cleifion yn ddiogel o'n hysbytai?

Lesley Griffiths: Mae blocio gwelyau yn fater sy'n peri mwy o bryder, fel y mae oedi wrth drosglwyddo gofal. Rwyf yn gweithio'n agos gyda'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y materion hyn. Rydym yn gwneud llawer iawn o waith ar nifer o bolisiau i sicrhau bod iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn fwy integredig o lawer, oherwydd nid wyf yn meddwl bod yr integreiddio hwnnw gennym ar hyn o bryd. Bydd hynny'n flaenoriaeth i mi a'r Dirprwy Weinidog dros y flwyddyn nesaf.

Neonatal Care

6. Rebecca Evans: *Will the Minister make a statement on neonatal care. OAQ(4)0123(HSS)*

Lesley Griffiths: The planning and delivery of neonatal care are matters for the health boards. All health boards across Wales have actions under way to improve the safety, sustainability and quality of neonatal care.

Rebecca Evans: The Royal College of Nursing has warned that neonatal nurses are particularly stretched, and the charity Bliss has said that Wales needs an extra 82 nurses to meet the necessary levels of care in special care baby units. What plans do you have to hold the health boards to account to ensure that they address this shortfall?

Lesley Griffiths: Health boards have been directed to address operational risks and gaps in compliance with the all-Wales neonatal care standards, including the shortfall in nursing levels, through robust action plans. I recognise that the pace of improvement has been slow, and the chief executive of NHS Wales and I have raised concerns directly with health board chairs and chief executives. Some excellent work is being done by staff, who are working hard. I do not want to demoralise those staff at all, because we have high clinical standards. However, I am still not satisfied with the overall pace of improvement.

Andrew R.T. Davies: Minister, maternity services and neonatal services have been facing significant pressures over recent years. That pressure is going to increase with an increasing birth rate. My colleague, William Graham, touched on the ageing profile of NHS staff, who do a remarkable job under trying circumstances. What exactly will you do to ensure that midwives are recruited and retained in the Welsh NHS, given that the increase in the birth rate is occurring across the United Kingdom? If we are to meet the needs and challenges, we need to ensure that we hold on to our midwives.

Lesley Griffiths: Mae'r gwaith o gynllunio a darparu gofal i'r newydd-anedig yn faterion i'r byrddau iechyd. Mae gan bob bwrdd iechyd ar draws Cymru gamau gweithredu ar y gweill i wella diogelwch, cynaliadwyedd ac ansawdd gofal i'r newydd-anedig.

Rebecca Evans: Mae Coleg Brenhinol y Nyrsys wedi rhybuddio bod nyrsys gofal i'r newydd-anedig, yn enwedig, dan bwysau, ac mae'r elusen Bliss wedi dweud bod angen 82 o nyrsys ychwanegol ar Gymru i fodloni'r lefelau gofal angenrheidiol mewn unedau gofal arbennig i fabanod. Pa gynlluniau sydd gennych i ddwyn y byrddau iechyd i gyfrif i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r diffyg hwn?

Lesley Griffiths: Mae byrddau iechyd wedi cael cyfarwyddyd i fynd i'r afael â risgiau gweithredol a bylchau o ran cydymffurfio â safonau gofal Cymru gyfan i'r newydd-anedig, gan gynnwys y diffyg mewn lefelau nyrsio, drwy gynlluniau gweithredu cadarn. Rwyf yn cydnabod bod gwelliant wedi bod yn araf, ac mae prif weithredwr GIG Cymru a minnau wedi mynegi pryderon yn uniongyrchol wrth gadeiryddion a phrif weithredwyr byrddau iechyd. Mae gwaith ardderchog yn cael ei wneud gan staff, sy'n gweithio'n galed. Nid wyf am ddigalonni'r staff hynny o gwbl, oherwydd mae gennym safonau clinigol uchel. Fodd bynnag, nid wyf yn fodlon o hyd â chyflymder cyffredinol gwelliant.

Andrew R.T. Davies: Weinidog, mae gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau i'r newydd-anedig wedi bod yn wynebu pwysau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd y pwysau hwnnw'n cynyddu wrth i'r gyfradd genedigaethau gynyddu. Soniodd fy nghydweithiwr, William Graham, am broffil hŷn staff y GIG, sy'n gwneud gwaith nodedig dan amgylchiadau anodd. Beth yn union y byddwch yn ei wneud i sicrhau bod bydwagedd yn cael eu recriwtio a'u cadw yn y GIG yng Nghymru, o ystyried bod y gyfradd genedigaethau'n cynyddu ar draws y Deyrnas Unedig? Os ydym am ddiwallu'r anghenion ac ateb yr heriau, mae angen inni sicrhau ein bod yn dal ein gafael ar ein bydwagedd.

Lesley Griffiths: It is good that midwives would prefer to work in the NHS in Wales rather than in England. As I mentioned in my answer to William Graham, I work closely with my officials in the workforce and operations department to ensure that we have the relevant staff, so that it is projected. We need to ensure that we retain staff in that way.

Jocelyn Davies: Minister, you will know that the Children and Young People Committee has already heard evidence about serious concerns regarding neonatal care in our hospitals. I think that the shortage of specialist nurses is at the forefront of that. Is this a priority for you? None of the local health boards have said that they intend to recruit in the near future to the recommended levels. What can you do to insist that they do?

Lesley Griffiths: I am aware of the Children and Young People Committee's inquiry, and I will be giving evidence to the committee next week. Senior health officials have been scrutinising the action plans from the health boards and continue to do so. They need to continue to work with health boards and the all-Wales neonatal network's lead clinician to strengthen those action plans to ensure that we address all of these issues, including the shortfall in nursing levels. Health boards must have robust action plans, and I have to be reassured that those plans are thorough and will deliver the service that we want. You will have heard me say in my answer to Rebecca Evans that I am concerned about the slow pace of improvement.

Hybu Iechyd

7. Lindsay Whittle: *A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r ffigurau ar gyfer y gyllideb a ddyrannwyd ledled Cymru ar gyfer mentrau a phrosiectau hybu iechyd. OAQ(4)0125(HSS)*

Lesley Griffiths: Just over £6 million has been allocated centrally to the health improvement budget, which is in place to

Lesley Griffiths: Da o beth yw y byddai'n well gan fydwragedd weithio yn y GIG yng Nghymru nag yn Lloegr. Fel y soniais yn fy ateb i William Graham, rwyf yn gweithio'n agos gyda'm swyddogion yn yr adran gweithlu a gweithrediadau i sicrhau bod gennym y staff perthnasol, fel bod modd cynllunio hynny. Mae angen inni sicrhau ein bod yn cadw staff yn y modd hwnnw.

Jocelyn Davies: Weinidog, byddwch yn gwybod bod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc eisoes wedi clywed tystiolaeth am bryderon difrifol ynghylch gofal i'r newydd-anedig yn ein hysbytai. Credaf fod y prinder nyrsys arbenigol yn gyfrifol i raddau helaeth am y pryderon hynny. A yw hynny'n flaenoriaeth ichi? Nid yw'r un o'r byrddau iechyd lleol wedi dweud eu bod yn bwriadu recriwtio yn y dyfodol agos i gyrraedd y lefelau a argymhellir. Beth y gallwch ei wneud i fynnu eu bod yn gwneud hynny?

Lesley Griffiths: Rwyf yn ymwybodol o ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, a byddaf yn rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor yr wythnos nesaf. Mae uwch-swyddogion iechyd wedi bod yn craffu ar gynlluniau gweithredu'r byrddau iechyd, ac maent yn parhau i wneud hynny. Mae angen iddynt barhau i weithio gyda byrddau iechyd a chlinigydd arweiniol rhwydwaith gofal i'r newydd-anedig Cymru gyfan i gryfhau'r cynlluniau gweithredu hynny er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r holl faterion hyn, gan gynnwys y diffyg mewn lefelau nyrsio. Rhaid i fyrdau iechyd gael cynlluniau gweithredu cadarn, a rhaid imi gael sicrwydd bod y cynlluniau hynny'n drylwyr ac y byddant yn darparu'r gwasanaeth y mae arnom ei eisiau. Byddwch wedi fy nghlywed yn dweud yn fy ateb i Rebecca Evans fy mod yn pryderu am arafwch gwelliant.

Health Promotion

7. Lindsay Whittle: *Will the Minister provide figures for the budget allocated across Wales for health promotion initiatives and projects. OAQ(4)0125(HSS)*

Lesley Griffiths: Mae ychydig dros £6 miliwn wedi'i ddyrannu yn ganolog i'r gyllideb gwella iechyd, sydd ar gael i

deliver health promotion initiatives and action in support of the programme for government. In addition, Public Health Wales, the health boards and their partners allocate funding for health promotion activities.

Lindsay Whittle: Thank you for your reply, Minister. Are you satisfied that the work of Public Health Wales—we have heard that it has cost £6 million—is achieving cost-effective outcomes in improving the health and wellbeing of people living in the most disadvantaged areas in Wales? The statistics seem to indicate otherwise.

Lesley Griffiths: We can always do more, but, as I said before, it is not just about the NHS; it is also about the public, housing, jobs and social cohesion. However, the initiatives we have are delivering the outcomes. We constantly monitor them to make sure that that is the case.

Sandy Mewies: Minister, on the subject of health promotion, you will be aware that the cross-party group on vision loss is concerned that 50% of people losing their sight could have preventable sight loss. We feel that health promotion could greatly help out with this and we hope that you will consider this in greater depth in the future.

Lesley Griffiths: Thank you, Sandy. I know that you have done a great deal of work with that group in relation to sight loss. A statistic of 50% preventable sight loss is horrifying. We debated the issue a couple of weeks ago in the Chamber, and I am committed to the public health aspect of it.

Paul Davies: As you are no doubt aware, Minister, Health Challenge Pembrokeshire has supported a number of long-term schemes such as oral health and nutritional projects in my constituency. As Health Challenge Pembrokeshire is funded by the Welsh Government, can the Minister tell us how the Welsh Government is monitoring and evaluating schemes such as this to ensure

ddarparu mentrau hybu iechyd a chamau gweithredu i gefnogi'r rhaglen lywodraethu. Yn ogystal, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, y byrddau iechyd a'u partneriaid yn dyrannu cyllid ar gyfer gweithgareddau hybu iechyd.

Lindsay Whittle: Diolch am eich ateb, Weinidog. A ydych yn fodlon bod gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru—rydym wedi clywed ei fod wedi costio £6 miliwn—yn sicrhau canlyniadau cost-effeithiol o ran gwella iechyd a lles pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru? Ymddengys fod yr ystadegau'n dangos fel arall.

Lesley Griffiths: Gallwn bob amser wneud mwy, ond, fel y dywedais o'r blaen, nid oes a wnelo hyn â'r GIG yn unig; mae a wnelo hefyd â'r cyhoedd, tai, swyddi a chydlyniant cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r mentrau sydd gennym yn cyflawni'r canlyniadau. Rydym yn eu monitro'n gyson i sicrhau bod hynny'n wir.

Sandy Mewies: Weinidog, o ran hybu iechyd, byddwch yn ymwybodol bod y grŵp trawsbleidiol ar golli golwg yn pryderu y gallai 50% o achosion o bobl yn colli eu golwg fod yn achosion y gellid eu hatal. Rydym yn teimlo y gallai camau i hybu iechyd helpu'n fawr o ran hynny, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn ystyried y mater yn fanylach yn y dyfodol.

Lesley Griffiths: Diolch, Sandy. Gwn eich bod wedi gwneud llawer iawn o waith gyda'r grŵp hwnnw ar golli golwg. Mae'r ystadegyn sy'n dangos y gallai 50% o achosion o golli golwg fod yn achosion y gellid bod wedi eu hatal yn arswydus. Cawsom drafodaeth ar y mater rai wythnosau'n ôl yn y Siambr, ac rwyf wedi ymrwymo i'r agwedd ar hynny sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

Paul Davies: Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, Weinidog, mae Her Iechyd Sir Benfro wedi cefnogi nifer o gynlluniau hirdymor megis prosiectau iechyd y geg a maeth yn fy etholaeth. Gan fod Her Iechyd Sir Benfro yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, a all y Gweinidog ddweud wrthym sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso cynlluniau megis y rhain er mwyn

value for money and to ensure that real outcomes are achieved?

Lesley Griffiths: It is important that we evaluate all our programmes to make sure that we are getting the outcomes that we want. I cannot give you the exact details that you asked for, but I will write to you.

Ysbytai y Canolbarth a'r Gorllewin

8. Simon Thomas: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau ysbytai yn y GIG yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(4)0129(HSS)*

Lesley Griffiths: Hospital services in this area are being reviewed, and formal public consultation on change proposals will take place in late summer or early autumn. I have made clear that these must take full account of the distinctive rural characteristics of mid and west Wales.

Simon Thomas: Thank you for that reply, Minister, and for the particular emphasis on consultation. It was very nice to see a few Labour placards outside the Assembly today saying 'Labour standing up for Prince Philip'—no scaremongering going on there, of course. Yesterday, Minister, your Government published the 'Wales Infrastructure Investment Plan for Growth and Jobs'. On page 85, there is a map of the health services in Wales, which clearly designates Prince Philip Hospital not as a full but a minor A&E unit, a designation that is unique in the whole of Wales. Does this not mean that consultation is a sham, and that you have already decided to downgrade services at Prince Philip Hospital?

Lesley Griffiths: As I said earlier, I do not want to hear any talk about downgrading. No services will be downgraded. It is not only opposition parties that look after their constituents and raise concerns on their behalf. I have never used the word 'scaremongering'. We all know that the status quo is unsustainable. It is not a sham. We will be going to formal public

sicrhau gwerth am arian a sicrhau bod canlyniadau go iawn yn cael eu cyflawni?

Lesley Griffiths: Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso ein rhaglenni i gyd i wneud yn siŵr ein bod yn cael y canlyniadau yr ydym yn eu dymuno. Ni allaf roi'r union fanylion yr ydych wedi gofyn amdanynt, ond ysgrifennaf atoch.

Hospitals in Mid and West Wales

8. Simon Thomas: *Will the Minister make a statement about hospital services in the NHS in Mid and West Wales. OAQ(4)0129(HSS)*

Lesley Griffiths: Mae gwasanaethau ysbytai yn yr ardal hon yn cael eu hadolygu, a bydd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y cynigion ynghylch newidiadau'n digwydd ddiwedd yr haf neu ddechrau'r hydref. Rwyf wedi nodi'n glir bod yn rhaid i'r rhain roi ystyriaeth lawn i nodweddion gwledig arbennig canolbarth a gorllewin Cymru.

Simon Thomas: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog, ac am y pwyslais arbennig ar ymgynghori. Roedd yn braf iawn gweld rhai o blacardiau'r Blaid Lafur y tu allan i'r Cynulliad heddiw, a oedd yn dweud bod y Blaid Lafur yn amddiffyn buddiannau Ysbyty'r Tywysog Philip—afraid dweud nad oedden nhw am godi bwganod. Ddoe, Weinidog, cyhoeddodd eich Llywodraeth y 'Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i hybu Twf a Swyddi'. Ar dudalen 85, ceir map o'r gwasanaethau iechyd yng Nghymru, sy'n amlwg yn dynodi Ysbyty'r Tywysog Philip nid fel uned A&E lawn ond fel uned A&E lai, sef dynodiad sy'n unigryw yng Nghymru gyfan. Onid yw hynny'n golygu mai lol yw'r broses ymgynghori, a'ch bod eisoes wedi penderfynu israddio gwasanaethau yn Ysbyty'r Tywysog Philip?

Lesley Griffiths: Fel y dywedais yn gynharach, nid wyf am glywed unrhyw sôn am israddio. Ni fydd unrhyw wasanaethau'n cael eu hisraddio. Nid gwrthbleidiau'n unig sy'n gofalu am eu hetholwyr ac sy'n mynegi pryderon ar eu rhan. Nid wyf erioed wedi defnyddio'r term 'scaremongering'. Rydym i gyd yn gwybod nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy. Nid lol yw'r broses

consultation in late summer or early autumn.

Russell George: Has the Minister been informed of the findings of the listening exercises that Hywel Dda health board undertook during March and April? Is so, could you provide any of those details?

Lesley Griffiths: No, I have not.

Anghydraddoldebau Iechyd

9. Mark Drakeford: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru. OAQ(4)0126(HSS)*

Lesley Griffiths: Good health and wellbeing should not depend on where people live or their social circumstances. The importance of reducing health inequalities is highlighted in our five-year vision for the NHS in Wales, 'Together for Health'. We are committed to achieving this through our 'Fairer Health Outcomes for All' action plan.

Mark Drakeford: In the reforms that are bound to be needed in the health service over the coming years, will you pay particular attention to the need to ensure that we spend our money where the need is greatest? In the end, that is the best way to tackle health inequalities. In doing that, will you keep a particular eye on the needs of mental health service users, who we know are already disadvantaged in all sorts of other ways, including employment, housing, access to education and other parts of social life?

Lesley Griffiths: The first point you raise is very important. Looking at the inverse care law, I had the pleasure of meeting Dr Julian Tudor Hart, and discussing that with him. We need to do a big piece of work on this, which is what I plan to do in the coming months. In order to have an agreed model, I have had officials look at the Deep End project that is

ymgyngori. Byddwn yn cynnal ymgyngoriad cyhoeddus ffurfiol ddiwedd yr haf neu ddechrau'r hydref.

Russell George: A yw'r Gweinidog wedi cael gwybod am ganfyddiadau'r ymarferion gwrando a gynhaliodd bwrdd iechyd Hywel Dda yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill? Os felly, a allech ddarparu unrhyw rai o'r manylion hynny?

Lesley Griffiths: Nac ydw, nid wyf wedi cael gwybod amdanynt.

Health Inequalities

9. Mark Drakeford: *Will the Minister make a statement on tackling health inequalities in Wales. OAQ(4)0126(HSS)*

Lesley Griffiths: Ni ddylai iechyd a lles da ddibynnu ar ble mae pobl yn byw na'u hamgylchiadau cymdeithasol. Caiff pwysigrwydd lleihau anghydraddoldebau iechyd ei amlygu yn ein gweledigaeth bum mlynedd ar gyfer y GIG yng Nghymru, 'Law yn Llaw at Iechyd'. Rydym wedi ymrwymo i wireddu'r weledigaeth drwy ein cynllun gweithredu 'Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb'.

Mark Drakeford: Yn y diwygiadau y mae'n siŵr y bydd eu hangen yn y gwasanaeth iechyd dros y blynyddoedd nesaf, a wnewch chi roi sylw arbennig i'r angen i sicrhau ein bod yn gwario ein harian lle y mae'r angen mwyaf? Yn y pen draw, dyna'r ffordd orau o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Wrth wneud hynny, a wnewch chi gadw golwg arbennig ar anghenion defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, y gwyddom eu bod eisoes dan anfantais mewn pob math o ffyrdd eraill, gan gynnwys o ran cyflogaeth, tai, mynediad i addysg ac agweddau eraill ar fywyd cymdeithasol?

Lesley Griffiths: Mae'r pwynt cyntaf yr ydych yn ei godi yn bwysig iawn. O ystyried y ddeddf wrthdro o ran gofal, cefais y pleser o gyfarfod â Dr Julian Tudor Hart a thrafod hynny ag ef. Mae angen inni wneud darn mawr o waith ar hyn, ac rwyf yn bwriadu gwneud hynny dros y misoedd nesaf. Er mwyn cael model y cytunir arno, rwyf wedi

being undertaken in Scotland, which Members may be aware of. It looks at the difference between good and bad care in different social areas, the difference that practices serving deprived areas can make and what they could achieve. That is very important. In relation to your point about mental health, we agree that the inequalities must be completely addressed. That is why we have the draft mental health strategy, 'Together for Mental Health', which I launched on 8 May, and that takes a cross-government approach.

gofyn i swyddogion edrych ar y prosiect Deep End sy'n cael ei gynnal yn yr Alban, y mae'r Aelodau efallai'n ymwybodol ohono. Mae'n edrych ar y gwahaniaeth rhwng gofal da a gofal gwael mewn gwahanol ardaloedd cymdeithasol, y gwahaniaeth y gall practisiau sy'n gwasanaethu ardaloedd difreintiedig ei wneud a'r hyn y gallent ei gyflawni. Mae hynny'n bwysig iawn. O ran eich pwynt am iechyd meddwl, rydym yn cytuno bod yn rhaid mynd i'r afael yn llwyr â'r anghydraddoldebau. Dyna pam y mae gennym y strategaeth ddrafft ar gyfer iechyd meddwl, 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', a lansiwyd gennyf ar 8 Mai, ac mae'n mabwysiadu dull trawslywodraethol o weithredu.

2.00 p.m.

I do not know whether you were at the launch of Time to Change Wales by Mind Cymru in the Wales Millennium Centre, where we heard from people with mental health problems about their difficulties in accessing employment. I should also add that Wales is the first country in the world to introduce a mental health Measure, which ensures that people who come into contact with specialist services have a holistic care and treatment plan.

Nid wyf yn gwybod a oeddech yn bresennol yn nigwyddiad lansio Amser i Newid Cymru gan Mind Cymru yng Nghanolfan y Mileniwm, lle y clywsom gan bobl â phroblemau iechyd meddwl am eu hanawsterau wrth geisio cael gwaith. Dylwn ychwanegu hefyd mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i gyflwyno Mesur iechyd meddwl, sy'n sicrhau bod pobl sy'n dod i gysylltiad â gwasanaethau arbenigol yn cael cynllun gofal a thriniaeth cyfannol.

Mohammad Asghar: Adults living in less deprived parts of Wales tend to live healthier lifestyles than those in our most deprived communities, and this is particularly apparent with regard to tobacco smoking rates. As of April this year, supermarkets and large shops in England need to cover up displays of cigarettes and tobacco products from public view, and the UK Government is also consulting on the standardisation of the packaging of tobacco products. What steps does the Welsh Government intend to take to discourage smoking in Wales?

Mohammad Asghar: Mae oedolion sy'n byw mewn rhannau llai difreintiedig o Gymru yn tueddu i fod â ffyrdd mwy iach o fyw na'r sawl sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ac mae hynny'n arbennig o amlwg o ran cyfraddau ysmegu tybaco. O fis Ebrill eleni ymlaen, mae angen i archfarchnadoedd a siopau mawr yn Lloegr guddio arddangosfeydd sigarêts a chynnyrch tybaco o olwg y cyhoedd, ac mae Llywodraeth y DU hefyd yn ymgynghori ynghylch safoni deunydd pacio cynnyrch tybaco. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i annog pobl yng Nghymru i beidio ag ysmegu?

Lesley Griffiths: We have several schemes, and my officials are working closely with the UK Government in relation to the packaging of cigarettes, because I think that we could make a big difference with that in encouraging people not to start smoking in the first place.

Lesley Griffiths: Mae gennym nifer o gynlluniau, ac mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU yng nghyswllt deunydd pacio sigarêts, gan fy mod yn credu y gallem ddefnyddio hynny i wneud gwahaniaeth mawr o ran annog pobl i beidio â dechrau ysmegu yn y lle cyntaf.

Bethan Jenkins: Yn Abertawe rydym yn ffodus bod gennym gyfleuster arbennig ar gyfer triniaethau gofal niwrolegol ac anafiadau i'r ymennydd, ond nid yw hynny'n wir am bob rhan o Gymru, yn enwedig i bobl ifanc. Cawsom ddeiseb gan Headway a Kyle's Goal ynglŷn â'r ffaith bod diffyg arbenigedd yng Nghymru yng nghyd-destun trin y broblem hon. Pa drafodaethau rydych wedi eu cael â'ch staff ynglŷn â sut y gellir gwella'r gwasanaeth hwn, yn enwedig o ran arbenigedd yn y maes?

Lesley Griffiths: We have made a huge improvement in neurological services, and it is ongoing. I have not had any contact from Headway. If it would like to write to me about its concerns, I would be very interested to have a meeting.

Bethan Jenkins: In Swansea, we are lucky in that we have a specialist facility for neurological care and for treating brain injuries, but the same is not true of every part of Wales, especially for young people. We have received a petition from Headway and Kyle's Goal on the lack of specialist care in Wales for these conditions. What discussions have you had with your staff about how this service can be improved, especially in terms of specialism in this field?

Lesley Griffiths: Rydym wedi gwneud gwelliant mawr o ran gwasanaethau niwrolegol, ac mae'r gwelliant hwnnw'n parhau. Nid wyf wedi cael unrhyw gyswllt gan Headway. Os hoffai ysgrifennu ataf ynghylch ei bryderon, byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn cael cyfarfod.

Bil Gwasanaethau Cymdeithasol

10. Aled Roberts: *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynglŷn â meini prawf cymhwyso'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol OAQ(4)0135(HSS)*

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Rwyf wedi trafod cynnwys y Bil gyda'r awdurdodau lleol yn fforwm partneriaeth cenedlaethol y gwasanaethau cymdeithasol ac yn ehangach wrth ymgynghori ar y Bil drafft. Bydd y cyswllt hwn yn parhau mewn gweithdai a gynhelir ar y cyd â'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yr haf hwn.

Aled Roberts: Byddwch yn ymwybodol bod 15 cyngor ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau cymdeithasol ar lefel sylweddol. Mae saith yn eu darparu ar lefel gymedrol. A oes gennych farn ar y safon y byddwch yn ymgynghori arni ar lefel genedlaethol, ac a ydych yn ymwybodol faint o bobl a fyddai'n colli gwasanaeth yn y saith cyngor dan sylw pe bai'r lefel yn codi?

Gwenda Thomas: Bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol yn darparu fframwaith cyffredinol eglur. Bwriad hwnnw yw gyrru ein hymrwymiad i wasanaethau cymdeithasol

Social Services Bill

10. Aled Roberts: *What discussions has the Minister had with local authorities regarding the eligibility criteria of the Social Services Bill. OAQ(4)0135(HSS)*

The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas): I have discussed the content of the Bill with local authorities in the national social services partnership forum and more widely as part of the consultation on the draft Bill. In collaboration with the Social Services Improvement Agency, summer workshops will progress this engagement.

Aled Roberts: You will be aware that 15 councils currently provide social services to a substantial level and that seven councils provide them to an intermediate level. Do you have a view on what standard you will consult on at a national level, and do you know how many people would lose their services within those seven councils if the level was improved?

Gwenda Thomas: The social services Bill will provide a clear general framework. The intention of that is to drive forward our commitment to sustainable social services.

cynaliadwy. Yn ganolog i'r bwriad, byddwn eisiau gwneud yn siŵr bod mwy o gysondeb ac ecwiti yn y ffordd y mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol a'r ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu. Un prif fwriad fydd gwneud yn siŵr bod gennym fframwaith cyffredinol ar asesu, bod y cymhwyster a'r asesiadau yn gludadwy a bod cysondeb mewn cynlluniau gofal i bobl Cymru.

Angela Burns: You state in the consultation on the social services Bill that local authorities should be able to share a director of social services. I ask for clarification: do you include the health boards as part of that? Do you think that they will be able to resolve the tensions that might occur from one person acting on behalf of the health board and, maybe, three or four individual local authorities, as happens in some areas already to a minor extent?

Gwenda Thomas: We have had examples of that in Wales. It will be up to local authorities to decide on their own governance, but I would encourage collaboration. We have set out quite clearly the six footprints and, within that, I expect collaboration. If that means sharing chief officers or heads of services, then all the better.

Lindsay Whittle: Deputy Minister, I agree with your statement that treatment for everyone across Wales should be equal. How confident are you that the eligibility criteria can be agreed and standardised across Wales so that access to care services will not turn out to be something of a postcode lottery?

Gwenda Thomas: I think that I answered that in my reply to Aled Roberts, but the eligibility criteria are important. It is important that there is equity across the country, and 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action' has been very clear on that and, of course, that has formed the basis of the development of the Bill. I see that as one of the main planks for driving forward our commitment to ensuring that we have more sustainable social services in Wales.

Central to that aim, we will want to ensure that there is more consistency and equity in how people access social services and how the services are provided. One main aim will be to ensure that we have a general framework for assessment, that the qualifications and assessments are portable and that there is consistency in care plans for the people of Wales.

Angela Burns: Rydych yn nodi yn yr ymgynghoriad ynghylch y Bil gwasanaethau cymdeithasol y dylai awdurdodau lleol fod yn gallu rhannu cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol. Gofynnaf am eglurhad: a ydych yn cynnwys y byrddau iechyd yn rhan o hynny? A ydych yn credu y byddant yn gallu datrys y tensiynau a allai ddigwydd wrth i un unigolyn weithredu ar ran y bwrdd iechyd a thri neu bedwar o awdurdodau lleol unigol, efallai, fel sy'n digwydd mewn rhai ardaloedd eisoes i raddau bach?

Gwenda Thomas: Rydym wedi gweld enghreifftiau o hynny yng Nghymru. Mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu ar eu dull llywodraethu eu hunain, ond byddwn yn annog cydweithio. Rydym wedi nodi'r chwe ardal yn eithaf clir, ac o fewn y rheini, rwyf yn disgwyl cydweithio. Gorau oll os yw hynny'n golygu rhannu prif swyddogion neu bennaethiaid gwasanaethau.

Lindsay Whittle: Ddirprwy Weinidog, rwyf yn cytuno â'ch datganiad y dylai triniaeth ar gyfer pawb ar draws Cymru fod yn gyfartal. Pa mor hyderus yr ydych y gellir cytuno ar y meini prawf cymhwysedd a'u safoni ledled Cymru fel na fydd mynediad i wasanaethau gofal yn dipyn o loteri cod post?

Gwenda Thomas: Credaf imi ateb hynny yn fy ateb i Aled Roberts, ond mae'r meini prawf cymhwysedd yn bwysig. Mae'n bwysig bod tegwch ar draws y wlad, ac mae 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' wedi bod yn glir iawn ynghylch hynny ac, wrth gwrs, mae wedi bod yn sail ar gyfer datblygu'r Bil. Rwyf o'r farn bod hynny'n un o'r prif elfennau ar gyfer bwrw ymlaen â'n hymrwymiad i sicrhau bod gennym wasanaethau cymdeithasol mwy cynaliadwy yng Nghymru.

Gordewdra Plant

11. Jenny Rathbone: *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau lefelau gordewdra plant. OAQ(4)0132(HSS)*

Lesley Griffiths: We are encouraging people, from a young age, to develop good lifestyle habits to take into adulthood through initiatives such as Change4Life. Since April 2008, the Mind, Exercise, Nutrition...Do It! programme has been supporting Welsh children who are above a normal bodyweight to eat more healthily and be more physically active.

Jenny Rathbone: Minister, I am sure that you will have seen the report published earlier this month that indicates that Wales now has the highest levels of obese and overweight children outside the United States, Canada and Greece. Therefore, we have a major public health problem. Tomorrow, I am taking part in a school walking bus, which was set up by a parent and is sustained by her enthusiasm. Happily, I will be accompanied by the new executive member for education in Cardiff, who I hope will extend such a service to all the city's primary schools. What enthusiasm is there among your colleagues in Government to tackle this on every level so that we do not end up having a huge increase in demand on the health service in terms of heart disease, diabetes and infertility problems?

Lesley Griffiths: Preventing and tackling obesity is a key priority for all of my Cabinet colleagues. Tackling childhood obesity requires a multisector approach that includes changing the environment, targeting pre-schools and schools, the home, the leisure environment and improving access to healthier products. I referred to two initiatives in my original answer to you—Change4Life and MEND. We also have the Welsh network of healthy schools schemes and 'Creating an Active Wales'. However, I am very pleased to hear about the initiative that you will be supporting tomorrow.

Byron Davies: Minister, leading on from

Childhood Obesity

11. Jenny Rathbone: *What is the Welsh Government doing to reduce levels of childhood obesity. OAQ(4)0132(HSS)*

Lesley Griffiths: Rydym yn annog pobl, o oedran ifanc, i ddatblygu arferion da o ran ffordd o fyw a fydd yn parhau pan fyddant yn oedolion, trwy fentrau megis Newid am Oes. Ers mis Ebrill 2008, mae rhaglen 'Mind, Exercise, Nutrition ... Do It!' wedi bod yn cynorthwyo plant yng Nghymru sy'n drymach na phwysau arferol i fwyta'n fwy iach a gwneud mwy o ymarfer corff.

Jenny Rathbone: Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch wedi gweld yr adroddiad a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn, sy'n dangos bod gan Gymru bellach y lefelau uchaf o blant gordew a phlant sy'n rhy drwm y tu allan i'r Unol Daleithiau, Canada a gwlad Groeg. Felly, mae gennym broblem fawr o ran iechyd y cyhoedd. Yfory, byddaf yn cymryd rhan mewn bws cerdded i'r ysgol, a sefydlwyd gan riant ac a gaiff ei gynnal gan ei brwdfrydedd. Yn ffodus, bydd yr aelod gweithredol newydd dros addysg yng Nghaerdydd yn cadw cwmni imi, ac rwyf yn gobeithio y bydd yn ymestyn gwasanaeth o'r fath i bob un o ysgolion cynradd y ddinas. Pa frwdfrydedd sydd ymysg eich cydweithwyr yn y Llywodraeth i fynd i'r afael â hyn ar bob lefel er mwyn sicrhau na fyddwn yn gweld cynnydd enfawr yn y galw ar y gwasanaeth iechyd o ran clefyd y galon, diabetes a phroblemau anffrwythlondeb?

Lesley Griffiths: Mae atal gordewdra a mynd i'r afael ag ef yn flaenoriaeth allweddol i bob un o'm cydweithwyr yn y Cabinet. Mae mynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant yn gofyn am ddull gweithredu amlsector sy'n cynnwys newid yr amgylchedd, targedu lleoliadau cyn-ysgol ac ysgolion, y cartref a'r amgylchedd hamdden a gwella mynediad i gynnyrch mwy iach. Cyfeiriais at ddwy fenter yn fy ateb gwreiddiol ichi—Newid am Oes a MEND. Mae gennym hefyd rwydwaith Cymru o gynlluniau ysgolion iach a 'Creu Cymru Egniol'. Fodd bynnag, rwyf yn falch iawn o glywed am y fenter y byddwch yn ei chefnogi yfory.

Byron Davies: Weinidog, gan ddilyn ymlaen

your response to the Member for Cardiff Central, I am sure that you recognise that tackling childhood obesity needs a multi-agency approach. With that in mind, what is your department doing to work with other Government departments to ensure that the strategy works?

Lesley Griffiths: Yes, as I said in my answer to Jenny Rathbone, it is a multisector approach. I have the support of all of my Cabinet colleagues and we work across the Government to try to tackle this. It is not just a matter for the NHS, as I said.

Gogledd Cymru

12. Alun Ffred Jones: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0128(HSS)*

Lesley Griffiths: NHS services in the north Wales area are being reviewed in line with the strategic vision set out in 'Together for Health'. Betsi Cadwaladr University Local Health Board is planning a public consultation exercise on its change proposals in late summer/early autumn.

Alun Ffred Jones: Mae ail-gyflunio'r gwasanaeth yn y gogledd yn amlwg yn creu ansicrwydd. Gyda llaw, bu ichi ddefnyddio'r gair 'scaremongering' dair gwaith yn y ddatl ar 1 Tachwedd. Un o'r pryderon yw dyfodol yr ysbytai cymunedol, sy'n sicrhau nad oes yn rhaid i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig deithio pellteroedd mawr er mwyn derbyn rhai triniaethau ac ar ôl cael llawdriniaeth. Beth yw eich gweledigaeth chi ar ysbytai cymunedol, fel Gweinidog iechyd Cymru?

Lesley Griffiths: I think that it is very important. Community hospitals have a huge role to play, because we want people to have to travel less; we know that. We want the services to be provided as close to their homes as possible. However, we accept that we cannot provide every specialist service in every hospital in Wales. It is about making sure that those services are close to people's

o'ch ymateb i'r Aelod dros Ganol Caerdydd, rwyf yn siŵr eich bod yn cydnabod bod mynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant yn gofyn am ddull aml-asiantaeth. Gyda hynny mewn golwg, beth y mae eich adran yn ei wneud i weithio gydag adrannau eraill y Llywodraeth i sicrhau bod y strategaeth yn gweithio?

Lesley Griffiths: Fel y dywedais yn fy ateb i Jenny Rathbone, mae'n ddull gweithredu amlsector. Mae gennyf gefnogaeth pob un o'm cydweithwyr yn y Cabinet, ac rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth i geisio mynd i'r afael â hyn. Nid mater i'r GIG yn unig ydyw, fel y dywedais.

North Wales

12. Alun Ffred Jones: *Will the Minister make a statement on the Welsh Government's plans for the NHS in north Wales. OAQ(4)0128(HSS)*

Lesley Griffiths: Mae gwasanaethau'r GIG yn ardal y gogledd yn cael eu hadolygu yn unol â'r weledigaeth strategol a nodwyd yn 'Law yn Llaw at Iechyd'. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynllunio ymarfer ymgynghori cyhoeddus ynghylch ei gynigion ar gyfer newid ddiwedd yr haf / dechrau'r hydref.

Alun Ffred Jones: The service reconfiguration in north Wales is clearly creating uncertainty. By the way, you used the word 'scaremongering' three times in the debate on 1 November. One of the concerns is the future of community hospitals, which ensure that there is no need for people living in rural areas to travel long distances to receive some treatments and after having had surgery. What is your vision on community hospitals, as Wales's Minister for health?

Lesley Griffiths: Credaf eu bod yn bwysig iawn. Mae gan ysbytai cymuned rôl fawr i'w chwarae, gan ein bod am i bobl orfod teithio llai; rydym yn gwybod hynny. Rydym am i'r gwasanaethau gael eu darparu mor agos ag y bo modd at adref. Fodd bynnag, rydym yn derbyn na allwn ddarparu pob gwasanaeth arbenigol ym mhob ysbyty yng Nghymru. Mae a wnelo â gwneud yn siŵr bod y

homes so that, if people have to travel for specialist services, they can move nearer home to rehabilitate or recuperate when the time comes.

Sandy Mewies: Minister, you will be aware that the first phase of the £77 million modernisation at Glan Clwyd Hospital, Bodelwyddan has been completed on time and on budget. The next phase will include more operating theatres, a new accident and emergency facility and a pathology unit. Do you agree that this is a demonstration of your and the Welsh Government's commitment to our district general hospitals and the desire to build a health service that is fit and safe for the twenty-first century?

Lesley Griffiths: Absolutely. It shows our commitment to district general hospitals. I have assured everyone that no district general hospital will close during the term of this Government. I made an unannounced visit to Ysbyty Glan Clwyd last Thursday and I was very pleased and reassured by what I saw. I visited the new operating theatres. The last time that I was there in January it was just a building site, and the staff really should be praised, because they have worked in very difficult circumstances. I also visited the A&E department, and, again, you can see the difficult circumstances that they are working in in the current A&E. They are very enthusiastic about their new A&E department.

Janet Finch-Saunders: Minister, concerns have been raised with me about the formation of the Cronfa Betsi fundraising body in north Wales, which is affiliated with the Betsi Cadwaladr health board. There are some issues to do with a lack of transparency in this regard. Will you provide details on how you will oversee the workings of this body to ensure that there is complete transparency and accountability and that there is no direct negative impact on other voluntary charitable healthcare providers, such as hospices? Is it

gwasanaethau hynny'n agos at gartrefi pobl er mwyn sicrhau, os oes yn rhaid iddynt deithio i gael gwasanaethau arbenigol, y gallant symud yn nes at adref i adsefydlu neu wella pan ddaw'r amser.

Sandy Mewies: Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod cam cyntaf y gwaith moderneiddio gwerth £77 miliwn yn Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan wedi'i gwblhau'n brydlon ac o fewn y gyllideb. Bydd y cam nesaf yn cynnwys rhagor o ystafelloedd llawdriniaeth, cyfleuster damweiniau ac achosion brys newydd ac uned batholeg. A ydych yn cytuno bod hynny'n dangos eich ymrwymiad chi ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'n hysbytai cyffredinol dosbarth a'r awydd i adeiladu gwasanaeth iechyd sy'n addas ac yn ddiogel ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain?

Lesley Griffiths: Yn bendant. Mae'n dangos ein hymrwymiad i ysbytai cyffredinol dosbarth. Rwyf wedi rhoi sicrwydd i bawb na fydd unrhyw ysbyty cyffredinol dosbarth yn cau yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Ymwelais yn ddirybudd ag Ysbyty Glan Clwyd ddydd Iau diwethaf, ac roeddwn yn falch iawn o'r hyn a welais ac roedd yn fy nghalonogi. Bûm yn ymweld â'r ystafelloedd llawdriniaeth newydd. Y tro diwethaf yr oeddwn yno ym mis Ionawr, dim ond safle adeiladu ydoedd, a dylid canmol y staff yn fawr, oherwydd maent wedi gweithio mewn amgylchiadau anodd iawn. Bûm hefyd yn ymweld â'r adran damweiniau ac achosion brys, ac, unwaith eto, gallwch weld yr amgylchiadau anodd y maent yn gweithio ynddynt yn yr adran damweiniau ac achosion brys bresennol. Maent yn frwd iawn ynghylch eu hadran damweiniau ac achosion brys newydd.

Janet Finch-Saunders: Weinidog, mae pryderon wedi'u mynegi wrthyf ynghylch ffurfio corff codi arian Cronfa Betsi yn y gogledd, sy'n gysylltiedig â bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr. Ceir rhai materion sy'n ymwneud â diffyg tryloywder yn y cyswllt hwn. A wnewch chi roi manylion am sut y byddwch yn goruchwylio prosesau'r corff hwn er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd llwyr a sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol uniongyrchol ar ddarparwyr gofal iechyd elusennol gwirfoddol eraill,

really the role of those charged with providing healthcare to diversify into fundraising bodies?

Lesley Griffiths: I am not aware of the specifics of the points that you have raised. If you write to me about your constituents' concerns, I will certainly look into the matter.

Ysbyty Castell-nedd Port Talbot

13. Bethan Jenkins: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. OAQ(4)0134(HSS)*

Lesley Griffiths: Neath Port Talbot Hospital will continue to have an important role in providing services to local residents and those further afield. Its future is not in question. A formal consultation on the service change proposals for the south Wales area will begin in late summer/early autumn.

Bethan Jenkins: Diolch am yr ateb hwnnw, ond mae fy swyddfa wedi derbyn cyfathrebiaeth oddi wrth etholwyr a phobl sy'n gweithio yn yr ysbyty sy'n poeni am y potensial i israddio gwasanaethau. Er enghraifft, maent wedi clywed na fydd triniaethau orthopedig yn cael eu rhoi ar benwythnosau ac y bydd newidiadau i delerau gwaith yn sgîl hynny. Er fy mod wedi derbyn llythyr gennych ar y mater hwn, a allwch ei roi ar y record na fydd unrhyw wasanaethau yn symud i ysbytai eraill ac na fydd unrhyw wasanaethau'n cael eu hisraddio, gan fod yr ysbyty menter cyllid preifat hwn yn weddol newydd?

Lesley Griffiths: I can reassure you that there will be no downgrading, because I do not want to see any downgrading of services. I have been assured by the chair of Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board that the hospital will play a full part in services provided in future by the board. This is categorically not under threat. In fact, if anything, it is likely that more services will be provided from there in time.

David Rees: You have partly answered my

megis hosbisau? Ai rôl y sawl sy'n gyfrifol am ddarparu gofal iechyd, mewn gwirionedd, yw arallgyfeirio i ffurfio cyrff codi arian?

Lesley Griffiths: Nid wyf yn ymwybodol o fanylion y pwyntiau yr ydych wedi'u codi. Os ysgrifennwch ataf am bryderon eich etholwyr, ymchwiliaf i'r mater yn bendant.

Neath Port Talbot Hospital

13. Bethan Jenkins: *Will the Minister make a statement on the future of services at Neath Port Talbot Hospital. OAQ(4)0134(HSS)*

Lesley Griffiths: Bydd Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn parhau i chwarae rôl bwysig o ran darparu gwasanaethau i drigolion lleol a'r sawl sydd ymhellach i ffwrdd. Nid yw ei ddyfodol yn y fantol. Bydd ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynigion i newid gwasanaethau ar gyfer ardal y de yn dechrau ddiwedd yr haf / dechrau'r hydref.

Bethan Jenkins: Thank you for that response, but my office has had correspondence from constituents and people working in the hospital who are concerned about the potential downgrading of services. For example, they have heard that no orthopaedic treatment will be available at weekends and that there will be changes to working conditions as a result. Although I have received a letter on the issue from you, can you put it on record that there will be no movement of services to other hospitals or downgrading of services, because this private finance initiative hospital is relatively new?

Lesley Griffiths: Gallaf eich sicrhau na fydd unrhyw israddio yn digwydd, oherwydd nid wyf am weld unrhyw wasanaethau'n cael eu hisraddio. Rwyf wedi cael sicrwydd gan gadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg y bydd yr ysbyty yn chwarae rhan lawn mewn gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol gan y bwrdd. Yn bendant, nid yw hynny dan fygythiad. Yn wir, os rhywbeth, mae'n debygol y bydd mwy o wasanaethau'n cael eu darparu yno gydag amser.

David Rees: Rydych wedi ateb fy

question, but, for several years, many residents have expressed concerns about the future of the hospital, some of which was supported by scaremongering by particular parties—there was a perfect example of this in the run-up to my being elected. We have been continually reassured by the local health board that the long-term future is safe and secure. However, I recognise that Professor Longley's report indicates a change to services and service delivery across Wales. Therefore, this discussion document is going to have an impact. There is a role for the Neath Port Talbot Hospital, as you have said, but will you be the first to call for the resignation of the board and the chief executive if the assurances that they have given prove to be false?

Lesley Griffiths: As I have been given assurances by the chair, I think that I can safely say that you can accept those assurances. You just heard my answer to Bethan Jenkins. The future of Neath Port Talbot Hospital is not in question and it will continue to play an important role. As I said, I was reassured by the chair not only that that is the case but that it is very likely that more services will be provided from there over time.

Suzy Davies: Minister, it is not only orthopaedic services that we are worried about. The document that David Rees referred to suggests centralising services—not critical care specialisms, incidentally, but services such as children's medicine, maternity services, emergency medicine, casualty departments and psychiatry. How does that fit in with your assertion that there are no plans to downgrade district general hospitals?

2.15 p.m.

Lesley Griffiths: I have just said that there will be no downgrading. I do not want to hear the word 'downgrading'. I want to see better services, so I do not know why we keep going on about downgrading. *[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order.

nghwestiwn yn rhannol, ond, ers nifer o flynyddoedd, mae llawer o drigolion wedi mynegi pryderon am ddyfodol yr ysbyty, a chafodd rhai o'r pryderon hynny eu hategu gan achosion o godi bwganod gan bleidiau penodol—roedd enghraifft berffaith o hynny yn ystod y cyfnod cyn imi gael fy ethol. Rydym wedi cael sicrwydd yn barhaus gan y bwrdd iechyd lleol bod y dyfodol hirdymor yn ddiogel ac yn sicr. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod bod adroddiad yr Athro Longley yn dangos y bydd gwasanaethau a'r modd y darperir gwasanaethau'n newid ar draws Cymru. Felly, mae'r ddogfen drafod hon yn mynd i gael effaith. Mae rôl i Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, fel y bu ichi ddweud, ond ai chi fydd y cyntaf i alw am ymddiswyddiad y bwrdd a'r prif weithredwr os gwelir bod y sicrwydd y maent wedi'i roi yn sicrwydd ffug?

Lesley Griffiths: Gan fy mod wedi cael sicrwydd gan y cadeirydd, credaf y gallaf ddweud yn bendant y gallwch dderbyn y sicrwydd hwnnw. Rydych newydd glywed fy ateb i Bethan Jenkins. Nid yw dyfodol Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn y fantol, a bydd yn parhau i chwarae rôl bwysig. Fel y dywedais, cefais sicrwydd gan y cadeirydd nid yn unig bod hynny'n wir, ond ei bod yn debygol iawn y bydd mwy o wasanaethau'n cael eu darparu yno gydag amser.

Suzy Davies: Weinidog, nid dim ond am wasanaethau orthopedig yr ydym yn poeni. Mae'r ddogfen y cyfeiriodd David Rees ati'n awgrymu canoli gwasanaethau—nid arbenigedd o ran gofal critigol, gyda llaw, ond gwasanaethau megis meddygaeth i blant, gwasanaethau mamolaeth, meddygaeth frys, adrannau damweiniau a gwasanaethau ym maes seiciatreg. Sut y mae hynny'n cyd-fynd â'ch honiad nad oes unrhyw gynlluniau i israddio ysbytai cyffredinol dosbarth?

Lesley Griffiths: Rwyf newydd ddweud na fydd unrhyw israddio yn digwydd. Dydw i ddim am glywed y gair 'israddio'. Rwyf am weld gwasanaethau gwell, felly nid wyf yn gwybod pam yr ydym yn dal i sôn am israddio. *[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn.

Lesley Griffiths: You have just heard my answer to both Bethan Jenkins and David Rees; I do not need to repeat it. It has an important role to play, and that is where the services will be coming from in the future.

Lesley Griffiths: Rydych newydd glywed fy ateb i Bethan Jenkins a David Rees; nid oes angen imi ei ailadrodd. Mae ganddo rôl bwysig i'w chwarae, ac oddi yno y bydd y gwasanaethau'n dod yn y dyfodol.

Byrddau Iechyd Lleol

Local Health Boards

14. Andrew R.T. Davies: *Pa gamau sydd ar waith i sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yn mantoli'r cyfrifon yn y flwyddyn ariannol hon. OAQ(4)0131(HSS)*

14. Andrew R.T. Davies: *What measures are in place to ensure that Local Health Boards break even in the current financial year. OAQ(4)0131(HSS)*

Lesley Griffiths: I have made it clear that I expect all NHS organisations to operate within their funding this year with the additional financial support that we provided recurrently in last December's budget. We are currently reviewing the 2012-13 financial plans of individual NHS organisations to ensure that they plan for financial balance.

Lesley Griffiths: Rwyf wedi nodi'n glir fy mod yn disgwyl i bob un o sefydliadau'r GIG weithredu o fewn eu cyllid eleni gyda'r gefnogaeth ariannol ychwanegol a ddarparwyd gennym eto yn y gyllideb fis Rhagfyr diwethaf. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu cynlluniau ariannol 2012-13 sefydliadau unigol yn y GIG i sicrhau eu bod yn cynllunio ar gyfer mantoli ariannol.

Andrew R.T. Davies: Thank you, Minister, for that answer. I am sure that a lot of that was said last autumn, but as we now know, three or four of the health boards were allowed to bring forward moneys from this financial year to the last financial year to balance their budgets. Will you be allowing the same flexibility in this current financial year, so that the same situation will occur, so that the health boards will be allowed to bring forward money from next year to this year to balance their budgets?

Andrew R.T. Davies: Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Rwyf yn siŵr bod llawer o hynny wedi'i ddweud yr hydref diwethaf, ond fel y gwyddom erbyn hyn, cafodd tri neu bedwar o'r byrddau iechyd ganiatâd i dynnu arian o'r flwyddyn ariannol hon yn ôl i'r flwyddyn ariannol ddiwethaf i fantoli eu cyllidebau. A fyddwch yn caniatáu yr un hyblygrwydd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, fel y bydd yr un sefyllfa'n digwydd, fel y bydd y byrddau iechyd yn cael caniatâd i dynnu arian o'r flwyddyn nesaf yn ôl i'r flwyddyn hon i fantoli eu cyllidebau?

Lesley Griffiths: The three organisations to which you refer were allowed to draw down a very small amount of funding of £12 million, which equates to 0.02%, to assist them in managing timing issues over the last year. It was no bail out; I have said that time and again. Following that, I made it clear that those three organisations would have to have an external financial review, which my officials have commissioned, so that I had the assurance that the flexibility—and it is very limited flexibility—would not adversely affect their financial plans. They will not be allowed to do it in the next financial year.

Lesley Griffiths: Cafodd y tri sefydliad yr ydych yn cyfeirio atynt ganiatâd i ddefnyddio ychydig bach o gyllid, sef £12 miliwn, sy'n cyfateb i 0.02%, i'w cynorthwyo i reoli materion yn ymwneud ag amseru dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid achub eu croen oedd y bwriad; rwyf wedi dweud hynny dro ar ôl tro. Yn dilyn hynny, rwyf wedi nodi'n glir y byddai'n rhaid i'r tri sefydliad hynny gael adolygiad ariannol allanol, y mae fy swyddogion wedi'i gomisiynu, er mwyn imi gael sicrwydd na fyddai'r hyblygrwydd—ac mae'n hyblygrwydd cyfyngedig iawn—yn cael effaith andwyol ar eu cynlluniau ariannol. Ni fyddant yn cael caniatâd i wneud hynny yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

The Presiding Officer: We are actually out of time, but I will go to the last question. I call Bethan Jenkins.

Y Llywydd: Nid oes amser ar ôl gennym, mewn gwirionedd, ond af at y cwestiwn olaf. Galwaf ar Bethan Jenkins.

Nychdod Cyhyrol

15. Bethan Jenkins: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â Nychdod Cyhyrol yng Nghymru. OAQ(4)0133(HSS)*

Lesley Griffiths: The Welsh Government is working with the Muscular Dystrophy Campaign and the health boards to improve services and support for individuals and their families who are living with this condition.

Bethan Jenkins: Diolch am yr ateb, ac rydym wedi cwrdd yn barod ynglŷn â'r mater hwn ar nifer o adegau. Rydych yn gwybod bod diffyg arbenigedd ffisiotherapi i oedolion sydd â phroblemau niwrogyhyrol, ac mae ymarfer mapio yn mynd rhagddo bellach i weld a oes bylchau yn y gwasanaeth hwnnw. A allwch roi diweddariad i ni am yr hyn sy'n digwydd o ran yr ymarfer mapio hwnnw?

Lesley Griffiths: As you mentioned, we have met, and I realise that there were calls from some relatives and carers for additional investment in specialist adult physiotherapy. However, you will be aware that clinical staff did not feel that that was the case. They felt that if there was further investment, it should be used for specialist occupational therapists and psychology staff. I am committed to ensuring that all patients with conditions such as muscular dystrophy have personal care plans, which I think will help, and it is ongoing at present.

Darren Millar: Minister, I listened carefully to your response. You did not refer to the wheelchair access problems that some individuals have when they are suffering from muscular dystrophy. I wonder whether you would be able to provide us with an update as to the latest statistics regarding the wait for adult chairs in particular, which, as you know, as of last month, were 52 weeks in north Wales simply for an assessment, compared with only 16 weeks in the south.

Muscular Dystrophy

15. Bethan Jenkins: *Will the Minister make a statement on the Welsh Government's work to tackle Muscular Dystrophy in Wales. OAQ(4)0133(HSS)*

Lesley Griffiths: Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Ymgyrch Nychdod Cyhyrol a'r byrddau iechyd i wella gwasanaethau a chymorth i unigolion a'u teuluoedd sy'n byw gyda'r cyflwr hwn.

Bethan Jenkins: Thank you for the answer, and we have already met to discuss this issue on a number of occasions. You know that there is a shortage of specialist physiotherapy for adults with neuromuscular problems, and a mapping exercise is now under way to see whether there are gaps in that service. Can you give us an update on what is happening with that mapping exercise?

Lesley Griffiths: Fel y bu ichi grybwyll, rydym wedi cyfarfod, ac rwyf yn sylweddoli bod rhai perthnasau a gofalwyr wedi galw am fuddsoddiad ychwanegol mewn ffisiotherapi arbenigol i oedolion. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol nad oedd staff clinigol yn cytuno. Roeddent yn teimlo, os oedd arian pellach i'w fuddsoddi, y dylid ei ddefnyddio ar gyfer therapyddion galwedigaethol arbenigol a staff ym maes seicoleg. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob claf sydd â chyflyrau megis nychdod cyhyrol gynlluniau gofal personol, a fydd o gymorth, mi gredaf, ac maent yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

Darren Millar: Weinidog, gwrandewais yn ofalus ar eich ymateb. Ni fu ichi gyfeirio at y problemau y mae rhai unigolion yn eu cael o ran mynediad i gadeiriau olwyn pan fyddant yn dioddef o nychdod cyhyrol. Tybed a fydddech yn gallu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr ystadegau diweddaraf ynghylch amseroedd aros ar gyfer cadeiriau i oedolion yn arbennig, a oedd, fel y gwyddoch, fis diwethaf, yn 52 wythnos yn y gogledd i gael asesiad yn unig, o gymharu â dim ond 16 wythnos yn y de.

Lesley Griffiths: I do not currently have the statistics to hand, so I will write to you, but, as you are aware, I am giving evidence on wheelchair provision to committee next Wednesday morning.

Lesley Griffiths: Nid yw'r ystadegau gennyf wrth law ar hyn o bryd, felly byddaf yn ysgrifennu atoch, ond, fel y gwyddoch, rwyf yn rhoi tystiolaeth ar y ddarpariaeth o ran cadeiriau olwyn i'r pwyllgor fore dydd Mercher nesaf.

Pwynt o Drefn Point of Order

Simon Thomas: Mae'n siŵr bod Aelodau wedi clywed y Gweinidog, mewn ateb i'm cwestiwn i, yn dweud nad oedd erioed wedi defnyddio'r gair 'scaremongering'. Mae chwilio'n gyflym ar Google yn dangos iddi ddefnyddio'r gair bum gwaith yng nghydestun ad-drefnu gwasanaethau ysbytai ar 28 Medi 2011, ar 1 Chwefror 2012 a thair gwaith mewn dadl ym mis Tachwedd. A ydyw mewn trefn, Lywydd, i'r Gweinidog fanteisio ar y cyfle hwn i gywiro'r cofnod?

Simon Thomas: I am sure that Members heard the Minister saying, when answering my question, that she had never used the word 'scaremongering'. A quick Google search shows that she used the word five times in relation to the reorganisation of hospital services on 28 September 2011, on 1 February 2012 and three times in a debate in November. Would it be in order, Presiding Officer, for the Minister to take this opportunity to correct the record?

The Presiding Officer: That is not actually a point of order, but you have made your point.

Y Llywydd: Nid pwynt o drefn yw hynny mewn gwirionedd, ond rydych wedi gwneud eich pwynt.

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol Questions to the Counsel General

Gwyddoniadur Ar-lein o Gyfraith Cymru

Online Encyclopaedia of Welsh Law

1. Peter Black: *A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am y cynnydd o ran datblygu gwyddoniadur ar-lein o Gyfraith Cymru. OAQ(4)0034(CGE)*

1. Peter Black: *Will the Counsel General make a statement as to progress on the development of an online encyclopedia of Welsh Law. OAQ(4)0034(CGE)*

The Counsel General (Theodore Huckle): Good afternoon, everyone. As I have previously informed Members, I have been in discussions with commercial publishers with a view to entering into a collaboration arrangement for this purpose. I have now made a decision on my preferred option and am finalising the practical details. I will provide further information in a statement that I will make to the Assembly on 26 June on this and the wider access to legislation issues.

Y Cwnsler Cyffredinol (Theodore Huckle): Prynawn da, bawb. Fel yr wyf wedi dweud wrth yr Aelodau o'r blaen, rwyf wedi bod mewn trafodaethau â chyhoeddwr masnachol gyda'r bwriad o ymrwymo i drefniant cydweithio at y diben hwn. Rwyf bellach wedi gwneud penderfyniad ynghylch yr opsiwn yr wyf yn ei ffafrio, ac rwyf yn cwblhau'r manylion ymarferol. Byddaf yn darparu gwybodaeth bellach mewn datganiad y byddaf yn ei wneud i'r Cynulliad ar 26 Mehefin ynghylch y mater hwn a mynediad ehangach i faterion sy'n ymwneud â deddfwriaeth.

Peter Black: Thank you for that answer,

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw,

Counsel General. When I last asked you this question, you said that you had no funding in place for this particular initiative. Do you now have a budget for it and what sort of timescale are we talking about for this to be brought to fruition?

Theodore Huckle: I cannot remember the exact words that I used in answer to your earlier question, but I think that what I was meaning to convey was that there was no specific budget for this purpose. It is not thought that there are difficulties of that kind. It is proposed to deal with this matter on a cost-effective basis, but it is still the case that I do not have a budget for it, as such.

Eluned Parrott: As you may know, universities in the UK are asked to demonstrate the broader societal impact of their work as part of the research funding and assessment procedures that they face. Working on the development of a statute and commentaries on Welsh case law could be good examples of societal impact for our universities, while assisting you in making Welsh law more accessible in a cost-effective way. What discussions have you had with Wales's law schools regarding their potential involvement in these areas?

Theodore Huckle: We have had discussions of an informal nature with, in particular, Cardiff Law School. I have visited Aberystwyth Law School and raised these issues. There is also what I consider to be an important focal point, which is the organisation known as Legal Wales, to which all the universities also contribute. It is by those mechanisms that I am in the process of inviting people from different strands of the legal community—from private practice, the universities and the judiciary, for example—to work with us to provide the sort of commentary that is encapsulated in the expression 'online encyclopaedia'. It would be wrong to suggest that I have had formal meetings with any universities, but the word is out that we are looking to the legal community as a whole to help us with this project.

Gwnsler Cyffredinol. Y tro diwethaf imi ofyn y cwestiwn hwn ichi, bu ichi ddweud nad oedd gennych gyllid ar gyfer y fenter benodol hon. A oes gennych gyllideb ar ei chyfer erbyn hyn, a pha fath o amserlen yr ydym yn sôn amdani ar gyfer gwireddu'r fenter?

Theodore Huckle: Ni allaf gofio'r union eiriau a ddefnyddiais wrth ateb eich cwestiwn cynharach, ond rwyf yn meddwl mai'r hyn yr oeddwn yn golygu ei gyfleu oedd nad oedd cyllideb benodol ar gael at y diben hwn. Ni chredir bod anawsterau o'r math hwnnw. Bwriedir ymdrin â'r mater hwn yn gost-effeithiol, ond mae'n wir o hyd nad oes gennyf gyllideb ar ei chyfer, fel y cyfryw.

Eluned Parrott: Fel y gwyddoch efallai, gofynnir i brifysgolion yn y DU ddangos effaith gymdeithasol ehangach eu gwaith yn rhan o'r gweithdrefnau y maent yn eu hwynebu o ran cyllid ymchwil ac asesu. Gallai gweithio ar ddatblygu statud ac esboniadau ar gyfraith achosion Cymru fod yn enghreifftiau da o effaith gymdeithasol ar gyfer ein prifysgolion, gan eich cynorthwyo chi ar yr un pryd i sicrhau bod cyfraith Cymru yn fwy hygyrch mewn ffordd gost-effeithiol. Pa drafodaethau yr ydych wedi eu cael ag ysgolion y gyfraith yng Nghymru ynghylch y rhan y gallent ei chwarae yn y meysydd hyn?

Theodore Huckle: Rydym wedi cael trafodaethau anffurfiol ag Ysgol y Gyfraith, Caerdydd yn benodol. Rwyf wedi ymweld ag Ysgol y Gyfraith, Aberystwyth ac wedi codi'r materion hyn. Yn ogystal, ceir un pwynt yr wyf yn ei ystyried yn ganolbwynt pwysig, sef y sefydliad sy'n dwyn yr enw Cymru'r Gyfraith, y mae'r holl brifysgolion yn cyfrannu iddo hefyd. Dyna'r systemau yr wyf yn eu defnyddio ar hyn o bryd i wahodd pobl o wahanol feysydd y gymuned gyfreithiol—o bractisiau preifat, y prifysgolion a'r farnwriaeth, er enghraifft—i weithio gyda ni i ddarparu'r math o esboniadau a fynegir yn yr ymadrodd 'gwyddoniadur ar-lein'. Byddai'n anghywir awgrymu fy mod wedi cael cyfarfodydd ffurfiol ag unrhyw brifysgolion, ond mae'r neges ar led ein bod yn dibynnu ar y gymuned gyfreithiol yn ei chyfanrwydd i'n helpu gyda'r prosiect hwn.

Awdurdodaeth Gyfreithiol i Gymru

2. Simon Thomas: *A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ei drafodaethau yn ymwneud ag awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. OAQ(4)0035(CGE)*

Theodore Huckle: The Government's consultation on a separate legal jurisdiction for Wales is currently under way. As a part of this process, I have had a number of discussions. The outcomes of those discussions will be considered once the consultation period ends on 19 June.

Simon Thomas: Fel rydych yn gwybod, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd yn edrych i mewn i'r mater hwn. Un o'r pethau sydd wedi cael eu codi sawl gwaith gan dystion i'r pwyllgor yw'r angen am gorff neu gomisiwn diwygio'r gyfraith ar gyfer Cymru. A ydych wedi cael unrhyw dystiolaeth bod angen y fath gorff ar greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru ac, yn absenoldeb y fath gorff, pa drafodaethau ydych yn eu cael gyda'r Comisiwn y Gyfraith presennol am ddiwygio cyfraith Cymru a Lloegr i weld sut mae'n gweithio gyda chyfreithiau yng Nghymru?

Theodore Huckle: It is part of the debate about whether and to what extent jurisdiction alterations are made as to what the implications of the type that you are raising will be. The immediate answer to your last question is that I met with the Law Commission yesterday. It is a good example of a body headed by a member of the judiciary who cannot enter into discussion of the political aspects of whether there should be separation of the jurisdiction and to what extent and, therefore, as in the case of other members of the judiciary whom I am able to speak to—for example, on Monday, I saw the Master of the Rolls in London—will always seek to assist in relation to the practical implications of any particular proposal. However, it is at an embryonic stage, because there is no proposal at the moment. There is a Green Paper discussion and, as you will know from the evidence taken by your committee, opinions vary. They are all of interest and we will consider them very carefully.

Legal Jurisdiction for Wales

2. Simon Thomas: *Will the Counsel General make a statement on his discussions regarding a legal jurisdiction for Wales. OAQ(4)0035(CGE)*

Theodore Huckle: Mae ymgynghoriad y Llywodraeth ynghylch awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru ar y gweill ar hyn o bryd. Rwyf wedi cael nifer o drafodaethau'n rhan o'r broses honno. Bydd canlyniadau'r trafodaethau hynny'n cael eu hystyried ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar 19 Mehefin.

Simon Thomas: As you know, the Constitutional and Legislative Affairs Committee is also looking into this issue. One of the things that have been raised on a number of occasions by witnesses to the committee is the need for a law reform body or commission for Wales. Have you had any evidence that there is a need for such a body on the creation of a legal jurisdiction for Wales and, in the absence of such a body, what discussions are you having with the current Law Commission on the reform of the laws of England and Wales to see how it works in terms of the law in Wales?

Theodore Huckle: Mae'r math o oblygiadau yr ydych yn sôn amdanynt yn rhan o'r ddatl ynghylch a fydd newidiadau'n cael eu gwneud ac i ba raddau y bydd newidiadau'n cael eu gwneud i awdurdodaeth. Yr ateb uniongyrchol i'ch cwestiwn diwethaf yw imi gyfarfod â Chomisiwn y Gyfraith ddoe. Mae'n enghraifft dda o gorff dan arweiniad aelod o'r farnwriaeth na all ymuno â'r drafodaeth am yr agweddau gwleidyddol ar b'un a ddylid gwahanu'r awdurdodaeth ac i ba raddau y dylid ei gwahanu, ac felly, fel yn achos aelodau eraill o'r farnwriaeth y gallaf siarad â hwy—er enghraifft, ddydd Llun, gwelais Feistr y Rholiau yn Llundain—bydd bob amser yn ceisio cynorthwyo yng nghyswllt goblygiadau ymarferol unrhyw gynig penodol. Fodd bynnag, megis dechrau yr ydym, gan nad oes unrhyw gynig ar hyn o bryd. Ceir trafodaeth Papur Gwyrdd, ac fel y byddwch yn gwybod o'r dystiolaeth a gafwyd gan eich pwyllgor, mae safbwyntiau'n amrywio. Maent i gyd o ddiddordeb, a byddwn yn eu hystyried yn

ofalus iawn.

Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad Questions to the Assembly Commission

Cynllun Prentisiaeth

1. Simon Thomas: *A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am gynllun prentisiaeth y Cynulliad. OAQ(4)0058(AC)*

Assembly Commissioner (Peter Black): The Commission will be introducing an apprenticeship scheme from September this year. We aim to recruit four apprentices who will work across Assembly services and undertake formal training during their working hours to gain a qualification in business administration. The scheme will be advertised before the end of this month.

Simon Thomas: Diolch i'r Comisiynydd am yr ateb hwnnw. Rwy'n croesawu yn fawr y ffaith bod y Comisiwn wedi sefydlu cynllun prentisiaeth. A yw'n fwriad cario ymlaen â'r cynllun hwn am weddill y Cynulliad presennol, ac a fydd cyfle i'r prentisiaid ymwneud ag awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru, neu y tu hwnt i hynny, i gyfoethogi eu profiad o weithio yma?

Peter Black: We will certainly look at the apprenticeship scheme in future budget rounds. Certainly, we do not envisage this being a one-off. Clearly, the apprenticeship scheme will be based here in Cardiff, because this is where the administration is based, although we will at some stage look at perhaps basing an apprenticeship in the north Wales office as well. I think that we would have to take advice on what we can do with regard to working with local authorities in the future.

Apprenticeship Scheme

1. Simon Thomas: *Will the Commissioner make a statement on the Assembly's apprenticeship scheme. OAQ(4)0058(AC)*

Comisiynydd y Cynulliad (Peter Black): Bydd y Comisiwn yn cyflwyno cynllun prentisiaeth o fis Medi eleni ymlaen. Ein nod yw recriwtio pedwar prentis a fydd yn gweithio ar draws gwasanaethau'r Cynulliad ac a fydd yn ymgymryd â hyfforddiant ffurfiol yn ystod eu horiau gwaith er mwyn ennill cymhwyster mewn gweinyddu busnes. Bydd y cynllun yn cael ei hysbysebu cyn diwedd y mis hwn.

Simon Thomas: I thank the Commissioner for that answer. I warmly welcome the fact that the Commission has established an apprenticeship scheme. Is there an intention to continue with this scheme for the remainder of this Assembly term, and will there be an opportunity for the apprentices to work with other local authorities in Wales, or beyond that, to enhance their experience of working here?

Peter Black: Byddwn yn bendant yn ystyried y cynllun prentisiaeth mewn cylchoedd cyllidebau yn y dyfodol. Yn sicr, nid ydym yn rhagweld mai cynllun yw hwn a fydd yn digwydd unwaith yn unig. Mae'n amlwg y bydd y cynllun prentisiaeth yn cael ei leoli yma yng Nghaerdydd, gan mai yma y mae'r weinyddiaeth, er y byddwn yn ystyried ryw bryd cyflwyno prentisiaeth efallai yn swyddfa'r gogledd hefyd. Rwyf yn credu y byddai'n rhaid inni ofyn am gyngor ynghylch yr hyn y gallwn ei wneud o safbwynt gweithio gydag awdurdodau lleol yn y dyfodol.

Cynnig i Ethol Aelod i'r Pwyllgor Busnes Motion to Elect a Member to the Business Committee

Cynnig NDM4994 Rosemary Butler

Motion NDM4994 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Aled Roberts (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Aled Roberts (Welsh Liberal Democrats) as a member of the Business Committee in place of Peter Black (Welsh Liberal Democrats).

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): I move the motion.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Cynigiau y cynnig.

The Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y Llywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Datganiad gan y Gwir Anrhydeddus Cheryl Gillan AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Statement by the Rt Hon. Cheryl Gillan MP, Secretary of State for Wales

The Secretary of State for Wales (Cheryl Gillan): Diolch, Llywydd. Thank you, Presiding Officer. I am delighted to be here today in the National Assembly to set out the Government's second legislative programme and to listen to Assembly Members' comments on that programme and their proposals.

Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Cheryl Gillan): Diolch, Lywydd. Mae'n bleser gennyf fod yma heddiw yn y Cynulliad Cenedlaethol i amlinellu ail raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth a gwrando ar sylwadau Aelodau'r Cynulliad ar y rhaglen honno a'u cynigion.

I will begin by paying tribute to our armed forces, whose members do such sterling work at home and especially overseas. I think that we all take great pride in the valuable contribution that Wales makes to Britain's armed forces, and I pay tribute in particular to those who have died in Afghanistan and elsewhere since we last met. Our thoughts are with their families and their friends.

Dechreuaf drwy roi teyrnged i'n lluoedd arfog, y mae eu haelodau yn gwneud gwaith mor rhagorol gartref ac yn enwedig dramor. Credaf fod pob un ohonom yn ymfalchïo yn y cyfraniad gwerthfawr y mae Cymru yn ei wneud i luoedd arfog Prydain, a rhoddaf deyrnged yn arbennig i'r rhai sydd wedi marw yn Affganistan ac mewn manau eraill ers inni gyfarfod ddiwethaf. Mae ein meddyliau gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau.

I would also congratulate all Assembly Members here today on your election to the Assembly, because since I was last here, of course, we have held the Assembly elections in Wales. I offer my congratulations to all of you who are elected representatives of the people of Wales.

At hynny, hoffwn longyfarch holl Aelodau'r Cynulliad yma heddiw ar gael eich ethol i'r Cynulliad, oherwydd ers imi fod yma ddiwethaf, wrth gwrs, rydym wedi cynnal etholiadau'r Cynulliad yng Nghymru. Hoffwn longyfarch pob un ohonoch sydd wedi eich ethol i gynrychioli pobl Cymru.

It is almost two years since I first attended the Assembly as Secretary of State, shortly after the coalition Government was

Mae bron i ddwy flynedd ers imi ddod i'r Cynulliad gyntaf fel Ysgrifennydd Gwladol, yn fuan ar ôl sefydlu'r Llywodraeth

established, so that I could talk about the Government's first legislative programme. That programme was based on the principles of freedom, fairness and responsibility. The Government has achieved a great deal since then: 32 Acts have been brought forward and received Royal Assent, and we have also reduced the deficit, capped welfare, scrapped identity cards, binned the jobs tax, raised personal allowances—thereby lifting 95,000 people in Wales out of tax altogether—and made much-needed political and constitutional reforms.

I have fulfilled all of the three commitments relating specifically to Wales in the coalition agreement. First of all, I took forward the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010, which, if you remember, had been blocked. I then enabled the referendum to be held, through which the Assembly has now assumed primary legislative powers in the 20 devolved areas. I have also established the Silk commission, with the support—for which I am very grateful—of all four party leaders in the Assembly. We can now move forward to look at how the financial accountability of the Assembly can be improved and at any modifications that may be needed to the boundary of the devolution settlement itself.

Having set the scene, I now turn to the legislative programme. I am pleased to be able to provide an outline and to listen to the feedback of Assembly Members on the proposals. The second legislative programme builds on our coalition agreement. We will bring forward 15 Bills and four draft Bills over the next 12 months, based on the three key themes of economic growth, justice and constitutional reform. All except one of those Bills will have possible implications for Wales.

2.30 p.m.

We are obviously making the tough, long-term decisions to restore our country to strength, dealing with the deficit, rebalancing

glymblaid, er mwyn gallu siarad am raglen ddeddfwriaethol gyntaf y Llywodraeth. Roedd y rhaglen honno'n seiliedig ar egwyddorion rhyddid, tegwch a chyfrifoldeb. Mae'r Llywodraeth wedi cyflawni cryn dipyn ers hynny: mae 32 o Ddeddfau wedi cael eu cyflwyno ac wedi cael Cydsyniad Brenhinol, ac rydym hefyd wedi lleihau'r diffyg, wedi rhoi terfyn uchaf ar fudd-daliadau lles, wedi cael gwared ar gardiau adnabod, wedi rhoi'r gorau i'r dreth ar swyddi, wedi codi lwfansau personol—sy'n golygu nad yw 95,000 o bobl yng Nghymru yn talu dim treth o gwbl—ac wedi gwneud diwygiadau gwleidyddol a chyfansoddiadol yr oedd eu hangen yn fawr.

Rwyf wedi gwireddu pob un o'r tri ymrwymiad sy'n ymwneud yn benodol â Chymru yng nghytundeb y glymblaid. Yn gyntaf, bu imi symud Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010 yn ei flaen, a oedd, os cofiwch, wedi cael ei atal. Yna, bu imi sicrhau bod modd cynnal y refferendwm, ac o ganlyniad i hynny mae'r Cynulliad bellach wedi cael pwerau deddfwriaethol sylfaenol yn yr 20 maes sydd wedi'u datganoli. Rwyf hefyd wedi sefydlu comisiwn Silk, gyda chefnogaeth arweinwyr pob un o'r pedair plaid yn y Cynulliad—ac rwyf yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth honno. Yn awr, gallwn symud ymlaen i edrych ar sut y gellir gwella atebolrwydd ariannol y Cynulliad ac edrych ar unrhyw addasiadau y gallai fod angen eu gwneud i ffiniau'r setliad datganoli ei hun.

Gyda hynny o eiriau am y cefndir, trof yn awr at y rhaglen ddeddfwriaethol. Rwyf yn falch o allu amlinellu'r rhaglen a gwranddo ar adborth Aelodau'r Cynulliad ar y cynigion. Mae'r ail raglen ddeddfwriaethol yn adeiladu ar gytundeb y glymblaid. Byddwn yn cyflwyno 15 Bil a phedwar Bil drafft yn ystod y 12 mis nesaf, yn seiliedig ar dair thema allweddol, sef twf economaidd, cyfiawnder a diwygio cyfansoddiadol. Ac eithrio un, bydd gan bob un o'r Biliau hynny oblygiadau posibl i Gymru.

Mae'n amlwg ein bod yn gwneud y penderfyniadau anodd, hirdymor i adfer nerth ein gwlad, gan ymdrin â'r diffyg,

the economy and building a society that rewards people who work hard and do the right thing. That is what the Queen's Speech is about. However, the Government's key focus must remain the reduction of the deficit and restoring economic stability. We do not shirk our responsibilities when it comes to getting the economy back on track and we are keeping a steady hand on the tiller as we charter a course through the global economic storm.

We will introduce a banking reform Bill to strengthen further regulation of the financial services sector to make it more stable and resilient and, crucially, to protect the savings of hard-working families and small businesses from the sort of activities that led to the recession.

We will extend opportunity in the economy and build on Britain's global reputation as a great place in which to do business with the Enterprise and Regulatory Reform Bill. I think that I am right in saying that that Bill is being introduced in the House of Commons as I speak. That will establish in statute the green investment bank, which has been supported by the Labour Party, to accelerate the transition to a green economy, improving how competition is enforced in order to make it more effective, encouraging workplace disputes to be settled earlier, improving the employment tribunal system, introducing financial penalties to encourage employer compliance with employment rights and giving shareholders a much bigger say over directors' pay.

We will also ensure a fairer justice system by bringing forward legislation to reduce and prevent crime. We have introduced a Defamation Bill to protect freedom of speech and will bring forward a justice and security Bill to allow the courts to hear a greater range of evidence in national security cases.

The Crime and Courts Bill establishes a national crime agency to tackle the most serious and organised crime, make judicial appointments more transparent and flexible, and deliver a more open and effective court and tribunal system. It will also make drug

ailgydbwysu'r economi ac adeiladu cymdeithas sy'n gwobrwyo pobl sy'n gweithio'n galed ac sy'n gwneud y peth iawn. Dyna yw hanfod Araith y Frenhines. Fodd bynnag, rhaid mai prif ffocws y Llywodraeth o hyd yw lleihau'r diffyg ac adfer sefydlogrwydd economaidd. Nid ydym yn esgeuluso ein cyfrifoldebau pan ddaw'n fater o roi'r economi yn ôl ar y trywydd iawn, ac rydym yn cadw llaw gadarn ar y llyw wrth inni dramwyo drwy'r storm economaidd fyd-eang.

Byddwn yn cyflwyno Bil diwygio'r banciau i gryfhau ymhellach y gwaith o reoleiddio'r sector gwasanaethau ariannol i'w wneud yn fwy sefydlog a gwydn ac, yn hollbwysig, i warchod cynilion teuluoedd sy'n gweithio'n galed a busnesau bach rhag y math o weithgareddau a arweiniodd at y dirwasgiad.

Byddwn yn ehangu cyfleoedd yn yr economi ac yn adeiladu ar enw da Prydain yn fyd-eang fel lle gwych i wneud busnes ynddo, gyda'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio. Credaf fy mod yn iawn i ddweud bod y Bil hwnnw'n cael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin wrth imi siarad. Bydd y Bil yn sefydlu, mewn statud, y banc buddsoddi gwyrdd, a gefnogwyd gan y Blaid Lafur, i gyflymu'r broses o newid i economi werdd, gan wella'r modd y caiff cystadleuaeth ei gorfodi er mwyn ei gwneud yn fwy effeithiol, annog datrys anghydfodau yn y gweithle yn gynharach, gwella'r system dribiwnlysoedd cyflogaeth, cyflwyno cosbau ariannol i annog cyflogwyr i gydymffurfio â hawliau cyflogaeth a rhoi llawer mwy o lais i gyfranddalwyr wrth benderfynu ar gyflogau cyfarwyddwyr.

Byddwn hefyd yn sicrhau system gyfiawnder decach drwy gyflwyno deddfwriaeth i leihau ac atal troseddau. Rydym wedi cyflwyno Bil Difenwi i amddiffyn rhyddid barn, a byddwn yn cyflwyno Bil cyfiawnder a diogelwch er mwyn caniatáu i'r llysoedd glywed ystod ehangach o dystiolaeth mewn achosion sy'n gysylltiedig â diogelwch gwladol.

Mae'r Bil Troseddau a Llysoedd yn sefydlu asiantaeth genedlaethol troseddau i fynd i'r afael â'r troseddau mwyaf difrifol a throseddau cyfundrefnol, sicrhau bod penodiadau barnwrol yn fwy tryloyw a hyblyg, a sicrhau bod gennym system

driving a new offence—a move, I feel sure, you will all welcome.

Our legislative programme then takes forward further constitutional reform, including an Electoral Registration and Administration Bill to reduce electoral fraud by introducing individual electoral registration, as well as a Bill to reform the House of Lords.

Also, for Wales, there is the Green Paper on future electoral arrangements for the Assembly, which I published on Monday. I encourage you and anyone who has an interest in the future make-up of the Assembly to contribute to that consultation, which will be open for the next 12 weeks. I can see, Presiding Officer, that everyone is pretty excited about contributing to that Green Paper. [*Laughter.*]

There is much in this programme to directly benefit people in Wales. Establishing an independent groceries code adjudicator is excellent news for small businesses across Wales and for Welsh farmers, who I know are being hit by these tough economic times and, dare I say it, by our Welsh weather—although today it has been absolutely glorious. Those who supply the big supermarkets will be protected by ensuring that large retailers treat them fairly and lawfully.

The small donations Bill will boost the income of Welsh charities, especially smaller charities, by removing the need to collect gift-aid declarations on their small donations.

The energy Bill was published for pre-legislative scrutiny yesterday. That will reform the electricity market to ensure secure, affordable and low carbon electricity in the future. Without that reform, we will not attract the £110 billion in investment that Britain needs over the next decade to keep the lights on. That Bill will create the right

lysoedd a thribiwnlysoedd fwy agored ac effeithiol. Bydd hefyd yn gwneud gyrru dan ddylanwad cyffuriau yn drosedd newydd—sy'n gam y byddwch i gyd yn ei groesawu, rwyf yn siŵr.

Yna, mae ein rhaglen ddeddfwriaethol yn cyflwyno mwy o waith diwygio cyfansoddiadol, gan gynnwys Bil Cofrestru Etholiadol a Gweinyddu Etholiadol i leihau twyll etholiadol drwy gyflwyno system o gofrestru pobl yn unigol at ddbenion etholiadol, yn ogystal â Bil i ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi.

Yn ogystal, ar gyfer Cymru, ceir y Papur Gwyrdd ar drefniadau etholiadol ar gyfer y Cynulliad yn y dyfodol, a gyhoeddais ddydd Llun. Rwyf yn eich annog chi ac unrhyw un sydd â diddordeb yng nghyfansoddiad y Cynulliad yn y dyfodol i gyfrannu at yr ymgynghoriad hwnnw, a fydd ar agor am y 12 wythnos nesaf. Gallaf weld, Lywydd, bod pawb yn edrych ymlaen yn fawr at gyfrannu i'r Papur Gwyrdd hwnnw. [*Chwerthin.*]

Mae llawer yn y rhaglen hon a fydd o fudd uniongyrchol i bobl Cymru. Mae sefydlu dyfarnwr annibynnol y cod cyflenwi bwydydd yn newyddion gwych i fusnesau bach ledled Cymru ac i ffermwyr Cymru, y gwn eu bod yn dioddef oherwydd y cyfnod economaidd anodd hwn ac, os mentraf ddweud, oherwydd ein tywydd yma yng Nghymru—er bod y tywydd heddiw wedi bod yn fendigedig. Bydd y rhai sy'n cyflenwi'r archfarchnadoedd mawr yn cael eu hamddiffyn drwy sicrhau bod manwerthwyr mawr yn eu trin yn deg ac yn gyfreithlon.

Bydd y Bil rhoddion bach yn rhoi hwb i incwm elusennau Cymru, yn enwedig elusennau llai o faint, drwy ddileu'r angen i gasglu datganiadau cymorth rhodd ar eu rhoddion bach.

Cafodd y Bil ynni ei gyhoeddi ddoe er mwyn craffu arno cyn y broses ddeddfu. Bydd hwnnw'n diwygio'r farchnad drydan er mwyn sicrhau cyflenwad diogel a fforddiadwy o drydan carbon isel yn y dyfodol. Heb y diwygio hwnnw, ni fyddwn yn denu'r buddsoddiad o £110 biliwn y mae ei angen ar Brydain dros y degawd nesaf i

regulatory environment to create jobs and to help keep energy bills low. Crucially, as we all work to secure the future of Wylfa nuclear power station, the Bill will create a new office for nuclear regulation as an industry-financed regulator to maintain public confidence in nuclear power and ensure that the UK is an attractive place for nuclear consortia to invest in.

We will also publish the water Bill in draft, which will reform the industry to allow businesses to switch their water and sewerage supplier and encourage new entrants into the market. This draft Bill will provide a lot of opportunities for Wales, but I have to warn that the complexity of the devolution settlement, when it comes to water, and the distinctiveness of the water industry in Wales means that we will need to work closely with the Welsh Government to find solutions that work effectively on both sides of the border.

I know how difficult it is for hardworking families in these tough economic times, and that is why our programme rewards people who work hard—those who make a positive contribution to society. We will bring forward a children and families Bill, which will include measures to make parental leave more flexible and reform the family justice system to speed up care proceedings. This Bill will also contain England-only measures to cut the time that ethnic minority children wait to be adopted. The Welsh Government and the Assembly may want to consider whether these measures could be usefully extended to Wales in any way, but we are opening discussions on that point.

To make devolution work well is important, and it is important that we have engagement and debate the results in a constructive fashion. That is why we are going to publish a care and support Bill in draft to modernise adult care and support in England. I am absolutely delighted that agreement has already been reached in principle with all three devolved administrations to ensure that

gadw'r goleuadau ynghynn. Bydd y Bil hwnnw'n creu'r amgylchedd rheoleiddio iawn i greu swyddi a helpu i gadw biliau ynni yn isel. Yr hyn sy'n hollbwysig, wrth inni i gyd weithio i sicrhau dyfodol gorsaf ynni niwclear Wylfa, yw y bydd y Bil yn creu swyddfa newydd ar gyfer rheoleiddio ynni niwclear, a fydd yn rheoleiddiwr a gaiff ei ariannu gan y diwydiant er mwyn cynnal hyder y cyhoedd mewn ynni niwclear a sicrhau bod y DU yn lle deniadol i gonsortia niwclear fuddsoddi ynddo.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi'r Bil dŵr ar ffurf drafft, a fydd yn diwygio'r diwydiant i ganiatáu i fusnesau newid eu cyflenwr dŵr a charthffosiaeth ac annog cyflenwyr newydd i ddod i'r farchnad. Bydd y Bil drafft hwn yn darparu llawer o gyfleoedd i Gymru, ond rhaid imi rybuddio bod cymhlethdod y setliad datganoli, yng nghyswllt dŵr, a hynodrwydd y diwydiant dŵr yng Nghymru yn golygu y bydd angen inni weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i atebion sy'n gweithio'n effeithiol bob ochr i'r ffin.

Gwn mor anodd ydyw i deuluoedd sy'n gweithio'n galed yn y cyfnod economaidd anodd hwn, a dyna pam y mae ein rhaglen yn gwobrwyo pobl sy'n gweithio'n galed—y rhai sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymdeithas. Byddwn yn cyflwyno Bil plant a theuluoedd, a fydd yn cynnwys mesurau i wneud absenoldeb rhiant yn fwy hyblyg, ac a fydd yn diwygio'r system cyfiawnder teuluol i gyflymu achosion sy'n ymwneud â gofal. Bydd y Bil hwn hefyd yn cynnwys mesurau a fydd yn berthnasol i Loegr yn unig i leihau'r amser y mae plant o leiafrifoedd ethnig yn aros i gael eu mabwysiadu. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad am ystyried a fyddai'n ddefnyddiol ymestyn y mesurau hyn i Gymru mewn unrhyw fodd, ond rydym yn dechrau trafodaethau ynghylch y pwynt hwnnw.

Mae sicrhau bod datganoli'n gweithio'n dda yn bwysig, ac mae'n bwysig inni sicrhau bod ymgysylltu'n digwydd a'n bod yn trafod y canlyniadau mewn modd adeiladol. Dyna pam yr ydym yn bwriadu cyhoeddi Bil gofal a chymorth ar ffurf drafft i foderneiddio gofal a chymorth i oedolion yn Lloegr. Rwyf wrth fy modd bod cytundeb wedi ei sicrhau eisoes mewn egwyddor gyda phob un o'r tair

internal borders within the UK do not impede the effective delivery of residential care.

Last, and by no means least, this Government will deliver pensions reform. The Pensions Bill will modernise the pension system, providing a £140 basic state pension that will reduce means testing and reward those who work hard and save hard all their lives. The public service pensions Bill will reform public service provision in line with the recommendations of the Independent Public Service Pensions Commission. We have had a good start to implementing the programme and have introduced five Bills in Parliament so far, including some with the most important consequences for people in Wales, such as the Groceries Code Adjudicator Bill.

The Government wants to continue to work co-operatively with the Welsh Government as we deliver our programme. Some Bills have particular relevance to Wales, and others I have mentioned, like the draft water Bill, will need that detailed work to get through the complexities of the devolution settlement that we inherited. I also hope that we can learn from each other as we take the respective policies forward on either side of the devolution statement. Adoption is just one such area that I have touched on today. I hope that the spirit of co-operation can also extend to other aspects of our work, so that we work together for the good of Wales. For example, I have just returned from a diplomatic and trade visit to Thailand, Cambodia and Singapore on behalf of Her Majesty's Government and the UK as a whole, and I was delighted by the interest in doing business in Wales. I believe strongly that Wales would benefit from our common endeavour to attract more inward investment, despite the obvious political differences between our two Governments. Common purpose should bring out the best in politics across the political divide, particularly as I believe we share the same ambitions for Wales.

gweinyddiaeth ddatganoledig i wneud yn siŵr nad yw ffiniau mewnol yn y DU yn rhwystro'r gwaith o ddarparu gofal preswyl yn effeithiol.

Yn olaf, ond nid yn lleiaf o bell ffordd, bydd y Llywodraeth hon yn cyflwyno diwygiadau i bensiynau. Bydd y Bil Pensiynau yn moderneiddio'r system bensiynau, gan ddarparu pensiwn sylfaenol o £140 gan y wladwriaeth, a fydd yn lleihau'r angen am broffion modd ac yn gwobrwyo'r rheini sy'n gweithio'n galed ac sy'n cynilo'n ofalus ar hyd eu hoes. Bydd y Bil pensiynau gwasanaethau cyhoeddus yn diwygio darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn unol ag argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym wedi cael dechrau da o ran gweithredu'r rhaglen ac wedi cyflwyno pum Bil yn y Senedd hyd yn hyn, gan gynnwys rhai â'r goblygiadau pwysicaf i bobl Cymru, megis Bil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd.

Mae'r Llywodraeth yn awyddus i barhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru wrth inni gyflawni ein rhaglen. Mae rhai Biliau yn arbennig o berthnasol i Gymru, ac yn achos rhai eraill yr wyf wedi eu crybwyll, megis y Bil dŵr drafft, bydd angen gwneud y gwaith manwl hwnnw i ddod drwy gymhlethdodau'r setliad datganoli a etifeddwyd gennym. Rwyf hefyd yn gobeithio y gallwn ddysgu oddi wrth ein gilydd wrth inni symud y polisiau perthnasol yn eu blaen ar y naill ochr a'r llall i'r datganiad datganoli. Mae mabwysiadu yn un maes o'r fath yr wyf wedi sôn amdano heddiw. Rwyf yn gobeithio y gall yr ysbryd o gydweithio ymestyn hefyd i agweddau eraill ar ein gwaith, fel ein bod yn gweithio gyda'n gilydd er lles Cymru. Er enghraifft, rwyf newydd ddychwelyd o ymweliad diplomyddol a masnach â Gwlad Thai, Cambodia a Singapôr ar ran Llywodraeth Ei Mawrhydi a'r DU gyfan, ac roeddwn yn falch iawn o'r diddordeb mewn gwneud busnes yng Nghymru. Credaf yn gryf y byddai Cymru yn elwa pe baem yn cydymdrechu i ddenu mwy o fewnfuddsoddi, er gwaethaf y gwahaniaethau gwleidyddol amlwg rhwng ein dwy Lywodraeth. Dylai diben cyffredin esgor ar y gorau mewn gwleidyddiaeth ar draws y rhaniad gwleidyddol, yn enwedig gan fy mod o'r farn bod gennym yr un

dyheadau ar gyfer Cymru.

I am a strong believer in the union, a belief that I know is shared by many Members here today and, more importantly, by the people of Wales. I want to see an inspired, confident and vibrant Wales standing proudly alongside other parts of the United Kingdom. What Wales needs to prosper is not independence—it is the interdependence of the four nations to provide economic growth, investment, prosperity and security in these difficult times. This is a legislative programme to help take the UK, including Wales, forward, and I commend it today.

Finally, Presiding Officer, in her Diamond Jubilee year, I would like to pay tribute to Her Majesty the Queen, who has given such tireless service to the people of this country. I feel sure, both in Wales and across the country, that people are looking forward to the Diamond Jubilee celebrations in a few weeks' time, together with the exciting prospect of the Olympics and Paralympics, which start, of course, with the first event, even before the opening ceremony, here in Cardiff. Presiding Officer, I look forward to hearing Members' questions and listening to what I am sure will be a stimulating and interesting debate.

The Presiding Officer: The Business Committee has agreed that the first speaker from each party will have three minutes. I ask everyone else to confine themselves to questions, as we have a debate of an hour and 30 minutes following this item. The first speaker is Sandy Mewies.

Sandy Mewies: Thank you, Presiding Officer. I thank the Secretary of State for Wales for coming to Cardiff today to deliver her second statement to the National Assembly following a Queen's Speech. I noted with interest the brevity of the Wales Office press release that was published on 9 May following the Queen's Speech—four very short paragraphs about the impact on Wales. It is fair to say that the public's focus since then—not just in Wales, but across the UK—has not been on what was contained in the Queen's Speech, but on what was missing from it, particularly in terms of much-needed action to boost jobs and growth in the Welsh

Rwyf yn credu'n gryf yn yr undeb, cred a gaiff ei rhannu, mi wn, gan nifer o Aelodau yma heddiw, ac, yn bwysicach, gan bobl Cymru. Rwyf am weld Cymru ysbrydoledig, hyderus ac egnïol sy'n sefyll yn falch ochr yn ochr â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Nid annibyniaeth y mae ei hangen ar Gymru i ffynnu—ond cyd-ddibyniaeth y pedair gwlad i ddarparu twf economaidd, buddsoddiad, ffyniant a sicrwydd yn y cyfnod anodd hwn. Mae hon yn rhaglen ddeddfwriaethol i helpu i symud y DU, gan gynnwys Cymru, yn ei blaen, ac fe'i cymeradwyaf heddiw.

Yn olaf, Lywydd, ym mlwyddyn ei Jiwbilí Ddiemwnt, hoffwn roi teyrnged i'w Mawrhydi y Frenhines, sydd wedi rhoi gwasanaeth mor ddiflino i bobl y wlad hon. Rwyf yn sicr bod pobl yng Nghymru ac ar draws y wlad, yn edrych ymlaen at ddatliadau'r Jiwbilí Ddiemwnt ymhen ychydig wythnosau, ynghyd â holl gyffro'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, sy'n dechrau, wrth gwrs, â'r digwyddiad cyntaf, cyn y seremoni agoriadol hyd yn oed, yma yng Nghaerdydd. Lywydd, edrychaf ymlaen at glywed cwestiynau'r Aelodau a gwrando ar drafodaeth a fydd yn ysgogol ac yn ddiddorol, rwyf yn siŵr.

Y Llywydd: Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y bydd y siaradwr cyntaf o bob plaid yn cael tair munud. Gofynnaf i bawb arall eu cyfyngu eu hunain i gwestiynau, gan fod gennym ddadl o awr a 30 munud ar ôl yr eitem hon. Y siaradwr cyntaf yw Sandy Mewies.

Sandy Mewies: Diolch, Lywydd. Diolch i Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ddod i Gaerdydd heddiw i gyflwyno ei hail ddatganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn Araith y Frenhines. Nodais gyda diddordeb mor fyr oedd y datganiad i'r wasg gan Swyddfa Cymru, a gyhoeddwyd ar 9 Mai yn dilyn Araith y Frenhines—pedwar paragraff byr iawn am yr effaith ar Gymru. Mae'n deg dweud nad yw ffocws y cyhoedders hynny—nid yn unig yng Nghymru, ond ar draws y DU—wedi bod ar yr hyn a oedd wedi'i gynnwys yn Araith y Frenhines, ond yn hytrach ar yr hyn a oedd ar goll ynddi, yn enwedig o ran y gweithredu y mae ei angen

and wider economy.

Secretary of State, I hope that you will take this opportunity to welcome the decisive action taken yesterday by the Welsh Government in publishing the 'Wales Infrastructure Investment Plan for Growth and Jobs'. It clearly showed that, as far as the Welsh economy is concerned, the Welsh Government is ahead of the game in putting in place the right policies at the right time.

Finally, in terms of getting Wales's funding on a more secure basis, it would have been good to have read in the Queen's Speech some commitment from the UK Government on how it intends to address the so-called Barnett floor, as well a commitment to longer-term reform of the Barnett formula itself, provision for the Welsh Government to access borrowing, and a pledge to reduce the rate of VAT on domestic repairs and improvements to energy efficiency to help boost the construction sector in Wales. All these matters would have helped Wales through the current difficulties. Therefore, Secretary of State, are you able to say that your Government will be giving consideration to these important issues and making commitments towards them?

Cheryl Gillan: First of all, thank you for your welcome. I am sorry that our press release was rather short, but the Queen's Speech is kept fairly tight until the very last minute, and, when we work with officials in other departments, it is fair to say that, before the publication of the Bills, we want to have a look at them in detail. Sometimes there are areas that come out that we need to discuss.

We have welcomed the infrastructure plan, and I am delighted that the Welsh Government has published it. We shall study it in detail. You will know that I am very keen on infrastructure for Wales by the fact that I have encouraged the Treasury to be very generous when it comes to the money for installing broadband. You also know how hard I fought for electrification of the railway line to Cardiff, and I can assure you that I am fighting very hard to ensure that the Prime Minister's statement that we intend to

yn fawr i hybu swyddi a thwf yn economi Cymru a'r economi ehangach.

Ysgrifennydd Gwladol, rwyf yn gobeithio y byddwch yn manteisio ar y cyfle hwn i groesawu'r camau pendant a gymerwyd ddoe gan Lywodraeth Cymru wrth iddi gyhoeddi'r 'Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi'. Roedd yn dangos yn glir, o safbwynt economi Cymru, bod Llywodraeth Cymru ar y blaen o ran rhoi'r polisiau iawn ar waith ar yr adeg iawn.

Yn olaf, o ran rhoi cyllid Cymru ar sail fwy cadarn, byddai wedi bod yn dda gweld yn Araith y Frenhines rywfaint o ymrwymiad gan Lywodraeth y DU o ran sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â therfyn isaf Barnett, fel y'i gelwir, yn ogystal ag ymrwymiad tymor hwy i ddiwygio fformiwla Barnett ei hun, darparu modd i Lywodraeth Cymru fenthyca, ac addewid i ostwng y gyfradd TAW ar atgyweiriadau a gwelliannau i'r cartref o safbwynt effeithlonrwydd ynni i helpu i roi hwb i'r sector adeiladu yng Nghymru. Byddai'r holl faterion hyn wedi helpu Cymru drwy'r anawsterau presennol. Felly, Ysgrifennydd Gwladol, a allwch ddweud y bydd eich Llywodraeth yn ystyried y materion pwysig hyn ac yn ymrwymo iddynt?

Cheryl Gillan: Yn gyntaf, diolch am eich croeso. Mae'n ddrwg gennyf fod ein datganiad i'r wasg braidd yn fyr, ond prin yw'r wybodaeth sydd ar gael am Araith y Frenhines tan y funud olaf, a phan fyddwn yn gweithio gyda swyddogion mewn adrannau eraill, mae'n deg dweud ein bod am edrych yn fanwl ar y Biliau cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Weithiau daw meysydd i'r amlwg y mae angen inni eu trafod.

Rydym wedi croesawu'r cynllun seilwaith, ac rwyf yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi ei gyhoeddi. Byddwn yn ei astudio yn fanwl. Gwyddoch fy mod yn frwd iawn dros seilwaith i Gymru oherwydd fy mod wedi annog y Trysorlys i fod yn hael iawn pan ddaw'n fater o ddarparu'r arian ar gyfer gosod band eang. Gwyddoch hefyd mor galed y bûm yn brwydro dros drydaneiddio'r rheilffordd i Gaerdydd, a gallaf eich sicrhau fy mod yn brwydro'n galed iawn i sicrhau bod datganiad y Prif Weinidog ynghylch ein

electrify the Valleys lines comes to fruition. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order.

Cheryl Gillan: I would just say to the Assembly Member that we are dealing with some fairly difficult economic situations at the moment. We inherited a record deficit and debt and we are dealing with that deficit, keeping interest rates low, cutting income tax, cutting fuel duty and we are trying to make sure that work is rewarded well.

When it comes to the financial matters, such as the Barnett floor, I am very pleased to see the Minister for Finance in her place, and I am sure that she will tell you in her own words, but, as I have the floor, I might as well say it, that I think that everybody knows that the Barnett formula is coming to the end of its life and needs to be looked at, but that is something that affects the entire United Kingdom and is the subject of bilateral negotiations between the Minister for Finance and, at the moment, the Chief Secretary to the Treasury, but also the Chancellor. When it comes to looking at borrowing powers, there are also bilateral engagements on those, which I hope that the Minister for Finance is finding very useful—indeed, I think that she is, having read her last letter on the subject. I am very supportive of making sure that those discussions continue.

In addition, when setting out the Silk commission, I thought it was really important that we looked at borrowing powers in that context, as we are looking at fiscal accountability, so some elements of borrowing will also be looked at by the Silk commission. I would hope that the Assembly Member finds those answers acceptable and agrees that they show that we are trying to do something, but if there is anything else that we can do, please do not hesitate to drop me a line.

Andrew R.T. Davies: I welcome the Secretary of State here for her statement on the Queen's Speech. It is a shame that no member of the Welsh Government has

bwriad i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn dwyn ffrwyth. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn.

Cheryl Gillan: Hoffwn ddweud wrth yr Aelod Cynulliad ein bod yn ymdrin â rhai sefyllfaoedd economaidd eithaf anodd ar hyn o bryd. Bu inni etifeddu'r diffyg a'r ddyled fwyaf erioed, ac rydym yn mynd i'r afael â'r diffyg hwnnw, gan gadw cyfraddau llog yn isel, torri treth incwm a thorri treth ar danwydd, ac rydym yn ceisio sicrhau bod gwaith yn cael ei wobrwyo'n dda.

O ran y materion ariannol, megis terfyn isaf Barnett, rwyf yn falch iawn o weld y Gweinidog Cyllid yn ei lle, ac rwyf yn siŵr y bydd yn dweud wrthyf yn ei geiriau ei hun, ond, gan mai fi sy'n siarad, cystal i mi ei ddweud, fy mod yn credu bod pawb yn gwybod bod fformiwla Barnett yn dod at ddiwedd ei hoes a bod angen edrych arni, ond mae hynny'n rhywbeth sy'n effeithio ar y Deyrnas Unedig gyfan ac sy'n destun trafodaethau dwyochrog rhwng y Gweinidog Cyllid a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar hyn o bryd, a'r Canghellor hefyd. O ran pwerau benthyca, ceir trafodaethau dwyochrog ynghylch y rheini hefyd, ac rwyf yn gobeithio bod y Gweinidog Cyllid yn gweld eu bod yn ddefnyddiol iawn—yn wir, credaf ei bod, ar ôl darllen ei llythyr diwethaf ar y mater. Rwyf yn gefnogol iawn o safbwynt sicrhau bod y trafodaethau hynny'n parhau.

Yn ogystal, wrth sefydlu comisiwn Silk, roeddwn o'r farn ei bod yn bwysig iawn inni edrych ar bwerau benthyca yn y cyd-destun hwnnw, gan ein bod yn edrych ar atebolrwydd ariannol. Felly, bydd comisiwn Silk hefyd yn edrych ar rai elfennau'n ymwneud â benthyca. Byddwn yn gobeithio bod yr Aelod Cynulliad yn teimlo bod yr atebion hynny'n dderbyniol ac yn cytuno eu bod yn dangos ein bod yn ceisio gwneud rhywbeth, ond os oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud, mae croeso ichi ysgrifennu ataf.

Andrew R.T. Davies: Croesawaf yr Ysgrifennydd Gwladol yma ar gyfer ei datganiad ar Araith y Frenhines. Mae'n drueni nad yw'r un aelod o Lywodraeth

extended her the courtesy of responding to that statement, as has been the custom in this place. However, I agree entirely with the sentiments expressed in the Queen's Speech about budget deficit reduction. No country can carry on spending £120 million a day in interest. Equally, we have seen the measures that have been implemented to reduce the deficit by 25% to date, just two years in. That puts this country on a sound economic footing, as can be seen by the way in which the Government can borrow money in the money markets today at record rates of interest. That allows more money to be invested in public services and sustains record rates of low interest rates for businesses and homeowners to invest in their futures.

2.45 p.m.

The various points that I wish to put to the Secretary of State in the three minutes afforded to me are simple. I welcome the point in the Queen's Speech about working collaboratively with the devolved institutions and Governments, and I welcome any input from the Secretary of State as to how that might be improved, given that she has now had some two years as Secretary of State. There is also an important piece of legislation in relation to special educational needs and disabled children, which I fully understand has an England-only parameter, but there are important areas of mutual benefit there, and I would be grateful if the Secretary of State could enlarge on how she believes that Bill could enhance children's services, particularly adoption services, across the United Kingdom and particularly in Wales.

I note the strengthening of the regulation of financial services via the banking reform Bill that is to be brought forward. We are all aware of the financial situation that we face, but it is vital that, in legislating, we do not strike down the entrepreneurial spirit needed in this country. I would be most grateful if the Secretary of State could indicate the Government's thinking on that. We must ensure that we do not throw the baby out with

Cymru wedi bod yn ddigon cwrtais i ymateb i'r datganiad hwnnw, fel sydd wedi arfer digwydd yn y lle hwn. Fodd bynnag, rwyf yn cytuno'n llwyr â'r teimladau a fynegwyd yn Araith y Frenhines am leihau'r diffyg yn y gyllideb. Ni all yr un wlad barhau i wario £120 miliwn y dydd ar log. Yn yr un modd, rydym wedi gweld y mesurau a roddwyd ar waith i leihau'r diffyg 25% hyd yn hyn, a hynny mewn cwta ddwy flynedd. Mae hynny'n rhoi'r wlad hon ar sylfaen economaidd gadarn, fel y gwelir o'r modd y gall y Llywodraeth gael benthyg arian yn y marchnadoedd arian heddiw ar sail cyfraddau llog sydd gyda'r isaf erioed. Mae hynny'n caniatáu i fwy o arian gael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'n cynnal cyfraddau llog sydd gyda'r isaf erioed er mwyn i fusnesau a pherchnogion tai fuddsoddi yn eu dyfodol.

Mae'r pwyntiau amrywiol yr hoffwn eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol yn y tair munud sydd gennyf yn syml. Croesawaf y pwynt yn Araith y Frenhines am gydweithio â'r sefydliadau a Llywodraethau datganoledig, a chroesawaf unrhyw gyfraniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch sut y gellid gwella hynny, o ystyried ei bod bellach wedi bod yn Ysgrifennydd Gwladol ers rhyw ddwy flynedd. Ceir darn pwysig o ddeddfwriaeth hefyd mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig a phlant anabl, yr wyf yn deall yn iawn ei fod yn berthnasol i Loegr yn unig, ond ceir meysydd pwysig sydd o fudd i bawb ynddo, a byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu ymhelaethu ar sut y mae'n credu y gallai'r Bil wella gwasanaethau plant, yn enwedig gwasanaethau mabwysiadu, ledled y Deyrnas Unedig ac yn enwedig yng Nghymru.

Rwyf yn nodi'r bwriad i gryfhau gwaith rheoleiddio gwasanaethau ariannol drwy'r Bil diwygio'r banciau, y bwriedir ei gyflwyno. Mae pob un ohonom yn ymwybodol o'r sefyllfa ariannol yr ydym yn ei hwynebu, ond wrth ddeddfu, mae'n hanfodol inni beidio â lladd yr ysbryd entrepreneuriaid y mae ei angen yn y wlad hon. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Ysgrifennydd Gwladol amlinellu safbwynt y Llywodraeth ar hynny.

the bath water and that we keep a dynamic banking sector in this country to assist businesses and individuals to access the capital that they need.

Finally, I ask the Secretary of State to address the European dynamic, which was touched on in the Queen's Speech and which we are all conscious of going forward in the next couple of months. That could change everything that we have talked about. The Queen's Speech included provision for the European Union (Approval of Treaty Amendment Decision) Bill, and Assembly Members would be interested to understand the UK Government's thinking and perspective on this issue going forward.

Cheryl Gillan: Thank you for that series of questions. I will try to cover them all. However, if I miss anything in replying to any Assembly Member, I will write to them afterwards. We will check the Record so that you get a full answer to whatever you raised.

First of all, I must say that I am sad that the First Minister is not here, because I have seen him this morning, when I attended the joint ministerial committee on domestic issues. [*Interruption.*] Yes, I was there for 10 minutes, out of politeness, and I left my Parliamentary Under-Secretary of State to conduct the business. I believe that there were First Ministers missing from other areas of the United Kingdom as well. The First Minister told me that he has a series of meetings to attend, and I think that he is going to a meeting with the TUC later today. I am sad that he is not here, but these things happen. Busy people have busy schedules.

We have worked hard on deficit reduction and it is the single most important thing dominating the whole of the political agenda. Most reasonable people understand that the level of the debt and deficit that we were left with was absolutely astronomical. I was pleased to see comments made by the

Rhaid inni sicrhau nad ydym yn cael gwared ar yr hyn sy'n dda yn ogystal â'r hyn sy'n ddrwg, a'n bod yn cadw sector bancio deinamig yn y wlad hon i gynorthwyo busnesau ac unigolion i gael gafael ar y cyfalaf y mae ei angen arnynt.

Yn olaf, gofynnaf i'r Ysgrifennydd Gwladol fynd i'r afael â'r ddeinameg Ewropeaidd, a grybwyllwyd yn Araith y Frenhines ac yr ydym i gyd yn ymwybodol ohoni wrth symud ymlaen yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Gallai hynny newid popeth yr ydym wedi sôn amdano. Roedd Araith y Frenhines yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cymeradwyo Penderfyniad i Ddiwygio Cytuniad), a byddai gan Aelodau'r Cynulliad ddiddordeb mewn deall barn a safbwynt Llywodraeth y DU ar y mater hwn wrth symud ymlaen.

Cheryl Gillan: Diolch am y gyfres honno o gwestiynau. Ceisiaf ymdrin â phob un. Fodd bynnag, os byddaf yn anghofio unrhyw beth wrth ymateb i unrhyw Aelod Cynulliad, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod wedyn. Byddwn yn edrych ar y Cofnod i sicrhau eich bod yn cael ateb llawn i ba bwyntiau bynnag a godwyd gennych.

Yn gyntaf, rhaid imi ddweud fy mod yn flin nad yw Prif Weinidog Cymru yma, oherwydd rwyf wedi ei weld y bore yma, pan oeddwn yn bresennol yng nghyd-bwyllgor y gweinidogion ar faterion domestig. [*Torri ar draws.*] Oeddwn, roeddwn i yno am 10 munud, o ran cwrteisi, a gadewais fy Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol i gyflawni'r busnes. Credaf fod rhai Prif Weinidogion yn absennol o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig hefyd. Dywedodd y Prif Weinidog wrthyf fod ganddo gyfres o gyfarfodydd i fynd iddynt, a chredaf ei fod yn mynd i gyfarfod gyda Chyngres yr Undebau Llafur yn ddiweddarach heddiw. Rwyf yn flin nad yw yma, ond mae'r pethau hyn yn digwydd. Mae gan bobl brysur amserlenni prysur.

Rydym wedi gweithio'n galed ar leihau'r diffyg, a dyna'r peth pwysicaf un sy'n fwy amlwg na dim arall ar yr agenda wleidyddol gyfan. Mae'r rhan fwyaf o bobl resymol yn deall bod lefel y ddyled a'r diffyg a adawyd inni yn aruthrol. Roeddwn yn falch o weld sylwadau a wnaed gan y Sefydliad ar gyfer

Organisation for Economic Co-operation and Development and the International Monetary Fund in the past 24 hours that they are supportive of what we have done, and they have commended the action of this Government. In fact, Christine Lagarde said that, if we had not taken that action, she 'shivered' at the thought of what would have happened to the economy of this country. We should all remember that. We will continue to do our absolute best to ensure that we reduce the deficit and debt, and enable people to have a secure future.

I now turn to the questions on the specific pieces of legislation, and I thank you for those questions, because this is about the legislation that we are bringing forward. The children and families Bill is indeed complex and most of the provisions quite rightly relate only to England. However, there will be some measures that relate to the whole of the UK and some that relate to the children's commissioner, which may also affect the Children's Commissioner for Wales. Keith Towler has done a superb job and I am supportive of the children's commissioner. I hope that we will have good engagement. We intend to cut red tape and delays in giving early specialist support for children and young people who have special educational needs and disabilities. We want to cut the time for which ethnic minority children wait to be adopted, as I said in my main speech. However, we also want to ensure that we reform that family justice system to speed up care proceedings, which we think is significant. We want to strengthen the law so that more children have a relationship with both parents if families break up and if that is in their best interests. I am sure that we will be able to do really valuable work across the two Governments to complement the activities of both Governments in this area.

Further details on the banking reform Bill will be provided in a White Paper, which is to be published in summer 2012. However, it is important that we ring-fence in primary legislation retail banking and depositor preference. Preferring retail depositors over unsecured creditors in the event of a bank insolvency means that people will be

Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol yn ystod y 24 awr diwethaf, a oedd yn nodi eu bod yn gefnogol i'r hyn yr ydym wedi'i wneud, ac maent wedi cymeradwyo'r camau a gymerwyd gan y Llywodraeth hon. Yn wir, dywedodd Christine Lagarde fod meddwl am beth fyddai wedi digwydd i economi'r wlad hon pe na baem wedi cymryd y camau hynny, yn codi arswyd arni. Dylai pob un ohonom gofio hynny. Byddwn yn parhau i wneud ein gorau glas i sicrhau ein bod yn lleihau'r diffyg a'r ddyled, ac yn galluogi pobl i gael dyfodol sicr.

Trof yn awr at y cwestiynau am y darnau penodol o ddeddfwriaeth, a diolch am y cwestiynau hynny, gan fod a wnelo hyn â'r ddeddfwriaeth yr ydym yn ei chyflwyno. Mae'r Bil plant a theuluoedd yn gymhleth, ac mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn berthnasol i Loegr yn unig, mae'n wir. Fodd bynnag, bydd rhai mesurau sy'n berthnasol i'r DU gyfan a rhai sy'n berthnasol i'r comisiynydd plant, a allai effeithio hefyd ar Gomisiynydd Plant Cymru. Mae Keith Towler wedi gwneud gwaith gwyb, ac rwyf yn gefnogol i'r comisiynydd plant. Gobeithio y bydd ymgysylltu da yn digwydd. Rydym yn bwriadu lleihau biwrocratiaeth ac oedi o ran rhoi cymorth arbenigol cynnar i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau. Rydym am leihau'r amser y mae plant o leiafrifoedd ethnig yn aros i gael eu mabwysiadu, fel y dywedais yn fy mhrif araith. Fodd bynnag, rydym hefyd am sicrhau ein bod yn diwygio'r system cyfiawnder teuluol i gyflymu achosion sy'n ymwneud â gofal, sy'n bwysig yn ein barn ni. Rydym am gryfhau'r gyfraith fel bod mwy o blant yn cael perthynas â'r ddau riant os bydd teuluoedd yn chwalu ac os dyna sydd orau i'r plant. Rwyf yn siŵr y byddwn yn gallu gwneud gwaith gwerthfawr iawn ar draws y ddwy Lywodraeth i ategu gweithgareddau'r naill Lywodraeth a'r llall yn y maes hwn.

Bydd manylion pellach am y Bil diwygio'r banciau yn cael eu darparu mewn Papur Gwyn, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod haf 2012. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gweithgareddau manwerthu banciau a rhoi blaenoriaeth i adnewyr yn cael eu neilltuo mewn deddfwriaeth sylfaenol. Os bydd banc yn methdal, bydd rhoi blaenoriaeth i

protected. That initiative is going to come forward in the Bill, and other measures are being implemented by the Financial Services Bill or through industry-led initiatives. We welcome the Independent Commission on Banking's recommendations, and we have committed to having the primary legislation, and the consequential secondary legislation, enacted by the end of this Parliament. Banks will then be expected to comply with that ring fence as soon as possible after that legislation comes into force.

Finally, we have a couple of Bills on the European dimension, particularly one on the Croatian accession. However, I think it fair to say that we are all waiting with eager anticipation to see what happens in the next Greek elections. We need to remember that, while we are an island and though we are not members of the euro, we are not isolated from what happens in Europe and in the eurozone. We are constantly engaged on these issues, and the Prime Minister is attending an informal Council of Ministers this evening in Europe, where more discussions will take place. We have to watch the situation carefully and try to make sure that we are in a position of influence. We possibly have to be wary of what might happen in the future. We hope that the outcome will be solid, and that Greece will not have to drop out of the euro, but we may have to face the consequences if any of that happens in future.

Leanne Wood: During the next debate, we will have an opportunity to discuss the UK Government's legislative programme, as well as its general policy direction, in more depth, and I will be making a contribution with Plaid Cymru's views on the austerity drive. I have a number of questions that arise from the Secretary of State's statement. First, Secretary of State, can you tell us whether you have given any consideration to devolving powers over energy to Wales. Energy clearly has an important part to play in our future economic success as a nation. There is cross-party support in the Senedd for movement on this, so how are you

adnewwyr manwerthu dros gredydwyr ansicredig yn golygu y bydd pobl yn cael eu gwarchod. Bydd y fenter honno'n cael ei chyflwyno yn y Bil, ac mae mesurau eraill yn cael eu gweithredu gan y Bil Gwasanaethau Ariannol neu drwy fentrau a gaiff eu harwain gan y diwydiant. Rydym yn croesawu argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Fancio, ac rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod y ddeddfwriaeth sylfaenol, a'r is-ddeddfwriaeth ganlyniadol, yn dod i rym erbyn diwedd y Senedd hon. Yna, bydd disgwyl i fanciau gydymffurfio â'r trefniadau neilltuo hynny cyn gynted ag sy'n bosibl wedi i'r ddeddfwriaeth honno ddod i rym.

Yn olaf, mae gennym ddau Fil ar y dimensiwn Ewropeaidd, yn enwedig un ar dderbyn Croatia i'r Undeb. Fodd bynnag, credaf ei bod yn deg dweud ein bod i gyd yn aros yn eiddgar i weld beth fydd yn digwydd yn etholiadau nesaf gwlad Groeg. Mae angen inni gofio, er mai ynys ydym ac er nad ydym yn aelodau o'r ewro, nad ydym wedi ein hynysu o'r hyn sy'n digwydd yn Ewrop ac yn ardal yr ewro. Rydym yn trafod y materion hyn yn gyson, ac mae Prif Weinidog y DU yn mynychu cyfarfod anffurfiol o Gyngor y Gweinidogion heno yn Ewrop, lle y bydd mwy o drafodaethau'n digwydd. Rhaid inni gadw golwg fanwl ar y sefyllfa a cheisio sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar bethau. Mae'n bosibl bod yn rhaid inni fod yn wylidwrus o'r hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol. Rydym yn gobeithio y bydd y canlyniad yn un cadarn, ac na fydd yn rhaid i wlad Groeg adael yr ewro, ond efallai y bydd yn rhaid inni wynebu'r canlyniadau os bydd hynny'n digwydd yn y dyfodol.

Leanne Wood: Yn ystod y ddadl nesaf, bydd gennym gyfle i drafod rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, yn ogystal â'i chyfeiriad cyffredinol o ran polisi, yn fwy manwl, a byddaf yn gwneud cyfraniad gyda barn Plaid Cymru am yr ymgyrch i weithredu mesurau cynilo. Mae gennyf nifer o gwestiynau sy'n codi o ddatganiad yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn gyntaf, Ysgrifennydd Gwladol, a allwch ddweud wrthym a ydych wedi ystyried datganoli pwerau dros ynni i Gymru o gwbl? Mae'n amlwg bod gan ynni rôl bwysig i'w chwarae yn ein llwyddiant economaidd fel cenedl yn y dyfodol. Ceir cefnogaeth

responding to that cross-party position?

You said that your legislative programme was all about jobs and growth. Why, then, are you slashing jobs in Remploy factories? When you started your opening statement, you paid tribute to soldiers from Wales. Why, then, are you cutting jobs in 1st the Queen's Dragoon Guards—the Welsh cavalry—if you are so concerned about Welsh soldiers? We all know that the jobs market does not look good, so what does the future hold for those sacked soldiers? You mentioned the water Bill, and the need to work more closely with the Welsh Government. I have a fairly simple solution to your complex problem: give us the power over water here.

I turn to your Green Paper, announced earlier this week, on reforming elections to the Assembly. Putting aside for one moment that it can appear unedifying for politicians to be debating their own electoral system, I would argue that since such matters have to be decided, the electoral system for the National Assembly for Wales should be decided in Wales and not by a Secretary of State who cannot even vote in those elections. Plaid Cymru has long argued for the single transferrable vote as the fairest and most representative of electoral systems. Our position is supported by the recommendations of the Richard commission. Does anyone here remember the Richard commission? Finally, if you received evidence arguing for the implementation of the recommendations of the Richard commission, would you be prepared at least to remain open to that?

Cheryl Gillan: First of all, I congratulate you, Leanne, on being elected leader of your party. Dare I say it, Presiding Officer, that I am delighted to see another woman leading a party? I am always keen to see women come forward in politics, and I know how tough it can be.

Let me take up each one of those points,

drawsbleidiol yn y Senedd dros symud ar y mater hwn, felly sut yr ydych yn ymateb i'r safbwynt trawsbleidiol hwnnw?

Bu ichi ddweud bod a wnelo eich rhaglen ddeddfwriaethol â swyddi a thwf. Pam, felly, yr ydych yn torri swyddi yn ffatrioedd Remploy? Wrth ddechrau eich datganiad agoriadol, bu ichi roi teyrnged i filwyr o Gymru. Pam, felly, yr ydych yn torri swyddi yng nghatrawd 1af Gwarchodlu Marchfilwyr y Frenhines—marchoglu Cymru—os ydych yn poeni cymaint am filwyr o Gymru? Gwyddom i gyd nad yw'r farchnad swyddi'n edrych yn dda, felly beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig i'r milwyr hynny a ddiswyddir? Bu ichi grybwyll y Bil dŵr, a'r angen i weithio'n agosach gyda Llywodraeth Cymru. Mae gennyf ateb gweddol syml i'ch problem gymhleth: rhowch y pŵer dros ddŵr i ni yn y fan hon.

Trof at eich Papur Gwyrdd, a gyhoeddwyd yn gynharach yr wythnos hon, ar ddiwygio etholiadau i'r Cynulliad. Gan roi o'r neilltu am eiliad y ffaith y gall ymddangos yn warthus bod gwleidyddion yn trafod eu system etholiadol eu hunain, byddwn yn dadlau, gan fod yn rhaid penderfynu ar faterion o'r fath, y dylai'r penderfyniad ynghylch y system etholiadol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei wneud yng Nghymru ac nid gan Ysgrifennydd Gwladol nad yw'n gallu pleidleisio yn yr etholiadau hynny hyd yn oed. Mae Plaid Cymru wedi dadlau ers amser mai'r bleidlais sengl drosglwyddadwy yw'r system etholiadol decaf a mwyaf cynrychiadol. Mae argymhellion comisiwn Richard yn cefnogi ein safbwynt. A oes unrhyw un yma yn cofio comisiwn Richard? Yn olaf, pe baech yn cael tystiolaeth yn dadlau o blaid gweithredu argymhellion comisiwn Richard, a fydddech yn barod i barhau i ystyried hynny o leiaf?

Cheryl Gillan: Yn gyntaf, hoffwn eich llongyfarch, Leanne, ar gael eich ethol yn arweinydd eich plaid. Mentraf ddweud, Lywydd, fy mod yn falch iawn o weld menyw arall yn arwain plaid. Rwyf bob amser yn awyddus i weld menywod yn dod i'r amlwg ym maes gwleidyddiaeth, a gwn mor anodd y gall fod.

Gadewch imi ymateb i bob un o'r pwyntiau

starting first of all with your straightforward request to devolve powers over energy. I am in danger of repeating myself. When David Cameron appointed me Secretary of State for Wales, I inherited a devolution settlement that was not of my making. With a devolution settlement set up as this one is, it is easy to have two Governments, with one saying, 'Give us powers over this', and the other saying 'no'. I do not want it to be like that, which is why the Silk commission has been set up. It is really important that devolution does not remain in blocks of concrete. We need to look at ways of taking it forward and managing it in the best interests of the UK and, of course, Wales. We decided that the commission would look at the financial systems and what taxes it may or may not be possible to pass to the Assembly and the Welsh Government. The second part will look at the architecture between the two Governments on all these areas. It is not as simple as handing over powers. In the energy sector, it is particularly complex, not least because we have energy security to consider, as you know. Those are reserved matters, and that is the settlement that was left to us by the previous Labour Government.

I will miss out Remploi and come back to it in a minute, because first I want to move on to powers over water. It is not as simple as you say. I have been having a look at the draft water Bill, and I had officials in from DEFRA to help me get my head around what could possibly be happening. What we hope to do is allow every business and public sector body to switch its water and sewerage supplier, enabling them to obtain more competitive prices, to improve their efficiency and to tender for better-tailored services to suit their business needs. When I was looking at this, of course I raised Welsh Water, which is a fantastic company and it does great work. As I understand it, the trouble is that Welsh Water has power over delivering water to companies and individuals on the English side of the border, and Severn Trent Water has powers over delivering water to some areas of Wales. It is a complex situation. You could end up with people in England receiving water without having any say over what the Welsh

hynny, gan ddechrau yn gyntaf gyda'ch cais syml i ddatganoli pwerau dros ynni. Mae perygl imi fy ailadrodd fy hun. Pan gefais fy mhenodi yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan David Cameron, etifeddais setliad datganoli na fûm yn rhan o'i lunio. Gyda setliad datganoli sydd wedi'i sefydlu fel y mae'r setliad hwn, mae'n hawdd cael dwy Lywodraeth, gydag un yn dweud, 'Rhowch bwerau inni dros hyn', a'r llall yn dweud 'na'. Nid wyf am i bethau fod felly, a dyna pam y mae comisiwn Silk wedi cael ei sefydlu. Mae'n bwysig iawn nad yw datganoli yn parhau'n ddiglyfnewid. Mae angen inni edrych ar ffyrdd o'i symud yn ei flaen a'i reoli er budd y DU a Chymru, wrth gwrs. Bu inni benderfynu y byddai'r comisiwn yn edrych ar y systemau ariannol a pha drethi y gallai fod yn bosibl neu'n amhosibl eu trosglwyddo i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Bydd yr ail ran yn edrych ar saerniaeth y berthynas rhwng y ddwy Lywodraeth ar yr holl feysydd hyn. Nid yw mor syml â throsglwyddo pwerau. Yn y sector ynni, mae'n arbennig o gymhleth, nid yn lleiaf oherwydd bod yn rhaid inni ystyried diogelu ffynonellau ynni, fel y gwyddoch. Mae'r rheini'n faterion a gadwyd yn ôl, a dyna'r setliad a adawyd inni gan y Llywodraeth Lafur flaenorol.

Rwyf am adael Remploi a dod yn ôl ato yn y funud, oherwydd yn gyntaf rwyf am symud ymlaen i bwerau dros ddŵr. Nid yw mor syml ag yr oeddech yn awgrymu. Rwyf wedi bod yn edrych ar y Bil dŵr drafft, a chefais gymorth gan swyddogion o DEFRA i'm helpu i geisio deall beth allai fod yn digwydd. Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei wneud yw caniatáu i bob busnes a phob corff yn y sector cyhoeddus newid ei gyflenwr dŵr a charthffosiaeth, gan eu galluogi i gael prisiau mwy cystadleuol, gwella eu heffeithlonrwydd a thendro am wasanaethau sydd wedi'u teilwra'n well i ddiwallu eu hanghenion busnes. Pan oeddwn yn edrych ar y mater hwn, cyfeiriais at Dŵr Cymru, wrth gwrs, sy'n gwmni gwych ac sy'n gwneud gwaith da iawn. Yn ôl a ddeallaf, y drafferth yw bod gan Dŵr Cymru bŵer dros ddarparu dŵr i gwmnïau ac unigolion ar ochr Lloegr o'r ffin, a bod gan Severn Trent Water bwerau dros ddarparu dŵr i rai ardaloedd yng Nghymru. Mae'n sefyllfa gymhleth. Gallech gael sefyllfa lle y mae pobl yn Lloegr yn cael dŵr

Government does with water and water suppliers in Wales. There are many complex issues that we need to have a look at, and the two Governments are going to have to work closely together to see how we can uncouple that or make arrangements to make this Bill successful. There is an awful lot of work to be done on that.

As far as our armed services are concerned, I take no lessons from anybody. I am second to none in support of our armed services right across the board. We have to change our armed services in response to the demands of the situation in which we find ourselves today, and this follows on from a strategic defence and security review. You will know that my colleague, Philip Hammond, is taking some decisions on matters that affect the armed services across the board, and some of those decisions have been excellent. The other day, I was pleased to go to the confirming ceremony of one of our new destroyers, which is associated with Cardiff. Nobody could be prouder of our armed services and our services personnel than I am.

3.00 p.m.

There are nine enterprise business sites in Wales operated by Remploy, and they employ 434 people, of which, 408 are disabled. I share your concern about Remploy and I have spoken to the Minister about that. I think that the Minister has already been to Wales and has been in discussion with Welsh Government Ministers, and is planning to come down with the Parliamentary Under-Secretary of State in the next couple of weeks to have more discussions with Welsh Government Ministers. We are committed to increasing the number of disabled people in work and we want to give disabled people the opportunity to realise their aspirations and to get into, stay and progress within their work. Therefore, I will be looking at that area carefully.

On the last point, I certainly remember the Richard commission. I also remember how some of it was ignored by the previous Government. The Green Paper that I have put out on the electoral system for the Assembly

heb fod ganddynt unrhyw ddylanwad dros yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud â dŵr a chyflenwyr dŵr yng Nghymru. Ceir llawer o faterion cymhleth y mae angen inni edrych arnynt, a bydd yn rhaid i'r ddwy Lywodraeth weithio'n agos gyda'i gilydd i weld sut y gallwn oresgyn hynny neu wneud trefniadau i wneud i'r Bil hwn lwyddo. Mae llawer iawn o waith i'w wneud ar hynny.

O ran ein lluoedd arfog, nid wyf yn barod i ddysgu gwersi gan neb. Nid oes neb yn fwy cefnogol na mi i'n lluoedd arfog yn gyffredinol. Rhaid inni newid ein lluoedd arfog i ymateb i ofynion y sefyllfa yr ydym ynddi heddiw, ac mae hynny'n dilyn adolygiad strategol o amddiffyn a diogelwch. Gwyddoch fod fy nghydweithiwr, Philip Hammond, yn gwneud rhai penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar y lluoedd arfog yn gyffredinol, ac mae rhai o'r penderfyniadau hynny wedi bod yn ardderchog. Y diwrnod o'r blaen, roeddwn yn falch o fynd i seremoni gadarnhau un o'n llongau distryw newydd, sy'n gysylltiedig â Chaerdydd. Ni allai neb fod yn fwy balch na mi o'n lluoedd arfog a'r sawl sy'n gwasanaethu ynddynt.

Ceir naw o safleoedd busnes menter yng Nghymru a weithredir gan Remploy, ac maent yn cyflogi 434 o bobl, y mae 408 ohonynt yn anabl. Rwyf innau, fel chithau, yn pryderu am Remploy, ac rwyf wedi siarad â'r Gweinidog am hynny. Credaf fod y Gweinidog eisoes wedi bod i Gymru ac wedi bod yn trafod â Gweinidogion Llywodraeth Cymru, ac mae'n bwriadu dod draw gyda'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf i gael mwy o drafodaethau â Gweinidogion Llywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y bobl anabl sydd mewn gwaith, ac rydym am roi cyfle i bobl anabl wireddu eu dyheadau a chael gwaith, aros mewn gwaith a gwneud cynnydd ynddo. Felly, byddaf yn edrych ar y maes hwnnw'n ofalus.

O ran y pwynt olaf, rwyf yn sicr yn cofio comisiwn Richard. Rwyf hefyd yn cofio sut y bu i'r Llywodraeth flaenorol anwybyddu rhywfaint ohono. Papur Gwyrdd yw'r papur a gyhoeddwyd gennyf ar y system etholiadol ar

is just that: it is a Green Paper. There is a 12-week consultation period. I am not telling anyone what to do; I am asking for people's opinions, and I want to hear from each and every one of you. You are quite right; there is an element of self-interest from all politicians on this. I do not just want to hear from politicians; I want to hear from people outside the Assembly. A Green Paper is a paper that is put up for discussion. I made it very clear in all of my interviews on Monday that I have expressed a preference, but that does not mean to say that I have a closed mind. [*Laughter.*] Do not laugh, because I do not have a closed mind; I am very open-minded about it.

However, it is not something that can stay in tablets of concrete. There was no mechanism under the settlement for reviewing the boundaries of Assembly seats, and that is something that will constantly have to be reviewed, as with all other electoral boundaries. I look forward to hearing from each and every one of you as to what your suggestions will be. I am also asking the people of Wales. This Green Paper is aimed not just at Assembly Members, but at the people of Wales, and I want to hear what people think.

Kirsty Williams: I share the Westminster Government's commitment to economic development and fairness. I think that those are the right priorities, and, in the short time available to me, I would like to focus on three topics that I believe are, in a Welsh context, fundamental if those goals of economic development and fairness are to be realised for our nation, and they are three things that you did not touch on in your statement.

All four parties in this Assembly are united in opposition to greater regional or localised pay, which we all believe would be damaging to the Welsh economy and will further entrench Wales as a low-pay economy. The Welsh Government's paper on the likely effects of regional pay received cross-party support when it was recently debated in this Chamber. I ask the Secretary of State whether the Welsh Government has sent her a copy of that report, and, if it has, what is her analysis

gyfer y Cynulliad. Ceir cyfnod ymgynghori o 12 wythnos. Nid wyf yn dweud wrth neb beth i'w wneud; rwyf yn gofyn am farn pobl, ac rwyf am glywed gan bob un ohonoch. Rydych yn llygad eich lle; mae elfen o hunan-les yn perthyn i hyn o safbwynt pob gwleidydd. Nid gan wleidyddion yn unig rwyf am glywed; rwyf am glywed gan bobl y tu allan i'r Cynulliad. Mae Papur Gwyrdd yn bapur sy'n cael ei gyflwyno i'w drafod. Dywedais yn glir iawn ym mhob un o'm cyfweiliadau ddydd Llun fy mod wedi mynegi barn am yr hyn a fyddai orau gennyf, ond nid yw hynny'n golygu fy mod yn gul fy meddwl. [*Chwerthin.*] Peidiwch â chwerthin, oherwydd nid wyf yn gul fy meddwl; mae gennyf feddwl agored iawn am y peth.

Fodd bynnag, nid yw'n rhywbeth sy'n gallu parhau'n ddigyfnewid. Nid oedd y setliad yn cynnwys dull o adolygu ffiniau seddi'r Cynulliad, ac mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid ei adolygu'n gyson, yn yr un modd ag unrhyw ffiniau etholiadol eraill. Edrychaf ymlaen at glywed awgrymiadau pob un ohonoch. Rwyf hefyd yn gofyn i bobl Cymru. Mae'r Papur Gwyrdd hwn wedi'i anelu nid yn unig at Aelodau'r Cynulliad, ond at bobl Cymru, ac rwyf yn awyddus i glywed beth yw barn pobl.

Kirsty Williams: Rwyf innau, fel y mae Llywodraeth San Steffan, wedi ymrwymo i ddatblygu economaidd a thegwch. Credaf mai dyna'r blaenoriaethau cywir, ac, yn yr amser byr sydd ar gael imi, hoffwn ganolbwyntio ar dri phwnc sydd, yn fy marn i, yn hanfodol yng nghyd-destun Cymru os ydym am wireddu'r nodau hynny o ddatblygu economaidd a thegwch i'n cenedl, ac maent yn dri pheth na chawsant eu crybwyll gennych yn eich datganiad.

Mae pob un o'r pedair plaid yn y Cynulliad hwn yn unedig yn eu gwrthwynebiad i gyflogau mwy rhanbarthol neu leol, a fyddai, ym marn pob un ohonom, yn niweidiol i economi Cymru ac a fydd yn cadarnhau statws Cymru ymhellach fel economi sydd â chyflogau isel. Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol i bapur Llywodraeth Cymru ar effeithiau tebygol cyflogau rhanbarthol, pan gafodd ei drafod yn ddiweddar yn y Siambr hon. Gofynnaf i'r Ysgrifennydd Gwladol a

of that report? I ask the Secretary of State to specifically state what representations she has made to the rest of the Cabinet with regard to the impact of regional pay on Wales?

On the issue of the Valleys metro, again, all four parties in Wales are united on the need for electrification of the Great Western main line to Swansea and the creation of a Valleys metro system. Philip Hammond, the former Secretary of State for Transport, gave a commitment that the Government would consider the electrification of the Valleys lines, following the development of a strong business case, and you have said that

‘a strong business case for electrification of the Valley Lines is something I passionately want to see’.

Therefore, what information have you received from the Welsh Government to help to develop that strong business case and how have you used that information to lobby the Secretary of State for Transport for this project? Also, will you act as a facilitator to ensure that the Secretary of State for Transport meets Welsh Ministers to develop the business case further and to negotiate possible sources of funding?

As you have alluded to this afternoon, there is now wide agreement that the reform of the Barnett formula is long overdue and that there is now irrefutable evidence that the formula short-changes Wales, thereby limiting our ability to deliver for the people of Wales, especially in the areas of health, education and economic development. Of course, I realise that a change to the Barnett formula has consequences for the rest of the United Kingdom, but there is one particular measure that could be introduced by the Westminster Government that would not have an effect on the rest of the UK. The introduction of a Barnett floor mechanism would prevent any further divergence in funding between Wales and England. Would the Secretary of State please tell the Chamber what discussions she has had with the Welsh

yw Llywodraeth Cymru wedi anfon copi o'r adroddiad hwnnw ati, ac, os ydyw, beth yw ei dadansoddiad o'r adroddiad hwnnw? Gofynnaf i'r Ysgrifennydd Gwladol ddweud yn benodol pa sylwadau y mae wedi eu cyflwyno i weddill y Cabinet ynghylch effaith cyflogau rhanbarthol ar Gymru?

O ran metro'r Cymoedd, unwaith eto, mae pob un o'r pedair plaid yng Nghymru yn unedig ynghylch yr angen i drydaneiddio prif reilffordd Great Western i Abertawe a chreu system fetro i'r Cymoedd. Cafwyd ymrwymiad gan Philip Hammond, y cyn-Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, y byddai'r Llywodraeth yn ystyried trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, ar ôl i achos busnes cryf gael ei ddatblygu, ac rydych chi wedi dweud

rwyf yn awyddus tu hwnt i weld achos busnes cryf dros drydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd.

Felly, pa wybodaeth yr ydych wedi'i chael gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddatblygu'r achos busnes cryf hwnnw, a sut yr ydych wedi defnyddio'r wybodaeth honno i lobïo'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth am y prosiect hwn? Hefyd, a fyddwch yn gweithredu fel hwylusydd i sicrhau bod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn cyfarfod â Gweinidogion Cymru i ddatblygu'r achos busnes ymhellach a thrafod ffynonellau cyllid posibl?

Fel yr ydych wedi awgrymu y prynhawn yma, ceir cytundeb helaeth erbyn hyn ei bod yn hen bryd diwygio fformiwla Barnett a bod tystiolaeth bendant yn awr bod y fformiwla yn gwneud cam â Chymru, gan gyfyngu ar ein gallu i gyflawni dros bobl Cymru, yn enwedig ym maes iechyd, addysg a datblygu economaidd. Wrth gwrs, rwyf yn sylweddoli bod gan newid fformiwla Barnett ganlyniadau ar gyfer gweddill y Deyrnas Unedig, ond ceir un mesur penodol y gallai Llywodraeth San Steffan ei gyflwyno, na fyddai'n cael effaith ar weddill y DU. Byddai cyflwyno terfyn isaf Barnett yn atal unrhyw wahaniaeth pellach mewn cyllid rhwng Cymru a Lloegr. A wnaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddweud wrth y Siambwr pa drafodaethau y mae wedi'u cael â Llywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn, a

Government on this issue, and what requests have been made of her with regard to the implementation of the Barnett floor? Assuming that discussions have taken place, would the Secretary of State inform us what specific action she has taken to represent those views with regard to the establishment of a Barnett floor to the Treasury?

Cheryl Gillan: I thank Kirsty Williams for that series of questions. On local pay, our aim is to create a more flexible labour market that is more responsive to the challenging economic conditions that we currently face. We want to create more private sector growth and, as a consequence, wealth in Wales and across the UK. The pay review bodies have been asked to consider the options for local pay, and they are expected to report in July. A decision will then need to be taken, depending on what the report says, by departments in the Welsh Government, which will be able to introduce local pay, if they choose to do so and if that is what is recommended. Where the pay arrangements are devolved to Wales, it will be for the Welsh Government to decide whether it wishes to adopt any proposals that come forward. I want to ensure that every aspect is considered. We then want to try to build a successful labour market.

On the electrification of the Valleys lines, once again, I have been absolutely a facilitator of this right from the beginning. I think that I was talking about the electrification of the Valleys lines almost before anyone else. It depends on the business case that comes forward. We worked together to get the business case on electrification to Cardiff. The Welsh Government is working with Her Majesty's Government and with the Department for Transport to try to make that case. There are obviously other schemes being considered by the Department for Transport, but the Prime Minister gave a firm indication of what he hopes will come forward. Certainly, I have been backing it absolutely to the hilt, and I hope that when the announcements come later this year, they will be very positive.

pha geisiadau a wnaed iddi o ran gweithredu terfyn isaf Barnett? Gan gymryd bod trafodaethau wedi'u cynnal, a wnaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddweud wrthym pa gamau penodol a gymerwyd ganddi i fynegi'r safbwyntiau hynny ynghylch sefydlu terfyn isaf Barnett wrth y Trysorlys?

Cheryl Gillan: Diolch i Kirsty Williams am y gyfres honno o gwestiynau. O ran cyflogau lleol, ein nod yw creu marchnad lafur fwy hyblyg sy'n fwy ymatebol i'r amodau economaidd heriol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Rydym am greu mwy o dwf yn y sector preifat, a mwy o gyfoeth yng Nghymru a ledled y DU o ganlyniad i hynny. Mae'r cyrff adolygu cyflogau wedi cael cais i ystyried yr opsiynau ar gyfer cyflogau lleol, ac mae disgwyl iddynt adrodd yn ôl ym mis Gorffennaf. Yna, yn dibynnu ar yr hyn y bydd yr adroddiad yn ei ddweud, bydd angen i benderfyniad gael ei wneud gan adrannau yn Llywodraeth Cymru, a fydd yn gallu cyflwyno cyflogau lleol, os byddant yn dewis gwneud hynny, ac os dyna a gaiff ei argymhell. Yn yr achosion hynny lle y mae trefniadau o ran cyflogau wedi'u datganoli i Gymru, Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu a yw'n dymuno mabwysiadu unrhyw gynigion a gyflwynir. Rwyf am sicrhau bod pob agwedd yn cael ei hystyried. Yna, rydym am geisio adeiladu marchnad lafur lwyddiannus.

O ran trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, unwaith eto, rwyf wedi bod yn hwyluso hyn o'r dechrau'n deg. Rwyf yn credu mai fi oedd y cyntaf bron i sôn am drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Mae'n dibynnu ar yr achos busnes a gyflwynir. Bu inni gydweithio i gyflwyno'r achos busnes dros drydaneiddio'r rheilffordd i Gaerdydd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Ei Mawrhydi a chyda'r Adran Drafnidiaeth i geisio cyflwyno'r achos hwnnw. Yn amlwg, mae'r Adran Drafnidiaeth yn ystyried cynlluniau eraill, ond cafwyd arwydd pendant gan Brif Weinidog y DU o'r hyn y mae'n gobeithio ei weld yn cael ei gyflwyno. Yn sicr, rwyf fi wedi bod yn cefnogi hynny i'r carn, a phan ddaw'r cyhoeddiadau yn nes ymlaen eleni, rwyf yn gobeithio y byddant yn gadarnhaol iawn.

I share your view on this, because it is very important. For years, we have tried to fix the economy in Wales by planting businesses or encouraging people to go up into the Valleys. We now have to ensure that we have a modern transport system for the future that can move people to where the work is. This is one of the ways in which we can really help to boost the economy in Wales.

Once again, I will say in this Chamber, as I have said in my own Chamber, that I am absolutely determined that we will not forget Swansea. I would still like to get the electrification of the line down to Swansea. However, we must have that business case. We cannot just go ahead on a whim. Of course, Swansea will benefit from the electrification to Cardiff. We need to remind ourselves that, in 13 years of a Labour Government, nothing was electrified at all. Therefore, I am pretty pleased that we are able to make that progress.

Turning once again to the Barnett formula, on the Barnett floor, the Minister for Finance and I have had several discussions and meetings; I feel that we should almost have a debate where we can reply to each other. She knows that I have been very taken with the Barnett floor, but, unfortunately, it is not my decision; it is the Treasury's decision, and it has to work these things through. I do not know if or when, or what likelihood there is that there will be a successful outcome to those meetings that would deliver a Barnett floor. However, I think that the case has been very well made, and I have discussed this at length with Gerry Holtham, who I think has put in a terrific piece of work, and it is on the agenda. As to what the outcome will be, it will be the outcome of the bilateral discussions between the Ministers for finance.

On the Barnett formula itself, yes, it is coming to the end of its time, but it is pretty difficult to find a successor to it, and that is currently not on the agenda, because our

Rwyf o'r un farn â chi am hyn, oherwydd mae'n bwysig iawn. Ers blynyddoedd, rydym wedi ceisio gwella'r economi yng Nghymru drwy blannu busnesau neu annog pobl i fynd i'r Cymoedd. Yn awr, rhaid inni sicrhau bod gennym system drafnidiaeth fodern ar gyfer y dyfodol, sy'n gallu symud pobl i'r mannau lle y mae'r gwaith. Dyma un o'r ffyrdd y gallwn fod o gymorth mawr i hybu'r economi yng Nghymru.

Unwaith eto, rwyf am ddweud yn y Siambr hon, fel yr wyf wedi dweud yn fy Siambr fy hun, fy mod yn hollol benderfynol na fyddwn yn anghofio Abertawe. Rwyf yn dal yn awyddus i weld y rheilffordd yn cael ei thrydaneiddio i Abertawe. Fodd bynnag, rhaid inni gael yr achos busnes hwnnw. Ni allwn fwrw ymlaen ar sail mympwy. Wrth gwrs, bydd Abertawe yn elwa o drydaneiddio'r rheilffordd i Gaerdydd. Mae angen inni ein hatgoffa ein hunain na chafodd dim byd o gwbl ei drydaneiddio mewn 13 blynedd o Lywodraeth Lafur. Felly, rwyf yn eithaf balch ein bod yn gallu gwneud y cynnydd hwnnw.

Gan droi unwaith eto at fformiwla Barnett, a therfyn isaf Barnett, mae'r Gweinidog Cyllid a minnau wedi cael nifer o drafodaethau a chyfarfodydd; bron nad wyf yn teimlo y dylem gael dadl lle y gall y naill ohonom ymateb i'r llall. Gŵyr fy mod wedi fy mhlesio'n fawr gan y syniad o gael terfyn isaf Barnett, ond, yn anffodus, nid fy mhenderfyniad i ydyw; penderfyniad y Trysorlys ydyw, ac mae'n rhaid iddo weithio drwy'r pethau hyn. Nid wyf yn gwybod os na phryd y bydd canlyniad llwyddiannus i'r cyfarfodydd hynny, a fyddai'n sicrhau terfyn isaf Barnett, na pha mor debygol yw hi y bydd hynny'n digwydd. Fodd bynnag, credaf fod yr achos wedi cael ei wneud yn dda iawn, ac rwyf wedi trafod hynny'n fanwl â Gerry Holtham, sydd wedi cyflwyno darn gwych o waith yn fy marn i, ac mae'r mater ar yr agenda. O ran y canlyniad, bydd yn ganlyniad trafodaethau dwyochrog rhwng y Gweinidogion cyllid.

O ran fformiwla Barnett ei hun, ydy, mae'n dod at ddiwedd ei hoes, ond mae'n eithaf anodd dod o hyd i olynydd iddi, ac nid yw hynny ar yr agenda ar hyn o bryd, oherwydd

priority in the Treasury must be to reduce the deficit and the debt, and that is exactly what we are doing. Nothing is going to deflect us from that until we get the economy back on track.

The Presiding Officer: I thank the spokespeople for being so concise. I remind the rest of the speakers that it will be questions only from now on as I have a very long list of speakers.

Mick Antoniw: I welcomed the statement you issued on 9 May with regard to the speech, which highlighted that the purpose was building a society that is fair and that rewards those who work hard and do the right thing. I welcome your comments on justice today. The Queen's Speech also refers to removing the regulatory burden on business. As part of this programme, the Government has already removed nearly all employment rights for workers for two years and is now considering proposals to take away fundamental employment rights for workers, redundancy rights and transfer of undertakings rights. Do you agree that this is contrary to justice and that it is totally contrary to the concept of rewarding those who work hard and do the right thing?

Cheryl Gillan: I thank you for that question. The Enterprise and Regulatory Reform Bill will cover several areas, but one of the things it will do with regard to workplace dispute resolution is encourage the earlier resolution of disputes. It is also going to deliver a more efficient and streamlined employment tribunal system for all users. We hope that it will give employers more confidence to hire new staff and support growth, but the Enterprise and Regulatory Reform Bill covers many other areas as well. It covers competition; the green investment bank, as I indicated in my opening remarks; directors' pay, strengthening shareholder power so that shareholders can hold companies to account on directors' pay; and it is also removing barriers in order to improve the quality and consistency of enforcement and inspections for business. Sometimes, people believe everything they read in the papers or they

rheid mai'r flaenoriaeth i ni yn y Trysorlys yw lleihau'r diffyg a'r ddyled, a dyna'n union yr ydym yn ei wneud. Nid oes dim yn mynd i'n gwyrdd oddi ar y llwybr hwnnw nes inni gael yr economi'n ôl ar y trywydd iawn.

Y Llywydd: Diolch i'r llefarwyr am fod mor gryno. Hoffwn atgoffa gweddill y siaradwyr mai cwestiynau yn unig a ganiateir o hyn ymlaen gan fod gennyf restr faith o siaradwyr.

Mick Antoniw: Croesewais y datganiad a gyhoeddwyd gennych ar 9 Mai ynghylch yr araith, a oedd yn tynnu sylw at y ffaith mai'r diben oedd adeiladu cymdeithas sy'n deg ac sy'n gwobrwyo'r rhai sy'n gweithio'n galed ac sy'n gwneud y peth iawn. Rwyf yn croesawu eich sylwadau ar gyfiawnder heddiw. Mae Araith y Frenhines hefyd yn cyfeirio at gael gwared ar y baich sydd ar fusnesau o safbwynt rheoleiddio. Yn rhan o'r rhaglen hon, mae'r Llywodraeth eisoes wedi amddifadu gweithwyr o'u holl hawliau cyflogaeth, bron iawn, am gyfnod o ddwy flynedd, ac mae bellach yn ystyried cynigion i ddileu hawliau cyflogaeth sylfaenol ar gyfer gweithwyr, hawliau diswyddo a hawliau yng nghyswllt trosglwyddo ymgymeriadau. A ydych yn cytuno bod hynny'n groes i gyfiawnder a'i fod yn gwbl groes i'r cysyniad o wobrwyo'r rhai sy'n gweithio'n galed ac sy'n gwneud y peth iawn?

Cheryl Gillan: Diolch am y cwestiwn hwnnw. Bydd y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio yn berthnasol i sawl maes, ond un o'r pethau y bydd yn ei wneud o ran datrys anghydfodau yn y gweithle fydd annog yr arfer o ddatrys anghydfodau'n gynharach. Bydd hefyd yn cyflwyno system driwlysoedd cyflogaeth fwy effeithlon a syml i bob defnyddiwr. Rydym yn gobeithio y bydd yn rhoi mwy o hyder i gyflogwyr gyflogi staff newydd a chefnogi twf, ond mae'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio yn ymdrin â llawer o feysydd eraill hefyd. Mae'n ymdrin â chystadleuaeth; y banc buddsoddi gwyrdd, fel y nodais yn fy sylwadau agoriadol; cyflogau cyfarwyddwyr, gan gryfhau pwerau cyfranddalwyr fel y gall cyfranddalwyr ddwyn cwmnïau i gyfrif am gyflogau cyfarwyddwyr; ac mae hefyd yn dileu rhwystrau er mwyn gwella ansawdd a chysondeb gwaith gorfodi ac arolygu ar gyfer

choose not to believe what the Government is doing. With the Enterprise and Regulatory Reform Bill, we are trying to remove legislation in order to help businesses save time and money and create the environment in which our business community can prosper and more people find employment. That is the ultimate aim of this Government with all of its policies.

Antoinette Sandbach: Thank you, Secretary of State, for your statement on the ambitious legislative programme of the UK Government. There is certainly much in this Queen's Speech that Wales can welcome. I would like to ask you about the Groceries Code Adjudicator Bill, which is much anticipated across rural Wales, where farmers have been on the receiving end of unfair practices from major retailers. Can you confirm that the adjudicator will have the necessary powers to enforce the groceries code in a way that protects the interests of consumers and producers? Can you confirm that third parties will be able to make complaints to the adjudicator? Finally, in relation to regulatory reform, can you give us further detail on the sunset clauses and the types of legislation you see sunset clauses applying to?

Cheryl Gillan: Thank you very much for those questions. There has been cross-party welcome for the Groceries Code Adjudicator Bill. I believe that it was on the drawing board under the last Government; it has just taken this Government to bring it forward and turn it into what I hope will be reality. For those of you who are not familiar with it, we are ensuring that the large retailers treat suppliers fairly and lawfully. You asked me who can complain to the adjudicator. I think that there is a feeling that trade associations and third parties ought to be able to complain to the adjudicator. Therefore, we have amended the Bill to allow the adjudicator to consider information from any source, including trade associations, which I hope will provide a guarantee. The adjudicator will have initial powers to name and shame large supermarkets, and I think that that will be

busnesau. Weithiau, bydd pobl yn credu popeth a ddarllenant yn y papurau neu byddant yn dewis peidio â chredu'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Gyda'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio, rydym yn ceisio cael gwared ar ddeddfwriaeth er mwyn helpu busnesau i arbed amser ac arian a chreu amgylchedd lle y gall ein cymuned fusnes ffynnu a lle y gall mwy o bobl ddod o hyd i waith. Dyna yw prif nod y Llywodraeth hon gyda'i holl bolisiau.

Antoinette Sandbach: Diolch, Ysgrifennydd Gwladol, am eich datganiad ar raglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol Llywodraeth y DU. Yn sicr, mae llawer yn yr Araith hon gan y Frenhines y gall Cymru ei groesawu. Hoffwn ofyn cwestiwn ichi am Fil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd, y mae disgwyl mawr amdano yng nghefn gwlad Cymru, lle y mae ffermwyr wedi bod yn dioddef oherwydd arferion annheg gan fanwerthwyr mawr. A allwch gadarnhau y bydd gan y dyfarnwr y pwerau angenrheidiol i orfodi'r cod cyflenwi bwydydd mewn modd sy'n diogelu buddiannau defnyddwyr a chynhyrchwyr? A allwch gadarnhau y bydd trydydd partïon yn gallu cyflwyno cwynion i'r dyfarnwr? Yn olaf, mewn perthynas â diwygio rheoleiddio, a allwch roi rhagor o fanylion inni am y cymalau machlud a'r mathau o ddeddfwriaeth yr ydych yn rhagweld y bydd cymalau machlud yn berthnasol iddynt?

Cheryl Gillan: Diolch yn fawr iawn am y cwestiynau hynny. Mae Bil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd wedi cael ei groesawu ar draws y pleidiau. Credaf ei fod yn yr arfaeth dan y Llywodraeth ddiwethaf; ond bu'n rhaid aros i'r Llywodraeth hon ei gyflwyno a'i droi'n realiti, gobeithio. I'r rhai ohonoch nad ydych yn gyfarwydd ag ef, rydym yn sicrhau bod y manwerthwyr mawr yn trin cyflenwyr yn deg ac yn gyfreithlon. Bu ichi ofyn pwy all gwyno i'r dyfarnwr. Credaf fod teimlad y dylai cymdeithasau masnach a thrydydd partïon fod yn gallu cwyno i'r dyfarnwr. Felly, rydym wedi diwygio'r Bil i ganiatáu i'r dyfarnwr ystyried gwybodaeth o unrhyw ffynhonnell, gan gynnwys cymdeithasau masnach, a gobeithiaf y bydd hynny'n cynnig gwarant. Bydd gan y dyfarnwr bwerau yn y lle cyntaf i enwi archfarchnadoedd mawr a chodi cywilydd arnynt, a chredaf y bydd

effective in enforcing the code. However, if it becomes clear that further powers are needed, the Bill will provide the Secretary of State with a reserved power to grant the adjudicator powers to fine. I think that that should give a lot of comfort to our farmers and suppliers right across Wales and the whole of the UK. We have listened to what people have to say on this, and we are very much hoping that, if the Bill passes, it could be up and running by mid 2013.

3.15 p.m.

Ieuan Wyn Jones: Rwy'n siŵr y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno mai cyflwyno mesurau i gryfhau'r economi a ddylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Rydych yn ymwybodol, Ysgrifennydd Gwladol, fod cryn feirniadaeth wedi bod o fethiant eich Llywodraeth i gyflwyno mesurau i gryfhau'r economi yn Araith y Frenhines. Un mater y mae nifer o bobl wedi cyfeirio ato yw'r angen am fuddsoddi cyfalaf i gryfhau seilwaith; ddoe, roedd pennaeth y Gronfa Ariannol Ryngwladol yn mynd ar yr un trywydd. Yn ogystal â'r cais i ddiwygio fformiwla Barnett ac i gael pwerau benthyg, a wnaiff yr Ysgrifennydd Gwladol bwysu ar y Trysorlys i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu tynnu arian cyfalaf ymlaen er mwyn rhoi hwb sylweddol i'r sector adeiladu a chreu swyddi yng Nghymru?

Cheryl Gillan: I thank Ieuan Wyn Jones for that question. He knows, from when we used to work together before the last Assembly election, that I am very keen on infrastructure, as we have already referred to. I do, however, take issue with him: I think that there is an awful lot in the Queen's Speech and legislative programme that is about building the economy and building for growth. The banking reform Bill in itself will reform the banking sector. You could look further down and look at what the energy Bill will do to reform the electrify market and bring in new jobs, as he knows, for Anglesey, which is so important to him. That investment in Wylfa is something that will depend on the success of the energy Bill. The enterprise and regulatory reform Bill, which I

hynny'n effeithiol wrth orfodi'r cod. Fodd bynnag, os daw'n amlwg bod angen mwy o bwerau, bydd y Bil yn rhoi pŵer wrth gefn i'r Ysgrifennydd Gwladol roi pwerau dirwyo i'r dyfarnwr. Credaf y dylai hynny roi llawer o gysur i'n ffermwyr a'n cyflenwyr ledled Cymru a'r DU gyfan. Rydym wedi gwrandao ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud am y mater, ac rydym yn gobeithio'n fawr iawn, os caiff y Bil ei basio, y gallai fod yn weithredol erbyn canol 2013.

Ieuan Wyn Jones: I am sure that the Secretary of State will agree that the priority for the UK Government and the Welsh Government should be the introduction of measures to strengthen the economy. You are aware, Secretary of State, that there has been a great deal of criticism of your Government's failure to introduce measures to strengthen the economy in the Queen's Speech. One issue that a number of people have commented upon is the need for capital investment in order to strengthen infrastructure; yesterday, the head of the International Monetary Fund said the same thing. In addition to the bid to reform the Barnett formula and for borrowing powers, will the Secretary of State urge the Treasury to ensure that the Welsh Government is able to draw forward capital moneys in order to provide a significant boost for the construction industry, thereby creating jobs in Wales?

Cheryl Gillan: Diolch i Ieuan Wyn Jones am y cwestiwn hwnnw. Mae'n gwybod, o'r adeg pan arferem weithio gyda'n gilydd cyn etholiad diwethaf y Cynulliad, fy mod yn frwd iawn ynghylch seilwaith, ac rydym eisoes wedi cyfeirio at hynny. Fodd bynnag, rwyf yn anghytuno ag ef: credaf fod llawer iawn yn Araith y Frenhines a'r rhaglen ddeddfwriaethol sy'n ymwneud ag adeiladu'r economi ac adeiladu ar gyfer twf. Bydd y Bil diwygio'r banciau ynddo'i hun yn diwygio'r sector bancio. Gallech edrych ymhellach i lawr ac edrych ar yr hyn y bydd y Bil ynni'n ei wneud i ddiwygio'r farchnad drydan a chreu swyddi newydd, fel y gŵyr, ar gyfer Ynys Môn, sydd mor bwysig iddo. Mae'r buddsoddi hwnnw yn Wylfa yn rhywbeth a fydd yn dibynnu ar lwyddiant y Bil ynni.

have touched on, and the Groceries Code Adjudicator Bill, will also provide much needed protection, as I just discussed in answer to the last question. Therefore, I will not take his criticism. There is a lot in here about building on the economy.

The Member is probably obliquely referring to the cuts to the Welsh Government's capital budget, which I know has been an issue. However, the budget in 2012 was fiscally neutral for the rest of the UK and, in fact, saw the Government here receiving additional funding of a further £11.7 million, which brings the total additional funding that we have provided to the Welsh Government since the spending review in 2010, over and above money that would come as a result of the Barnett formula, to £500 million. It is, of course, up to this Government here as to how it spends that money, and I am sure that the Member will want to have a say in that.

Vaughan Gething: I will return to the question of rail electrification. You will know that there is cross-party support for rail electrification, but it is not a devolved matter. It is the responsibility of the UK Government. In addition to the support for electrification to Swansea, I would like to be clear about your support for electrification of the whole Valleys line network. The previous proposal referred to the Cardiff Valleys, excluding Maesteg, Ebbw Vale and the Vale of Glamorgan lines. We believe that it is essential, if there is to be any prospect of a metro in the future, for a full electrification decision to be made for the whole network. That would avoid the possibility of having a part-diesel and part-electric fleet. Therefore, can you confirm the position of the Wales Office on whether it will support the proposals that have already been delivered for full Valleys lines electrification, which will provide a greater rate of return than the current proposal for high-speed rail?

Bydd y Bil menter a diwygio rheoleiddio, yr wyf wedi'i grybwyll, a Bil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd, hefyd yn cynnig mesurau amddiffyn y mae eu hangen yn fawr, fel y trafodais yn awr wrth ateb y cwestiwn blaenorol. Felly, nid wyf am dderbyn ei feirniadaeth. Ceir llawer yma am adeiladu ar yr economi.

Mae'n debyg bod yr Aelod yn cyfeirio'n anuniongyrchol at y toriadau i gyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru, sydd wedi bod yn broblem, mi wn. Fodd bynnag, roedd y gyllideb yn 2012 yn niwtral o safbwynt ariannol i weddill y DU ac, yn wir, gwelwyd y Llywodraeth yn y fan hon yn cael cyllid ychwanegol o £11.7 miliwn arall, sy'n golygu bod cyfanswm y cyllid ychwanegol yr ydym wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru ers yr adolygiad o wariant yn 2010, ar ben yr arian a fyddai'n dod yn sgîl fformiwla Barnett, yn £500 miliwn. Wrth gwrs, y Llywodraeth yn y fan hon sydd i benderfynu sut y mae'n gwario'r arian hwnnw, ac rwyf yn siŵr y bydd yr Aelod yn dymuno cael llais yn hynny.

Vaughan Gething: Hoffwn ddychwelyd at y cwestiwn ynghylch trydaneiddio rheilffyrdd. Gwyddoch fod cefnogaeth drawsbleidiol i drydaneiddio rheilffyrdd, ond nid yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw. Yn ogystal â'r gefnogaeth i drydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe, hoffwn fod yn glir ynghylch eich cefnogaeth i drydaneiddio rhwydwaith rheilffyrdd y Cymoedd yn ei gyfanrwydd. Roedd y cynnig blaenorol yn cyfeirio at Gymoedd Caerdydd, heb gynnwys rheilffyrdd Maesteg, Glyn Ebwy a Bro Morgannwg. Credwn ei bod yn hanfodol, os oes unrhyw obaith o gael metro yn y dyfodol, bod yn rhaid cael penderfyniad i drydaneiddio'r rhwydwaith cyfan yn llawn. Byddai hynny'n osgoi'r posibilrwydd o gael rhan o'r fflyd yn rhedeg ar ddiesel a rhan ohoni'n rhedeg ar drydan. Felly, a allwch gadarnhau safbwynt Swyddfa Cymru ynghylch a fydd yn cefnogi'r cynigion sydd eisoes wedi eu cyflwyno ar gyfer trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn llawn, a fydd yn darparu cyfradd enillion uwch na'r cynnig presennol ar gyfer trenau cyflym iawn?

Cheryl Gillan: May I say to the questioner that, of course, it is a non-devolved matter, and that is why we have commented on it and been so encouraging of the Department for Transport in considering this? That is also why the Prime Minister referred to it so strongly when he was in Wales a few weeks ago. I am fully supportive of full electrification of the Valleys lines. However, that is not to say that it will all happen at once, in the same way as London to Cardiff, and Cardiff to Swansea is still unfinished business. However, the point that he makes is absolutely right. For Maesteg and Ebbw Vale, it is important that they are considered. However, I cannot pre-empt any decision or any announcements that will be made. What I can say to the Assembly Member is that all of these things cannot happen all at once; they have to be taken in stages. However, I will always be on that case and, if the announcement comes that there will be full electrification, we will all be delighted; if it comes for only part of that, I will ask those questions as to when the rest and the next stage will be completed. That also depends on the discussions between the Welsh Government and the Department for Transport on the details and conditions that surround this particular project, and those discussions are still ongoing.

Suzy Davies: Thank you, Secretary of State, for your speech today and for your responses to questions. You will be aware that, in the last decade or so, Wales has performed badly across a range of economic indicators, notwithstanding that we have had quite a lot of European money coming back into Wales. Therefore, I wanted to ask you a question about the enterprise Bill. You were talking earlier about private sector growth, and one thing on which we generally agree upon in the Assembly is that there is a significant role for small and medium-sized enterprises to help our economy to recover. I include social enterprises in that. We talk a lot about procurement in the Chamber, but I am still receiving information that some SMEs feel

Cheryl Gillan: A gaf i ddweud wrth yr holwr fod y mater, wrth gwrs, yn fater nad yw wedi'i ddatganoli, a dyna pam yr ydym wedi cynnig sylwadau arno ac wedi bod yn annog yr Adran Drafnidiaeth i ystyried hyn? Dyna pam y cafwyd cyfeiriad mor bendant ato hefyd gan Brif Weinidog y DU pan oedd yng Nghymru ychydig wythnosau yn ôl. Rwyf yn gwbl gefnogol i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn llawn. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y bydd y cyfan yn digwydd ar unwaith, yn yr un modd ag y mae trydaneiddio'r rheilffordd o Lundain i Gaerdydd, ac o Gaerdydd i Abertawe yn fater sy'n dal ar y gweill. Fodd bynnag, mae'r pwynt y mae'n ei wneud yn hollol iawn. I Faesteg a Glyn Ebwy, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, ni allaf achub y blaen ar unrhyw benderfyniad neu unrhyw gyhoeddiadau a fydd yn cael eu gwneud. Yr hyn y gallaf ei ddweud wrth yr Aelod Cynulliad yw na all yr holl bethau hyn ddigwydd ar unwaith; rhaid iddynt ddigwydd fesul cam. Fodd bynnag, mae'n fater y byddaf yn rhoi sylw iddo o hyd ac, os daw cyhoeddiad ynghylch trydaneiddio llawn, byddwn i gyd wrth ein bodd; os daw cyhoeddiad ynghylch trydaneiddio rhan o'r rhwydwaith yn unig, byddaf yn gofyn y cwestiynau hynny ynghylch pryd y caiff y gweddill a'r cam nesaf ei gwblhau. Mae hynny'n dibynnu hefyd ar y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth ynghylch y manylion a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r prosiect penodol hwn, ac mae'r trafodaethau hynny'n parhau o hyd.

Suzy Davies: Diolch, Ysgrifennydd Gwladol, am eich araith heddiw ac am eich atebion i gwestiynau. Gwyddoch fod Cymru wedi perfformio'n wael ar draws ystod o ddangosyddion economaidd dros gyfnod o ryw ddegawd, er gwaethaf y ffaith bod cryn dipyn o arian Ewropeaidd wedi bod yn dod yn ôl i Gymru. Felly, roeddwn am ofyn cwestiwn ichi am y Bil menter. Roeddech yn sôn yn gynharach am dwf y sector preifat, ac un peth yr ydym yn cytuno yn ei gylch yn gyffredinol yn y Cynulliad yw bod gan fentrau bach a chanolig eu maint rôl sylweddol i'w chwarae o ran helpu ein heconomi i wella. Rwyf yn cynnwys mentrau cymdeithasol yn hynny. Rydym yn sôn llawer am gaffael yn y Siambr, ond rwyf yn

excluded from the procurement process and that there is still potential for familiarity with certain bidders to limit a genuinely fair competitive environment. Will the competition and markets authority that will be introduced by this Bill help to secure transparency across the public procurement field? In addition, is this Bill an opportunity to help to reduce the gold-plating on several EU directives that are brought into UK law?

Cheryl Gillan: Thank you for that question. I wish that it was. Any efforts to reduce what always seems like a tide of European regulation would be welcome, but I am not sure that I can hold out on that. It is not an all-singing, all-dancing Bill or what we know as a Christmas tree Bill; it is a Bill with specific targets in mind.

The competition authority will provide a single, strong voice for competition that can provide leadership for the sector regulators on competition enforcement and a single, authoritative voice for the UK internationally. We will try to provide a one-stop shop for business to help it to understand and comply with that law and a greater certainty for businesses to take investment decisions within faster and clearer time frames and to make more robust decisions. However, as you know, the Government is keen that small and medium-sized enterprises have access to Government procurement peculiarly. In the absence of being able to give you any more detail today, I would like to write to you with some more details of what we have been doing to provide the access for small and medium-sized enterprises that is so important, because there is usually a huge raft of regulations that they have to get over and conditions that they have to satisfy. We have been trying to cut a swathe through that. If it would be helpful, I would like to send a letter to you.

Bethan Jenkins: Mae gennyf un cwestiwn ynglŷn â'r cyfryngau a darlledu yng Nghymru. O ystyried y ffaith bod y

dal i gael gwybodaeth bod rhai busnesau bach a chanolig eu maint yn teimlo eu bod wedi'u heithrio o'r broses gaffael a bod potensial o hyd i gynefindra â rhai cynigwyr gyfyngu ar amgylchedd sy'n wirioneddol deg a chystadleuol. A fydd yr awdurdod cystadleuaeth a marchnadoedd a gaiff ei gyflwyno gan y Bil hwn yn helpu i sicrhau tryloywder ar draws y maes caffael cyhoeddus? Yn ogystal, a yw'r Bil hwn yn gyfle i helpu i leihau'r arfer o atodi mesurau ychwanegol at lawer o gyfarwyddbau'r UE sy'n dod yn rhan o gyfraith y DU?

Cheryl Gillan: Diolch am y cwestiwn hwnnw. Byddai'n dda gennyf pe bai hynny'n wir. Byddai unrhyw ymdrechion i leihau'r hyn sy'n ymddangos bob amser fel ton ar ôl ton o reoliadau Ewropeaidd yn rhywbeth i'w goesawu, ond nid wyf yn siŵr y gallaf addo hynny. Nid yw'n Fil sy'n ceisio cyflawni popeth neu'n Fil sy'n debyg i'r Nadolig; mae'n Fil sydd â thargedau penodol mewn golwg.

Bydd yr awdurdod cystadleuaeth yn darparu un llais cryf ar gyfer cystadleuaeth, a fydd yn gallu darparu arweiniad i'r rheoleiddwyr sector ar orfodi cystadleuaeth, ac yn darparu un llais awdurdodol ar gyfer y DU yn rhyngwladol. Byddwn yn ceisio darparu siop un stop ar gyfer byd busnes i'w helpu i ddeall y gyfraith honno a chydymffurfio â hi, a darparu mwy o sicrwydd i fusnesau i wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi o fewn terfynau amser cynt a mwy eglur a gwneud penderfyniadau mwy cadarn. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, mae'r Llywodraeth yn awyddus i weld busnesau bach a chanolig eu maint yn cael mynediad i brosesau caffael Llywodraeth yn benodol. Gan na allaf roi rhagor o fanylion ichi heddiw, hoffwn ysgrifennu atoch gyda rhagor o fanylion am yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud i ddarparu mynediad i fentrau bach a chanolig eu maint, sydd mor bwysig, oherwydd fel rheol ceir lluo o reoliadau y mae'n rhaid iddynt eu goresgyn ac amodau y mae'n rhaid iddynt eu bodloni. Rydym wedi bod yn ceisio torri llwybr drwy hynny. Hoffwn anfon llythyr atoch, os byddai hynny'n ddefnyddiol.

Bethan Jenkins: I have one question regarding the media and broadcasting in Wales. Given that the Assembly has just

Cynulliad newydd gynhyrchu adroddiad ar ddyfodol y cyfryngau yng Nghymru, a wnaiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi sicrwydd i Aelodau y bydd yn defnyddio'r cyfle, wrth inni aros am Bapur Gwyn y Bil cyfathrebu, i warantu y bydd barn y Cynulliad a barn Llywodraeth Cymru yn cael eu clywed gan ei chyd Weinidogion a chan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac y bydd anghenion cyfryngau a chyfathrebu unigryw Cymru yn cael eu hystyried ar ôl i ymchwiliad Leveson, a'r saga sy'n effeithio ar Jeremy Hunt yn benodol, ddod i ben?

Cheryl Gillan: Thank you for that question. Perhaps it would be helpful if I were to explain the draft communications Bill, because I am not sure that it is entirely as you would anticipate. It is a communications data Bill, and it is going to establish an updated framework for the retention and acquisition of communications data to support the work of the intelligence and law enforcement agencies. So, it is very much about the ability of the police and intelligence agencies to continue to access communications data, which is vital to support their work in protecting the public. That will be the main thrust of the draft of that Bill.

I would nevertheless assure the Assembly Member that while I am Secretary of State, I will always listen to what comes from the Welsh Government and from the Assembly. I have been second to none in believing that Wales actually has two Governments working in its interests, and I try to overcome the political divide on as many occasions as I can to ensure that we work together in the interests of Wales. So, any paper, and anything that comes from the Assembly and its committees, or from the Welsh Government, will always be considered by the Wales Office, and I will encourage my colleagues, right across Government, always to study those papers.

produced a report about the future of the media in Wales, will the Secretary of State give Members an assurance that she will use the opportunity, as we await the White Paper on the communications Bill, to guarantee that the views of the Assembly and the Welsh Government are heard by her fellow Ministers and by the Department for Culture, Media and Sport, and that any unique media and communication needs in Wales will be considered when the Leveson inquiry, and specifically the saga surrounding Jeremy Hunt, come to an end?

Cheryl Gillan: Diolch am y cwestiwn hwnnw. Efallai y byddai o gymorth pe bawn yn egluro'r Bil cyfathrebu drafft, gan nad wyf yn siŵr ei fod yn union fel y byddech yn disgwyl. Mae'n Fil data cyfathrebu, a bydd yn sefydlu fframwaith wedi'i ddiweddarau ar gyfer cadw a chasglu data cyfathrebu i gefnogi gwaith yr asiantaethau cudd-wybodaeth ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Felly, mae a wnelo i raddau helaeth iawn â gallu'r heddlu ac asiantaethau cudd-wybodaeth i barhau i gael mynediad i ddata cyfathrebu, sy'n hanfodol i gefnogi eu gwaith o ran amddiffyn y cyhoedd. Dyna fydd prif fyrddwn drafft y Bil hwnnw.

Er hynny, hoffwn sicrhau'r Aelod Cynulliad, tra byddaf i'n Ysgrifennydd Gwladol, y byddaf bob amser yn gwrandao ar yr hyn a ddaw o Lywodraeth Cymru ac o'r Cynulliad. Nid oes neb wedi credu'n fwy na mi bod gan Gymru mewn gwirionedd ddwy Lywodraeth sy'n gweithio er ei budd, ac rwyf yn ceisio goresgyn y rhaniad gwleidyddol mor aml ag y gallaf i sicrhau ein bod yn cydweithio er budd Cymru. Felly, bydd unrhyw bapur, ac unrhyw beth a ddaw o'r Cynulliad a'i bwyllgorau, neu o Lywodraeth Cymru, bob amser yn cael ei ystyried gan Swyddfa Cymru, a byddaf yn annog fy nghydweithwyr, ar draws y Llywodraeth, i astudio'r papurau hynny bob amser.

Pwynt o Drefn Point of Order

Kenneth Skates: I raise a point of order regarding a statement by the leader of the opposition. Ministers do not respond to Queen's Speeches. Back in 2010, I believe,

Kenneth Skates: Hoffwn godi pwynt o drefn ynghylch datganiad gan arweinydd yr wrthblaid. Nid yw Gweinidogion yn ymateb i Areithiau'r Frenhines. Yn ôl yn 2010, mi

Rhodri Morgan responded on behalf of Labour as a backbencher, and prior to that, Jeff Cuthbert responded in 2008 to Peter Hain.

gredaf, ymatebodd Rhodri Morgan ar ran y Blaid Lafur fel aelod o'r meinciau cefn, a chyn hynny, ymatebodd Jeff Cuthbert yn 2008 i Peter Hain.

The Presiding Officer: That is not technically a point of order; it is more a point of information.

Y Llywydd: Yn dechnegol, nid pwynt o drefn yw hynny; pwynt o wybodaeth ydyw.

Araith y Frenhines The Queen's Speech

The Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies, amendments 2, 3 and 4 in the name of Peter Black and amendments 5 and 6 in the name of William Graham.

Y Llywydd: Rwyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Peter Black a gwelliannau 5 a 6 yn enw William Graham.

Cynnig NDM4992 Rosemary Butler

Motion NDM4992 Rosemary Butler

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2012/2013.

Notes the content of the UK Government's legislative programme 2012/2013.

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): I move the motion.

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Cynigiaf y cynnig.

I welcome the Secretary of State to the Assembly and thank her for her statement on the UK Government's legislative programme for the coming parliamentary session. It is two years since we last had an opportunity to discuss a new legislative programme announced by the UK Government, as the Secretary of State has already said. In that time, there has been a significant shift in the devolution settlement as it affects Wales. Specifically, following the referendum in March last year, the Assembly is now a fully fledged legislature with its own primary legislative powers across 20 devolved areas of policy. This opens up a whole new chapter in devolution and in the governance of Wales, with opportunities for us to take forward our made-in-Wales policies and to legislate on them right here in the Assembly without having to refer back to Westminster.

Hoffwn groesawu'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad a diolch iddi am ei datganiad ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y sesiwn seneddol nesaf. Mae dwy flynedd ers y tro diwethaf inni gael cyfle i drafod rhaglen ddeddfwriaethol newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, fel y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud eisoes. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu newid sylweddol yn y setliad datganoli fel y mae'n effeithio ar Gymru. Yn benodol, yn dilyn y refferendwm ym mis Mawrth y llynedd, mae'r Cynulliad bellach yn ddeddfwrfa gyflawn sydd â'i phwerau deddfwriaethol sylfaenol ei hun ar draws 20 o feysydd polisi datganoledig. Mae'n agor pennod hollol newydd o safbwynt datganoli ac o safbwynt llywodraethu Cymru, gyda chyfleoedd inni symud ein polisiau a wnaed yng Nghymru yn eu blaen a deddfu arnynt yma yn y Cynulliad heb orfod cyfeirio'n ôl at San Steffan.

As a Government, we are committed to legislating in Wales for Wales, whenever and wherever possible. We have our own democratically elected legislature, and we

Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i ddeddfu yng Nghymru ar gyfer Cymru, pryd bynnag a ble bynnag y bo modd. Mae gennym ein deddfwrfa ein hunain a etholwyd

should use our legislative powers properly and fully. It is appropriate and relevant for us to consider the UK Government's legislative programme, with its reference to us as a Government and legislature. There are, of course, a number of policy areas that are still not devolved, and in these areas, the UK Government legislates for Wales as well as for England. The legislative programme this year contains a number of examples, such as the European Union (Approval of Treaty Amendment Decision) Bill and the small donations Bill.

Where UK Bills deal with areas that are devolved to Wales, we can ordinarily expect them to be England-only Bills, but we do need to monitor for cross-border impacts. For this parliamentary session, for example, UK Government's children and families Bill might well present cross-border issues.

Last but not least, some UK Bills will inevitably make provisions for Wales in devolved areas. To some extent, this runs counter to our shared starting point in the Senedd that, whenever possible, the Assembly should legislate for Wales in devolved areas. However, there are times when it is advantageous to have UK Bills make provision for Wales in devolved areas, or where the division of responsibilities between the Assembly and Parliament, or between the Welsh and UK Governments, is so interwoven that any provisions to effect change in Wales and England need to be made in the same piece of legislation.

3.30 p.m.

The First Minister clarified the Welsh Government's position on this in his written evidence to the recent Constitutional and Legislative Affairs Committee's inquiry into the issue of UK laws making provision about Welsh Ministers' powers. He gave some examples where it makes good sense for the Welsh Government to agree or ask for provisions for Wales in devolved policy areas

yn ddemocrataidd, a dylem ddefnyddio ein pwerau deddfwriaethol yn gywir ac yn llawn. Mae'n briodol ac yn berthnasol inni ystyried rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU, a'i chyfeiriadau atom fel Llywodraeth a deddfwrfa. Ceir nifer o feysydd polisi nad ydynt wedi eu datganoli o hyd, wrth gwrs, ac yn y meysydd hynny mae Llywodraeth y DU yn deddfu ar gyfer Cymru yn ogystal â Lloegr. Mae'r rhaglen ddeddfwriaethol eleni'n cynnwys nifer o enghreifftiau, megis Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cymeradwyo Penderfyniad i Ddiwygio Cytuniad) a'r Bil rhoddion bach.

Mewn achosion lle y mae Biliau'r DU yn ymdrin â meysydd sydd wedi eu datganoli i Gymru, gallwn ddisgwyl fel rheol iddynt fod yn Filiau i Loegr yn unig, ond mae angen inni eu monitro er mwyn gweld a ydynt yn esgor ar effeithiau trawsffiniol. Ar gyfer y sesiwn seneddol hon, er enghraifft, mae'n bosibl y gallai Bil plant a theuluoedd Llywodraeth y DU esgor ar faterion trawsffiniol.

Yn olaf ond nid yn lleiaf, mae'n anochel y bydd rhai o Filiau'r DU yn gwneud darpariaethau ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig. I ryw raddau, mae hynny'n groes i'n man cychwyn cyffredin yma yn y Senedd, sef, pryd bynnag y bo'n bosibl, y dylai'r Cynulliad ddeddfu ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig. Fodd bynnag, ceir adegau pan fydd yn fanteisiol cael Biliau'r DU i wneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig, neu lle y mae'r modd y caiff cyfrifoldebau eu rhannu rhwng y Cynulliad a Senedd y DU, neu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mor gymhleth nes bod angen i unrhyw ddarpariaethau i greu newid yng Nghymru a Lloegr gael eu gwneud yn yr un darn o ddeddfwriaeth.

Eglurodd Prif Weinidog Cymru safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i'r mater sy'n ymwneud â chyfreithiau'r DU yn gwneud darpariaeth ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru. Rhoddodd rai enghreifftiau lle y mae'n gwneud synnwyr i Lywodraeth Cymru

in UK Bills, such as when the UK Government's legislative proposal would also be appropriate for Welsh circumstances, but when there is no time available for similar provisions to be brought forward in the Assembly or where the UK Bill covers both devolved and non-devolved matters and the Westminster route must be taken to achieve the policy objective.

gytuno neu geisio darpariaethau ar gyfer Cymru mewn meysydd polisi datganoledig ym Miliâu'r DU, er enghraifft, pan fyddai cynnig deddfwriaethol Llywodraeth y DU yn briodol hefyd i amgylchiadau Cymru, ond pan nad oes amser ar gael i ddarpariaethau tebyg gael eu cyflwyno yn y Cynulliad, neu lle y mae Bil y DU yn ymdrin â materion sydd wedi eu datganoli ac sydd heb eu datganoli a lle y mae'n rhaid mynd drwy San Steffan i gyflawni'r amcan polisi.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.31 p.m.
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.31 p.m.*

Importantly for the Assembly, the UK Government has agreed to the principle that it should not legislate for Wales in areas that are within the Assembly's legislative competence. That principle is confirmed in devolution guidance note 9, which was recently revised following last year's referendum. The Assembly signifies its consent to a provision for Wales in a devolved area being contained in a UK Bill by means of the legislative consent motion or LCM. We have laid 25 LCMs for the Assembly's consideration since 2007; 17 of those in the course of the last parliamentary session.

Yr hyn sy'n bwysig i'r Cynulliad yw bod Llywodraeth y DU wedi cytuno â'r egwyddor na ddylai ddeddfu ar gyfer Cymru mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Caiff yr egwyddor honno ei chadarnhau yng nghanllawiau ar ddatganoli 9, a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn dilyn refferendwm y llynedd. Mae'r Cynulliad yn nodi ei fod yn cydsynio bod darpariaeth ar gyfer Cymru mewn maes datganoledig yn cael ei chynnwys mewn Bil ar gyfer y DU drwy gyfrwng cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Rydym wedi gosod 25 o gynigion cydsyniad deddfwriaethol i'w hystyried gan y Cynulliad er 2007, a chafodd 17 o'r rheini eu gosod yn ystod y sesiwn seneddol ddiwethaf.

This increase in the rate at which LCMs are required is generally attributed to the fact that the Assembly now has greater legislative competence and, therefore, the potential for UK Bills to make provision in areas within the Assembly's competence has in theory increased. However, the number of LCMs required will also of course depend on whether the balance of subject matter in the UK legislative programme is tipped towards devolved or non-devolved matters.

Yn gyffredinol, caiff y cynnydd hwn yn y cyflymdra y mae angen cynigion cydsyniad deddfwriaethol ei briodoli i'r ffaith bod gan y Cynulliad bellach fwy o gymhwysedd deddfwriaethol, ac felly, mewn theori, bod y potensial i Filiau'r DU wneud darpariaeth mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad wedi cynyddu. Fodd bynnag, bydd nifer y cynigion cydsyniad deddfwriaethol sy'n ofynnol yn dibynnu hefyd, wrth gwrs, ar b'un a yw'r pynciau yn rhaglen deddfwriaethol y DU yn cynnwys mwy o faterion sydd wedi eu datganoli neu faterion sydd heb eu datganoli.

This year, we have estimated that between four and eight UK Bills, some of which are planned to be introduced as draft Bills in the first instance, are likely to result in the need for LCMs in the Assembly. I referred to this and our thinking generally about the impact of the UK's legislative programme on Wales

Eleni, rydym wedi amcangyfrif bod rhwng pedwar ac wyth o Filiau'r DU, y bwriedir i rai ohonynt gael eu cyflwyno fel Biliau drafft i ddechrau, yn debygol o arwain at yr angen am gynigion cydsyniad deddfwriaethol yn y Cynulliad. Cyfeiriais at hynny ac at ein barn yn gyffredinol am effaith rhaglen

in my letter to the Presiding Officer, which has been circulated to Members. That was the first time that I had written to the Presiding Officer in that way, as the Leader of the House, and I am pleased that I was able to do so, fulfilling a commitment that the Welsh Government made in response to a recommendation in the Constitutional and Legislative Affairs Committee's report.

As a Government, we are committed to providing as much information as possible as early as possible to the Assembly about the content of Bills and how they might impact on the Assembly's competence in particular. However, as I outlined in my letter to the Presiding Officer, we are also bound by the need to respect confidentiality between us and the UK Government while the UK Government's policy proposals are not yet in the public domain.

On our response to the committee's report, we have responded positively to a number of the committee's recommendations. We have tried to provide constructive suggestions where we have not been able to agree to specific recommendations. However, our overall aim is to be as helpful and informative as possible so that the Assembly has sufficient time to scrutinise and comment on any provisions contained in UK Bills that will need to be subject to the subject of LCMs.

We have, for example, accepted the committee's recommendation that Standing Orders should be amended so that the consent of the Assembly is sought for UK parliamentary legislation on any matter affecting the legislative competence of the Assembly or affecting the powers of Welsh Ministers. We believe that it is right that the Assembly should have a role in agreeing changes to the functions exercised by Welsh Ministers, whether or not they are in areas that are within the Assembly's legislative competence, as it is the Assembly that is responsible for the scrutiny of the Welsh Government and responsible for approving the Welsh Government's budget. We would, in addition, need to discuss such a change in practice with the UK Government, with a view to agreeing changes to devolution guidance note 9. Those changes would bring

deddfwriaethol y DU ar Gymru yn fy llythyr at y Llywydd, sydd wedi ei ddsbarthu i'r Aelodau. Dyna'r tro cyntaf imi ysgrifennu at y Llywydd yn y modd hwnnw, fel Arweinydd y Tŷ, ac rwyf yn falch imi allu gwneud hynny, gan gyflawni ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth ymateb i argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i ddarparu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl cyn gynted ag sy'n bosibl i'r Cynulliad am gynnwys Biliau a sut y gallent effeithio ar gymhwysedd y Cynulliad yn benodol. Fodd bynnag, fel yr amlinellais yn fy llythyr at y Llywydd, cawn ein rhwymo hefyd gan yr angen i barchu cyfrinachedd rhyngom ni a Llywodraeth y DU gan nad yw cynigion polisi Llywodraeth y DU yn eiddo i'r cyhoedd eto.

O ran ein hymateb i adroddiad y pwyllgor, rydym wedi ymateb yn gadarnhaol i nifer o argymhellion y pwyllgor. Rydym wedi ceisio darparu awgrymiadau adeiladol lle nad ydym wedi gallu cytuno ag argymhellion penodol. Fodd bynnag, ein nod cyffredinol yw bod mor barod i helpu a chynnig cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl er mwyn i'r Cynulliad gael digon o amser i graffu a rhoi sylwadau ar unrhyw ddarpariaethau ym Miliâu'r DU, y bydd angen iddynt fod yn destun cynigion cydsyniad deddfwriaethol.

Er enghraifft, rydym wedi derbyn argymhelliad y pwyllgor sy'n nodi y dylid diwygio Rheolau Sefydlog fel y gofynnir am gydsyniad y Cynulliad ar gyfer deddfwriaeth seneddol y DU ar unrhyw fater sy'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu sy'n effeithio ar bwerau Gweinidogion Cymru. Rydym yn credu y dylai fod gan y Cynulliad rôl i'w chwarae o ran cytuno ar newidiadau i swyddogaethau a gaiff eu cyflawni gan Weinidogion Cymru, p'un a ydynt mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ai peidio, gan mai'r Cynulliad sy'n gyfrifol am graffu ar Lywodraeth Cymru ac am gymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru. Byddai angen hefyd inni drafod newid o'r fath yn ymarferol â Llywodraeth y DU, gyda'r bwriad o gytuno ar newidiadau i ganllawiau ar ddatganioli 9. Byddai'r

the practice in Wales in line with that in Scotland and Northern Ireland.

The Secretary of State referred to important constitutional issues in which we are jointly engaged. The Welsh Government is seeking to work positively with the Silk commission while continuing to press hard for a funding floor, which has been raised in questions this afternoon, as well as for borrowing powers, in those inter-governmental talks that I am engaged in. Of course, I am engaged in those talks with cross-party backing from this Assembly to achieve our goal of a fairer funding settlement to ensure that we can use our economic powers appropriately and obtain the funding floor for our fiscal arrangements. That does strengthen the case and the common purpose, as you described it, of our inter-governmental talks. The progress that we are making in terms of Welsh Government and Treasury officials working together on the evidence base supports our case for change. The work is due to be completed before the summer recess and a date is now going into the diary for the Chief Secretary to the Treasury and me to meet again to forge the way forward. That is the positive outcome of our discussions.

I would also like to support the contribution made by the leader of the Welsh Liberal Democrats this afternoon with regard to the imposition of regional pay proposals, and to follow up our submission to the Treasury and the pay review bodies. Again, this is an example of cross-party support, based on the evidence of our chief economist, Jonathan Price, which clearly shows that regional pay would be economically and socially divisive. Our analysis also shows that the Treasury's evidence is open to challenge. The pay gap between the public and private sector is largest for low-paid workers, especially low-paid women, and this gap reflects the action to tackle the gender pay gap in the public sector. Wales has the second lowest gender gap in full-time earnings among UK countries and regions, and any action to close the pay gap would disproportionately impact

newidiadau hynny'n sicrhau bod arfer yng Nghymru yn cyd-fynd ag arfer yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Gwladol at faterion cyfansoddiadol pwysig yr ydym yn ymwneud â hwy ar y cyd. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio'n gadarnhaol gyda chomisiwn Silk, gan barhau i bwysio'n galed am derfyn isaf o ran ariannu, sydd wedi'i godi mewn cwestiynau y prynhawn yma, ac am bwerau benthyca, yn y trafodaethau rhynglywodraethol yr wyf yn ymwneud â hwy. Wrth gwrs, rwyf yn ymwneud â'r trafodaethau hynny gyda chefnogaeth drawsbleidiol gan y Cynulliad hwn i gyflawni ein nod, sef setliad ariannu tecach er mwyn sicrhau y gallwn ddefnyddio ein pwerau economaidd yn briodol a chael y terfyn isaf o ran ariannu ar gyfer ein trefniadau ariannol. Mae hynny'n cryfhau'r achos a diben cyffredin, fel y bu ichi ei ddisgrifio, ein trafodaethau rhynglywodraethol. Mae'r cynnydd yr ydym yn ei wneud o ran cael swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion y Trysorlys i weithio gyda'i gilydd ar y sylfaen dystiolaeth yn cefnogi ein hachos dros newid. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau cyn toriad yr haf, ac mae dyddiad yn cael ei nodi yn y dyddiadur yn awr er mwyn i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys a mi gyfarfod unwaith eto i gynllunio'r ffordd ymlaen. Dyna ganlyniad cadarnhaol ein trafodaethau.

Yn ogystal, hoffwn gefnogi'r cyfraniad a wnaed gan arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru y prynhawn yma o ran cyflwyno cynigion ynghylch cyflogau rhanbarthol, a mynd ar drywydd ein cyflwyniad i'r Trysorlys a'r cyrff adolygu cyflogau. Unwaith eto, dyma enghraifft o gefnogaeth drawsbleidiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ein prif economegydd, Jonathan Price, sy'n dangos yn glir y byddai cyflogau rhanbarthol yn achosi rhwygiadau economaidd a chymdeithasol. Mae ein dadansoddiad hefyd yn dangos bod modd herio tystiolaeth y Trysorlys. Mae'r bwllch mwyaf o ran cyflog rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat i'w weld ymhlith gweithwyr sydd ar gyflog bach, yn enwedig menywod sydd ar gyflog bach, ac mae'r bwllch hwnnw'n adlewyrchu'r camau i fynd i'r afael â'r bwllch o ran cyflog rhwng y

on relatively low-paid workers and reverse the policy action to tackle the gender pay gap in the public sector. As the Minister with responsibility for equalities, I am particularly concerned about the impact and possible outcome of these regrettable proposals that we are challenging.

I turn now, Deputy Presiding Officer, to the amendments tabled to the motion. The Welsh Government will support them all, apart from amendment 5 in the name of William Graham. We cannot support this amendment at a time when unemployment is at its highest level for 18 years. As the head of the International Monetary Fund, Christine Lagarde, said yesterday, the UK Government is failing to promote policies that boost demand and stimulate growth. With a double-dip recession impacting on jobs, livelihoods and our public services, we cannot welcome a UK legislative programme that is failing the Welsh economy, as reflected in Plaid Cymru's amendment 1, which we support. This is in stark contrast to the Wales infrastructure investment plan that I launched yesterday as Minister for Finance, with a £15 billion pipeline of capital projects to boost jobs and growth. However, we welcome the opportunity to consider in detail a number of the proposed Bills, as identified by the Welsh Liberal Democrats in their amendments. Amendment 4 in the name of Peter Black is on the banking reform Bill, which is to foster financial stability, and it is important to recognise that we support its aims, as the coterminousness of wholesale and investment banking contributed in no small measure, I believe, to the 2008 financial crisis. As I announced yesterday, the Welsh Government will be exploring a range of opportunities to fund essential capital expenditure—

rhywiau yn y sector cyhoeddus. Cymru sydd â'r bwlch ail isaf rhwng y rhywiau o safbwynt enillion llawn amser ymhlith holl wledydd a rhanbarthau'r DU, a byddai unrhyw gamau i gau'r bwlch o ran cyflog yn effeithio'n anghymesur ar weithwyr sydd ar gyflog cymharol isel ac yn dadwneud y camau o ran polisi i fynd i'r afael â'r bwlch o ran cyflog rhwng y rhywiau yn y sector cyhoeddus. Fel y Gweinidog â chyfrifoldeb am gydraddoldebau, rwyf yn pryderu'n benodol am effaith a chanlyniad posibl y cynigion anffodus hyn yr ydym yn eu herio.

Trof yn awr, Ddirprwy Lywydd, at y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi pob un ohonynt, ar wahân i welliant 5 yn enw William Graham. Ni allwn gefnogi'r gwelliant hwnnw ar adeg pan fo diweithdra ar ei lefel uchaf ers 18 mlynedd. Ddoe dywedodd Christine Lagarde, fel pennaeth y Gronfa Ariannol Ryngwladol, fod Llywodraeth y DU yn methu â hyrwyddo polisiau sy'n hybu galw ac sy'n ysgogi twf. Wrth i ddirwasgiad dwbl effeithio ar swyddi, ar fywoliaeth pobl ac ar ein gwasanaethau cyhoeddus, ni allwn groesawu rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer y DU sy'n methu â chyflawni ar ran economi Cymru, fel yr adlewyrchir yng ngwelliant 1 Plaid Cymru, yr ydym yn ei gefnogi. Mae hynny'n gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, a lansiwyd gennyf ddoe fel y Gweinidog Cyllid, gyda gwerth £15 biliwn o brosiectau cyfalaf arfaethedig i hybu swyddi a thwf. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r cyfle i ystyried yn fanwl nifer o'r Biliau arfaethedig, fel y nodwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn eu gwelliannau. Mae gwelliant 4 yn enw Peter Black yn ymwneud â Bil diwygio'r banciau, y bwriedir iddo feithrin sefydlogrwydd ariannol, ac mae'n bwysig cydnabod ein bod yn cefnogi ei nodau, gan fod y ffaith nad yw gweithgareddau cyfanwerthu banciau wedi eu gwahanu oddi wrth eu gweithgareddau buddsoddi wedi cyfrannu'n helaeth, yn fy marn i, at argyfwng ariannol 2008. Fel y cyhoeddais ddoe, bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio ystod o gyfleoedd i ariannu gwariant cyfalaf hanfodol—

Simon Thomas: I am grateful to the Minister

Simon Thomas: Rwyf yn ddiolchgar i'r

for giving way. You are talking about the amendments to the Bills that are supported, for example by the Liberal Democrats. One of those is the energy Bill; I am very surprised that the Government wants to support amendment 2 on the energy Bill. That Bill could offer the opportunity to devolve energy policy to Wales. Here is your opportunity, as a Government, to make a much stronger case for the devolution of those powers, by not going along with the Lib Dems and Tories and their warped ideas on energy, but by standing up for Wales-based energy solutions.

Jane Hutt: I can assure Simon Thomas that we want the people of Wales to have proper control over their resources, including energy generation. In terms of welcoming the energy Bill at this point, we are looking at the principles that underpin the electricity market reforms, but clearly the context is that we are seeking to secure the devolution of energy consents, and that has clearly been our position, as you well know, Simon Thomas.

In conclusion, we can join together on certain aspects, on a cross-party basis in the Chamber, where we believe the UK Government can respond in terms of its legislative programme. We have had an opportunity today to debate in the Chamber and to question the Secretary of State for Wales on the key economic as well as legislative reforms that are before us. I look forward to responding to the debate, and I look forward to hearing from Members across the Chamber.

Gwelliant 1 Jocelyn Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth y ffaith nad yw'r rhaglen ddeddfwriaethol yn cynnwys unrhyw fesurau ystyrlon i gyflawni twf yn yr economi.

Leanne Wood: I move amendment 1 in the name of Jocelyn Davies.

This legislative programme can be summed up, in my view, as a wasted opportunity. Here was the first real chance since the UK

Gweinidog am ildio. Rydych yn sôn am y gwelliannau i'r Biliau a gefnogir, er enghraifft, y gwelliannau gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Un o'r rheini yw'r Bil ynni; rwyf yn synnu'n fawr bod y Llywodraeth am gefnogi gwelliant 2 ar y Bil ynni. Gallai'r Bil hwnnw gynnig cyfle i ddatganoli polisi ynni i Gymru. Dyma eich cyfle, fel Llywodraeth, i gyflwyno achos llawer cryfach o blaid datganoli'r pwerau hynny, drwy beidio â chytuno â'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid a'u syniadau gwyrdröedig am ynni, ond sefyll yn gadarn o blaid atebion o ran ynni sydd wedi eu lleoli yng Nghymru.

Jane Hutt: Gallaf sicrhau Simon Thomas ein bod am i bobl Cymru gael rheolaeth briodol ar eu hadnoddau, gan gynnwys gwaith cynhyrchu ynni. O ran croesawu'r Bil ynni ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar yr egwyddorion sy'n sail i'r diwygiadau i'r farchnad drydan, ond mae'n amlwg mai'r cyd-destun yw ein bod yn ceisio sicrhau bod caniatadau ynni'n cael eu datganoli, a dyna fu ein safbwynt yn amlwg, fel y gwyddoch yn iawn, Simon Thomas.

I gloi, gallwn ddod at ein gilydd yng nghyswllt rhai agweddau, ar sail drawsbleidiol yn y Siambr, lle y credwn y gall Llywodraeth y DU ymateb o safbwynt ei rhaglen ddeddfwriaethol. Rydym wedi cael cyfle heddiw i drafod yn y Siambr a holi Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y diwygiadau economaidd yn ogystal â'r diwygiadau deddfwriaethol allweddol sydd ger ein bron. Edrychaf ymlaen at ymateb i'r ddatl, ac edrychaf ymlaen at glywed gan Aelodau o bob rhan o'r Siambr.

Amendment 1 Jocelyn Davies

Add as new point at end of motion:

Regrets that the legislative programme fails to include any meaningful measures to deliver growth in the economy.

Leanne Wood: Cynigïaf welliant 1 yn enw Jocelyn Davies.

Yn fy marn i, gellir crynhoi'r rhaglen ddeddfwriaethol hon drwy ei galw'n gyfle a wastraffwyd. Hwn oedd y cyfle go iawn

re-entered recession for a change of direction and, unfortunately, that did not materialise. Plaid Cymru regrets the failure to include any meaningful measures to deliver a decent job creation programme aimed at preventing further contraction within the economy. It seems that the message that Welsh people tried to send to Cameron and Clegg on 3 May has not got through. Despite the growing evidence of the damaging effects of austerity on Wales, and despite clear opposition to those policies, the UK Government ploughs on.

Internationally, the situation remains uncertain. The problems in the eurozone are well aired. Given that the IMF supports and promotes the orthodoxy of austerity, its statement this week is serious, and may be an indication that the tide is about to turn to the point where policy makers realise that there must now be a plan B. Decisions made at the macro-economic level have depressed the economy and further weakened economic spending. However, what do we see? We see the UK coalition Government preparing the ground for further attacks on pensions and workers' rights. On this side of the Senedd, we have said time and again that this economic crisis was not caused by ordinary workers, or those who are unable to work, so they should not be forced to bear the brunt of paying for it. However, there are plenty of examples that show that this is exactly what is happening. As City people reap more massive bonuses, Remploy workers are handed their redundancy notices. No; we are not all in this together.

Plaid Cymru recognises the need to improve the strength of the private sector in Wales, but that should not be at the expense of workers in the public sector. We support the comments that have been made in this Chamber this afternoon in opposition to regional pay. People's reality in Wales is flat wages, a persistent lack of jobs, multiple jobs and underemployment, coupled with rising food and fuel bills. Living standards and

cyntaf ers i'r DU fynd yn ôl i mewn i ddirwasgiad i newid cyfeiriad, ac yn anffodus, nid yw hynny wedi digwydd. Mae Plaid Cymru yn gresynu wrth y methiant i gynnwys unrhyw fesurau ystyrlon i gyflwyno rhaglen briodol i greu swyddi, gyda'r nod o atal yr economi rhag crebachu ymhellach. Mae'n ymddangos nad yw'r neges y ceisiodd pobl Cymru ei hanfon at Cameron a Clegg ar 3 Mai wedi ei deall. Er gwaethaf y dystiolaeth gynyddol am effeithiau niweidiol mesurau cynilo ar Gymru, ac er gwaethaf gwrthwynebiad clir i'r polisiau hynny, mae Llywodraeth y DU yn dal i balu ymlaen.

Yn rhyngwladol, mae'r sefyllfa'n dal yn ansicr. Mae'r problemau yn ardal yr ewro wedi cael llawer o sylw. O gofio bod y Gronfa Ariannol Ryngwladol yn cefnogi ac yn hyrwyddo uniongredded mesurau cynilo, mae datganiad y Gronfa yr wythnos hon yn ddifrifol, a gallai fod yn arwydd bod y llanw ar fin troi i'r pwynt lle y mae llunwyr polisi yn sylweddoli bod yn rhaid yn awr cael cynllun wrth gefn. Mae penderfyniadau a wnaed ar lefel facro-economaidd wedi llesgáu'r economi a gwanhau gwariant economaidd ymhellach. Fodd bynnag, beth yr ydym yn ei weld? Rydym yn gweld Llywodraeth glymblaid y DU yn braenaru'r tir ar gyfer ymosodiadau pellach ar bensiynau a hawliau gweithwyr. Yr ochr hon i'r Senedd, rydym wedi dweud droeon na chafodd yr argyfwng economaidd hwn ei achosi gan weithwyr cyffredin, neu'r sawl nad ydynt yn gallu gweithio, ac felly ni ddylid eu gorfodi i ddwyn y baich o safbwynt talu amdano. Fodd bynnag, ceir digon o enghreifftiau sy'n dangos mai dyna'n union sy'n digwydd. Wrth i bobl y Ddinas fwynhau rhagor o daliadau bonws enfawr, mae gweithwyr Remploy yn cael eu hysbysiadau diswyddo. Na, nid ydym i gyd yn y sefyllfa hon gyda'n gilydd.

Mae Plaid Cymru yn cydnabod yr angen i wella cryfder y sector preifat yng Nghymru, ond ni ddylai hynny fod ar draul gweithwyr yn y sector cyhoeddus. Rydym yn cefnogi'r sylwadau a wnaed yn y Siambr hon y prynhawn yma i wrthwynebu cyflogau rhanbarthol. Y realiti i bobl yng Nghymru yw cyflogau gwastad, prinder swyddi parhaus, yr angen i gyflawni mwy nag un swydd a thangyflogaeth, ynghyd â biliau bwyd a

incomes are being squeezed, not just for the poorest people in society, but for people in the middle-income bracket as well. The majority of people are feeling this squeeze, yet they see no sign that this UK Government understands what they are going through. People have been given no hope that their situation is about to change any time soon.

If the UK Government did not get the message on 3 May, I hope that it is getting it now. It has no mandate in Wales to wreak the havoc it is bringing to people. Within the UK, Wales is a peripheral nation, which means that we are even more exposed as a result of the economic downturn. In an essay last summer, Gerry Holtham said:

‘As a peripheral economy Wales is unlikely to do better than the UK average without a strong initiative of its own. It faces the risk of continuing high, perhaps rising, levels of unemployment and economic inactivity.’

We have been warned, yet we see no signs of such an initiative, do we? The Government here—itsself characterised by insufficient action—is in charge of spending a declining budget. Yesterday, we on the Plaid Cymru benches were disappointed to hear the First Minister refusing to support an EU-wide financial transaction tax, as proposed by the newly elected President Hollande of France. My colleague Jill Evans, our Member of the European Parliament, is today voting in the European Parliament for such a financial transaction tax. The Welsh Government missed an opportunity yesterday to support a policy that could have brought vast benefits to Wales, and that is a real shame.

3.45 p.m.

I could not have been clearer in setting out my willingness for Plaid Cymru to reach out to work with others in Wales who see the situation as we do and who want to work for a serious change in direction. What is

thanwydd sy'n codi. Mae safonau byw ac incwm yn cael eu gwasgu, nid yn unig i'r bobl dlotaf mewn cymdeithas, ond i'r bobl sydd ar gyflogau canolig hefyd. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo'r wasgfa hon, ond eto i gyd, nid ydynt yn gweld unrhyw arwydd bod y Llywodraeth hon yn y DU yn deall yr hyn y maent yn gorfod ei ddiodef. Nid yw pobl wedi cael unrhyw obaith bod eu sefyllfa ar fin newid yn fuan.

Os na ddeallodd Llywodraeth y DU y neges ar 3 Mai, rwyf yn gobeithio ei bod yn ei deall yn awr. Nid oes ganddi fandad yng Nghymru i wneud y llanast y mae'n ei achosi i bobl. Yn y DU mae Cymru yn wlad ymylol, sy'n golygu ein bod yn fwy agored fyth i niwed o ganlyniad i'r dirywiad economaidd. Mewn ysgrif yr haf diwethaf, dyma a ddywedodd Gerry Holtham:

Fel economi ymylol, mae Cymru yn annhebygol o wneud yn well na chyfartaledd y DU heb ei menter gref ei hun. Mae'n wynebu'r risg o gael lefelau diweithdra ac anweithgarwch economaidd a fydd yn parhau'n uchel, ac a fydd efallai'n codi.

Rydym wedi cael ein rhybuddio, ond eto i gyd nid ydym yn gweld unrhyw arwyddion o fenter o'r fath, onid ydym? Mae'r Llywodraeth yn y fan hon—a nodweddir hefyd gan weithredu annigonol—yn gyfrifol am wario cyllideb sy'n dirywio. Ddoe, roeddem ni ar feinciau Plaid Cymru yn siomedig o glywed y Prif Weinidog yn gwrthod cefnogi treth ledled yr UE ar drafodion ariannol, fel y cynigiwyd gan Arlywydd newydd Ffrainc, yr Arlywydd Hollande. Mae fy nghydweithiwr, Jill Evans, ein Haelod o Senedd Ewrop, yn pleidleisio heddiw yn Senedd Ewrop o blaid treth o'r fath ar drafodion ariannol. Collodd Llywodraeth Cymru gyfle ddoe i gefnogi polisi a allai fod wedi dod â manteision enfawr i Gymru, ac mae hynny'n drueni mawr.

Ni allwn fod wedi nodi'n gliriach fy mod yn barod i Blaid Cymru estyn llaw i weithio gydag eraill yng Nghymru sy'n gweld y sefyllfa fel yr ydym ni'n ei gweld ac sydd am weithio o blaid newid cyfeiriad pendant. Beth

stopping such an initiative? Neither the Government in Cardiff bay nor the Government in London has been able to demonstrate that it is serious about the often-used rhetoric that investment should be the route out of this crisis. The Labour minority Welsh Government here is committed to simply managing the decline as budgets decline. What would be different if—perish the thought—the Tories were running the Government here? If Labour is just going to pass on the hit to Wales's most vulnerable people, as it has done this week with the council tax benefit cut, we can see no difference. Thankfully, there is no prospect of the Tories forming a Government in Wales.

However, taking the cuts and implementing them in a so-called 'kind' way does not count as an alternative to austerity. Electorates across Europe are becoming more and more interested in pursuing an alternative. In Wales, we still lack the fiscal powers and economic muscle that even other devolved administrations within the British state currently have. How many more years will roll by before this problem is addressed? How much further behind will the Welsh economy have lagged by the time the Silk commission's final recommendations are implemented? These are pressing questions, and it is lives and livelihoods that are suffering while they are not being answered.

Despite the negative situation, Plaid Cymru has put forward a range of positive ideas in our alternative Queen's Speech. We have called for measures that would see the people of Wales take more control over their affairs so that the economy can be improved. We want to see more economic decision making in Wales. The absence of legislation on rail means that an opportunity has been missed to bring forward the much-needed electrification of the Great Western main line to Swansea. If we are to have any chance of building a modern Welsh economy, we desperately need these infrastructure investments.

sy'n atal menter o'r fath? Nid yw'r Llywodraeth ym mae Caerdydd na'r Llywodraeth yn Llundain wedi gallu dangos eu bod o ddifrif ynghylch y rhyngwladol a ddefnyddir yn aml, sef mai buddsoddi yw'r ffordd allan o'r argyfwng hwn. Mae'r Llywodraeth Lafur leiafrifol yn y fan hon yng Nghymru wedi ymrwymo i wneud dim byd mwy na rheoli'r dirywiad wrth i gyllidebau ddirywio. Beth fyddai'n wahanol pe bai'r Torïaid—Duw a'n gwaredo—yn rhedeg y Llywodraeth yn y fan hon? Os y cyfan y mae'r Plaid Lafur yn bwriadu ei wneud yw trosglwyddo'r ergyd i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yng Nghymru, fel y mae wedi gwneud yr wythnos hon wrth dorri budd-dal y dreth gyngor, ni allwn weld dim gwahaniaeth. Diolch byth, nid oes llawer o obaith i'r Torïaid ffurfio Llywodraeth yng Nghymru.

Fodd bynnag, nid yw cymryd y toriadau a'u gweithredu mewn modd 'caredig', chwedl hwythau, yn cyfrif fel dewis amgen i fesurau cynilo. Mae gan etholwyr ar draws Ewrop ddiddordeb cynyddol mewn mynd ar drywydd dewis amgen. Yng Nghymru, rydym yn parhau heb y pwerau ariannol a'r grym economaidd sydd gan weinyddiaethau datganoledig eraill y wladwriaeth Brydeinig hyd yn oed ar hyn o bryd. Faint o flynyddoedd fydd yn gorfod pasio eto cyn y bydd y broblem hon yn cael sylw? Faint eto y bydd economi Cymru ar ei hôl hi erbyn i argymhellion terfynol comisiwn Silk gael eu gweithredu? Mae'r rhain yn gwestiynau taer, ac mae bywydau a bywoliaeth pobl yn dioddef wrth ddisgwyl am atebion iddynt.

Er gwaethaf y sefyllfa negyddol, mae Plaid Cymru wedi cyflwyno ystod o syniadau cadarnhaol yn ein haraith amgen i Araith y Frenhines. Rydym wedi galw am fesurau a fyddai'n gweld pobl Cymru yn cael mwy o reolaeth ar eu materion eu hunain fel y gellir gwella'r economi. Rydym am weld mwy o benderfyniadau economaidd yn cael eu gwneud yng Nghymru. Mae diffyg deddfwriaeth ynghylch rheilffyrdd yn golygu bod cyfle wedi'i gollu i sicrhau bod y gwaith o drydaneiddio prif reilffordd Great Western i Abertawe, y mae ei angen yn fawr, yn digwydd ynghynt. Os ydym am gael unrhyw obaith o adeiladu economi fodern yng Nghymru, mae gwir angen y buddsoddiadau

hyn mewn seilwaith.

Our alternative Queen's Speech has set out how the UK Government's programme can deliver workable reforms for Wales. Why not devolve Jobcentre Plus, as has happened in the north of Ireland? It makes sense for Jobcentre Plus to be integrated with economic development, as opposed to being part of the benefits system.

Mae ein haraith amgen i Araith y Frenhines wedi nodi sut y gall rhaglen Llywodraeth y DU sicrhau diwygiadau ymarferol i Gymru. Beth am ddatganoli'r Ganolfan Byd Gwaith, fel sydd wedi digwydd yng ngogledd Iwerddon? Mae'n gwneud synnwyr i wasanaeth y Ganolfan Byd Gwaith gael ei integreiddio â datblygu economaidd, yn hytrach na bod yn rhan o'r system fuddaliadau.

On energy, Plaid Cymru has proposed that the National Assembly for Wales should be the body charged with making decisions relating to energy projects in Wales. I remind the Secretary of State that her own party's Welsh manifesto supported powers over energy projects being devolved—an issue on which the Conservative party is yet to deliver. In fact, all four parties represented here have manifesto commitments calling for an increase in our decision-making powers over energy. That is a solid mandate from the people of Wales. How otherwise can we in Wales plan and manage our own natural resources for the economic benefit of the people living where that energy is produced? All of us here agree that those affected should have the final say over how our natural resources are exploited. How can we move beyond the rhetoric on this issue?

O ran ynni, mae Plaid Cymru wedi cynnig mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddylai fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â phrosiectau ynni yng Nghymru. Hoffwn atgoffa'r Ysgrifennydd Gwladol fod maniffesto ei phlaid ei hun yng Nghymru yn cefnogi datganoli pwerau dros brosiectau ynni—sy'n fater nad yw'r blaid Geidwadol wedi cyflawni yn ei gylch o hyd. Yn wir, mae gan bob un o'r pedair plaid a gynrychiolir yma ymrwymadau yn eu maniffestos sy'n galw am gynnydd yn ein pwerau i wneud penderfyniadau ynghylch ynni. Mae hynny'n fandad cadarn gan bobl Cymru. Fel arall, sut y gallwn ni yng Nghymru gynllunio a rheoli ein hadnoddau naturiol ein hunain er budd economaidd y bobl sy'n byw lle y caiff yr ynni hwnnw ei gynhyrchu? Mae pob un ohonom yma'n cytuno mai'r sawl yr effeithir arnynt ddylai gael y gair olaf ynghylch sut y caiff ein hadnoddau naturiol eu hecsbloetio. Sut y gallwn symud y tu hwnt i'r rhyngwladol ynghylch y mater hwn?

Plaid Cymru Members of Parliament proposed a number of reforms that could improve the situation in Wales, including measures that would make our democracy more accountable. Building on a consensus that now exists in a considerable part of the Welsh legal community, we have repeated the call for the creation of a distinct Welsh legal jurisdiction. That would improve accountability. Elfyn Llwyd MP has said that Wales is the only country in the world that has law-making powers but no legal system to match those powers. Surely, the time has now come for that situation to come to an end.

Cynigiodd Aelodau Seneddol Plaid Cymru nifer o ddiwygiadau a allai wella'r sefyllfa yng Nghymru, gan gynnwys mesurau a fyddai'n gwneud ein democratiaeth yn fwy atebol. Gan adeiladu ar gonsensws sy'n bodoli bellach mewn rhan helaeth o'r gymuned gyfreithiol yng Nghymru, rydym wedi ailadrodd yr alwad i greu awdurdodaeth gyfreithiol benodol i Gymru. Byddai hynny'n gwella atebolrwydd. Mae Elfyn Llwyd AS wedi dweud mai Cymru yw'r unig wlad yn y byd sydd â phwerau deddfu ond nad oes ganddi system gyfreithiol i gyd-fynd â'r pwerau hynny. Yn sicr, mae'n bryd yn awr i'r sefyllfa honno ddod i ben.

To conclude, Plaid Cymru regrets that the

I gloi, mae Plaid Cymru yn gresynu bod y

opportunity to signal an economic change in direction has been missed. We regret that your legislative programme has delivered nothing new for Wales. We will continue to make the case for a stronger economy and for greater fairness and equality, both between this country and others and within our borders. We will continue to bring forward ideas that will help to release the potential of this great nation.

Gwelliant 2 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Ynni a fydd yn diwygio'r farchnad drydan er mwyn annog buddsoddiad mewn cynhyrchu carbon-isel ac ynni glân.

Gwelliant 3 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Rhoddion Bach a fydd yn galluogi elusennau bach i hawlio 25c yn ôl am bob £1 a roddir, hyd at £5,000.

Gwelliant 4 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r Bil Diwygio'r Banciau a fydd yn gwahanu gweithgareddau manwerthu'r banciau oddi wrth eu gweithgareddau buddsoddi.

Peter Black: I move amendments 2, 3 and 4 in my name.

I will be brief in referring to the amendments, because I expect that my colleagues, Bill Powell and Eluned Parrott, will talk about them in more detail. Amendment 2 welcomes the energy Bill, which I and the Government believe will facilitate £100 billion of investment in new energy developments over the next decade. Crucially, this Bill will make investment in low-carbon energy generation more attractive through a system of low-carbon generation revenue support. I was concerned, listening to his intervention earlier

cyfle i ddangos newid cyfeiriad economaidd wedi ei gollu. Rydym yn gresynu nad yw eich rhaglen ddeddfwriaethol wedi cyflawni dim byd newydd ar gyfer Cymru. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos dros economi gryfach a thros fwy o degwch a chydaddoldeb, rhwng y wlad hon a gwledydd eraill ac o fewn ein ffiniau. Byddwn yn parhau i gyflwyno syniadau a fydd yn helpu i ryddhau potensial y genedl wych hon.

Amendment 2 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Welcomes the Energy Bill which will reform the electricity market in order to encourage investment in low-carbon generation and clean energy.

Amendment 3 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Welcomes the Small Donations Bill which will enable small charities to reclaim 25p for every £1 donated up to £5,000.

Amendment 4 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Welcomes the Banking Reform Bill which will separate banks' retail activities from their investment activities.

Peter Black: Cynigiau welliannau 2, 3 a 4 yn fy enw i.

Byddaf yn gryno wrth gyfeirio at y gwelliannau, oherwydd rwyf yn disgwyl y bydd fy nghydweithwyr, Bill Powell ac Eluned Parrott, yn siarad yn fwy manwl amdanynt. Mae gwelliant 2 yn croesawu'r Bil ynni yr wyf fi a'r Llywodraeth o'r farn y bydd yn hwyluso buddsoddi gwerth £100 biliwn mewn datblygiadau ynni newydd dros y degawd nesaf. Yn hollbwysig, bydd y Bil hwn yn gwneud buddsoddi mewn cynhyrchu ynni carbon isel yn fwy deniadol trwy system o gymorth refeniw ar gyfer cynhyrchu ynni

on, when Simon Thomas said that Plaid Cymru is not willing to support this particular amendment because it considers this Bill to be a missed opportunity to devolve power on energy. He knows that we all support that devolution, and the Secretary of State has already indicated that that is being looked at in part 2 of the Silk commission. I find it incomprehensible that a party that is supposedly committed to the green agenda is prepared to throw the baby out with the bath water on this issue and that, because it cannot have its way on powers, it is prepared to sacrifice measures to safeguard the future of our environment.

Simon Thomas: Thank you for taking an intervention; I will not rehearse the speech that I hope to give later.

The Deputy Presiding Officer: I am relieved to hear it.

Simon Thomas: I think that the Member needs to look carefully at this Bill from a green perspective. It changes the subsidies for renewable energy and distorts the market in favour of nuclear energy; surely he is not in favour of that.

Peter Black: I think that it is quite clear that this Bill develops low-carbon energy generation. It is also clear that we will, as a result, be able to be a much greener and more environmentally friendly country. In my view, opposing it for the reasons that you have given is not a green approach.

Amendment 3 welcomes the small donations Bill. This Bill will help to put smaller charities on an equal footing with larger charities, and will enable charities to claim back 25p in every £1 that they raise. It also removes the bureaucracy associated with gift aid certificates; we believe that that is a much-needed reform.

Amendment 4 welcomes the banking reform

carbon isel. Roeddwn yn pryderu, o wrando ar ei ymyriad yn gynharach, pan ddywedodd Simon Thomas nad yw Plaid Cymru yn barod i gefnogi'r gwelliant penodol hwn am ei bod o'r farn bod y Bil yn gyfle a gollwyd i ddatganoli pŵer ynghylch ynni. Mae'n gwybod ein bod i gyd yn cefnogi datganoli'r pŵer hwnnw, ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol eisoes wedi nodi bod y mater yn cael ei ystyried yn rhan 2 comisiwn Silk. Ni allaf ddeall pam y mae plaid sydd wedi ymrwymo i'r agenda werdd, yn ôl pob sôn, yn barod i gael gwared ar yr hyn sy'n dda yn ogystal â'r hyn sy'n ddrwg yng nghyswllt y mater hwn, a'i bod yn barod, am nad yw'n gallu cael ei ffordd ei hun o ran pwerau, i aberthu mesurau i ddiogelu dyfodol ein hamgylchedd.

Simon Thomas: Diolch am dderbyn ymyriad; nid wyf am adrodd yr araith yr wyf yn gobeithio ei thraddodi yn nes ymlaen.

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf yn falch o glywed hynny.

Simon Thomas: Credaf fod angen i'r Aelod edrych yn ofalus ar y Bil hwn o safbwynt gwyrdd. Mae'n newid y cymorthdaliadau ar gyfer ynni adnewyddadwy ac yn ystumio'r farchnad o blaid ynni niwclear; rhaid nad yw o blaid hynny.

Peter Black: Credaf ei bod yn hollol glir bod y Bil hwn yn datblygu gwaith cynhyrchu ynni carbon isel. Mae hefyd yn glir y byddwn, o ganlyniad, yn gallu bod yn wlad sy'n llawer mwy gwyrdd ac sy'n llawer mwy cyfeillgar i'r amgylchedd. Yn fy marn i, nid yw gwrthwynebu'r Bil am y rhesymau a roddwyd gennych yn ddull gwyrdd o weithredu.

Mae gwelliant 3 yn croesawu'r Bil rhoddion bach. Bydd y Bil hwn yn helpu i sicrhau bod elusennau llai o faint yn cael eu trin yn yr un modd ag elusennau mwy o faint, a bydd yn galluogi elusennau i hawlio 25c yn ôl am bob £1 a godir ganddynt. Mae hefyd yn dileu'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â thystysgrifau cymorth rhodd; rydym yn credu bod hynny'n ddiwygiad y mae ei angen yn fawr.

Mae gwelliant 4 yn croesawu'r Bil diwygio'r

Bill, which aims to protect household incomes and savings by separating the high-street activities of banks from the riskier investment activities that have much greater potential to do serious damage to the economy if poor choices are made. The previous Labour UK Government deregulated the banks. As a result, the banks effectively led us into recession. We are trying to put that right, and I believe that this Bill is the first stage of ensuring that never again are we going to be faced with the sort of recession that we suffered a few years ago as a result of the banks effectively going into meltdown. It is right that we are, once more, regulating those banks and separating the high-street banking part from the riskier activities—the casino activities referred to by Vince Cable—in which they often engage.

We will be supporting the Conservatives' amendments 5 and 6, but we cannot support the Plaid Cymru amendment, which states that the legislative programme contains no meaningful measures to create economic growth. That is an interesting amendment from a party that brought forward no legislation on economic development when it held the economic development portfolio for four years in the One Wales Government. It is also simply not true. The banking reform Bill, the energy Bill, the Enterprise and Regulatory Reform Bill and the Groceries Code Adjudicator Bill all contain meaningful provisions on the economy. Crucially, however, not all action to improve the economy can be achieved through legislation.

The Government is already undertaking many measures to stimulate economic growth, including cutting income tax for the lowest paid workers in the country, introducing the youth contract to create more apprenticeships and training opportunities, and creating a competitive marketplace by reducing corporation tax and establishing a three-year national insurance freeze for new small businesses. All of those measures will have a significant impact on helping to get us back into a position of economic growth. I

banciau sy'n ceisio gwarchod incwm a chynilion aelwydydd trwy wahanu gweithgareddau banciau ar y stryd fawr oddi wrth weithgareddau buddsoddi y mae mwy o risg yn perthyn iddynt, sydd â llawer mwy o botensial i wneud niwed difrifol i'r economi os caiff dewisiadau gwael eu gwneud. Cafodd y banciau eu dadreoleiddio gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU. O ganlyniad, arweiniodd y banciau ni at ddirwasgiad, i bob pwrpas. Rydym yn ceisio unioni hynny, a chredaf mai'r Bil hwn yw'r cam cyntaf yn y broses o sicrhau na fyddwn byth eto'n wynebu'r math o ddirwasgiad y bu inni ei ddioddef ychydig flynyddoedd yn ôl wedi i'r banciau fethu, i bob pwrpas. Mae'n iawn ein bod, unwaith eto, yn rheoleiddio'r banciau hynny ac yn gwahanu gweithgareddau bancio'r stryd fawr oddi wrth y gweithgareddau y mae mwy o risg yn perthyn iddynt—y gweithgareddau casino y cyfeiriodd Vince Cable atynt—y mae'r banciau'n aml yn ymwneud â hwy.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau 5 a 6 y Ceidwadwyr, ond ni allwn gefnogi gwelliant Plaid Cymru, sy'n datgan nad yw'r rhaglen ddeddfwriaethol yn cynnwys unrhyw fesurau ystyrlon i greu twf economaidd. Mae'n welliant diddorol gan blaid na chynigiodd unrhyw ddeddfwriaeth ar ddatblygu economaidd pan oedd â gofal am y portffolio datblygu economaidd am bedair blynedd yn Llywodraeth Cymru'n Un. At hynny, nid yw'n wir. Mae'r Bil diwygio'r banciau, y Bil ynni, y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio a Bil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd i gyd yn cynnwys darpariaethau ystyrlon ynghylch yr economi. Yr hyn sy'n hollbwysig, fodd bynnag, yw na all pob cam i wella'r economi gael ei gyflawni trwy ddeddfwriaeth.

Mae'r Llywodraeth eisoes yn ymgymryd â llawer o fesurau i ysgogi twf economaidd, sy'n cynnwys torri treth incwm ar gyfer y gweithwyr hynny sy'n ennill y cyflogau isaf yn y wlad, cyflwyno'r contract ieuencid i greu mwy o brentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi, a chreu marchnad gystadleuol drwy leihau treth gorfforaeth a rhewi yswiriant gwladol am dair blynedd ar gyfer busnesau bach newydd. Bydd yr holl fesurau hynny'n cael effaith sylweddol o ran helpu i'n cael yn ôl i sefyllfa o dwf economaidd.

was interested in the charge that Leanne Wood laid down when she asked what would be different if the Conservatives were in charge. I could throw that question back to her and ask what would be different if Plaid Cymru were in charge, because the description that she gave of the Welsh Government effectively managing decline could equally have been applied to the One Wales Government when Plaid Cymru held the economic portfolio.

The Queen's Speech has again shown that the Liberal Democrats are punching way above our weight and are delivering many of our key policies. This Queen's Speech included many of the long-term reforms that we have campaigned for, such as the reform of banks. These will help to build a sustainable future for our country. Vince Cable will regulate the banks so that they can longer hold the country to ransom when their financial gambles do not pay off. Ed Davey will establish the world's first green investment bank and introduce electricity market reform to protect consumers, support low carbon energy and invest in renewable energy. We are also helping some of the most vulnerable people in our society. Steve Webb will help pensioners by introducing a flat-rate pension. We have proposed a way to modernise adult care and support, finally ensuring dignity in old age. I know that the Deputy Minister for Children and Social Services here is already talking to Paul Burstow about how that can be carried forward in Wales. The speech also clearly sets out our collective determination to reform the House of Lords, a historic commitment of our party. *[Interruption.]* If you want to intervene, Simon, I am happy to take an intervention. The Labour Party was quick to criticise the Queen's Speech—

Simon Thomas: Will you take an intervention?

Peter Black: Of course I will, Simon. *[Laughter.]*

The Deputy Presiding Officer: Order. If

Roedd gennyf ddiddordeb yn y cyhuddiad a wnaed gan Leanne Wood pan ofynnodd beth fyddai'n wahanol pe bai'r Ceidwadwyr mewn grym. Gallwn innau daflu'r cwestiwn hwnnw yn ôl ati hi, a gofyn beth fyddai'n wahanol pe bai Plaid Cymru mewn grym, oherwydd gallai'r disgrifiad a roddodd o Lywodraeth Cymru yn rheoli dirywiad, i bob pwrpas, fod wedi bod yn berthnasol hefyd i Lywodraeth Cymru'n Un pan oedd Plaid Cymru â gofal am y portffolio economaidd.

Unwaith eto, mae Araith y Frenhines wedi dangos bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn cyflawni llawer mwy na'r disgwyl ac yn gweithredu llawer o'n polisiau allweddol. Roedd yr Araith hon gan y Frenhines yn cynnwys llawer o'r diwygiadau hirdymor yr ydym wedi bod yn ymgyrchu amdanynt, megis diwygio'r banciau. Bydd y rhain yn helpu i adeiladu dyfodol cynaliadwy ar gyfer ein gwlad. Bydd Vince Cable yn rheoleiddio'r banciau fel na allant mwyach ddal y wlad yn wystl pan na fydd eu gamblo ariannol yn dwyn elw. Bydd Ed Davey yn sefydlu banc buddsoddi gwyrdd cyntaf y byd ac yn diwygio'r farchnad drydan er mwyn gwarchod defnyddwyr, cefnogi ynni carbon isel a buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy. Rydym hefyd yn helpu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Bydd Steve Webb yn helpu pensiynwyr drwy gyflwyno pensiwn cyfradd safonol. Rydym wedi cynnig ffordd o foderneiddio gofal a chymorth i oedolion, gan sicrhau urddas o'r diwedd i bobl yn eu henaint. Gwn fod y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y fan hon eisoes yn siarad â Paul Burstow am sut y gellir datblygu hynny yng Nghymru. Mae'r araith hefyd yn nodi'n glir ein bod yn benderfynol ar y cyd o ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi, sy'n un o ymrwymadau hanesyddol ein plaid. *[Torri ar draws.]* Os ydych am ymyrryd, Simon, rwyf yn fodlon derbyn ymyriad. Roedd y Blaid Lafur yn barod iawn i feirniadu Araith y Frenhines—

Simon Thomas: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Peter Black: Gwnaf, wrth gwrs, Simon. *[Chwerthin.]*

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Os ydych yn eu

you invite them, you have got to expect to take them.

Simon Thomas: I thank the Member for taking an intervention. Will he consider the fact that, in his criticism of Plaid Cymru, he is mixing up the Queen's Speech, which included references to the austerity programme and the economic programme, and the legislative programme? They are two different things, but both were included in the Queen's Speech. That is the criticism in our amendment today.

Peter Black: I have your amendment in front of me. It says that

'the legislative programme fails to include any meaningful measures to deliver growth in the economy.'

It refers specifically to the legislative programme, which, as you quite rightly say, is different to the Queen's Speech. I am talking to your amendment, not to your intervention. That is quite a crucial distinction.

The Labour Party was quick to criticise the Queen's Speech, but most of its criticism was not of the Bills themselves, many of which they agree with, or at least claim to agree with, such as those on investment in renewable energy, House of Lords reform and the break-up of the banks. I hope that when it comes to crucial constitutional reforms, such as the House of Lords reform, that we are not going to have the same situation, whereby the Labour Party effectively talks with a forked tongue, saying that it supports the reform while doing everything it can to undermine it.

William Powell and Eluned Parrott will talk in more detail about our amendments, but I want to talk about the small donations Bill, which aims to boost the income available to small charities. This Bill also intends to level the playing field for smaller charities in order to ensure that those engaged in similar local activities to large charities are entitled to the same level of top-up payments. That is a crucial reform. What we have in the Queen's

gwahodd, rhaid ichi ddisgwyl eu derbyn.

Simon Thomas: Diolch i'r Aelod am dderbyn ymyriad. A wnaiff ystyried y ffaith ei fod, wrth feirniadu Plaid Cymru, yn cymysgu Araith y Frenhines, a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at y rhaglen gynilo a'r rhaglen economaidd, â'r rhaglen ddeddfwriaethol? Maent yn ddau beth gwahanol, ond cafodd y ddau beth eu cynnwys yn Araith y Frenhines. Dyna'r feirniadaeth yn ein gwelliant heddiw.

Peter Black: Mae eich gwelliant gennyf o'm blaen. Dywed

'nad yw'r rhaglen ddeddfwriaethol yn cynnwys unrhyw fesurau ystyrion i gyflawni twf yn yr economi.'

Mae'n cyfeirio yn benodol at y rhaglen ddeddfwriaethol, sydd, fel y dywedwch yn gywir ddigon, yn wahanol i Araith y Frenhines. Rwyf yn sôn am eich gwelliant, nid am eich ymyriad. Mae'n wahaniaeth hollbwysig.

Roedd y Blaid Lafur yn barod iawn i feirniadu Araith y Frenhines, ond nid oedd y rhan fwyaf o'i beirniadaeth yn ymwneud â'r Biliau eu hunain, y mae'r Blaid Lafur yn cytuno â llawer ohonynt, neu o leiaf yn honni ei bod yn cytuno â hwy, megis y rhai ar fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, diwygio Tŷ'r Arglwyddi a rhannu'r banciau. Gobeithiaf, pan ddaw'n fater o ddiwygiadau cyfansoddiadol hollbwysig, megis diwygio Tŷ'r Arglwyddi, na fyddwn yn cael yr un sefyllfa lle y mae'r Blaid Lafur i bob pwrpas yn dweud un peth ond yn gwneud fel arall, drwy ddweud ei bod yn cefnogi'r diwygio ond gan wneud popeth o fewn ei gallu i'w danseilio.

Bydd William Powell ac Eluned Parrott yn sôn yn fwy manwl am ein gwelliannau, ond hoffwn sôn am y Bil rhoddion bach, sy'n ceisio cynyddu'r incwm sydd ar gael i elusennau bach. Mae'r Bil hefyd yn bwriadu rhoi mwy o chwarae teg i elusennau llai o faint er mwyn sicrhau bod gan y rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau lleol tebyg i elusennau mawr yr hawl i'r un lefel o daliadau atodol. Mae'n ddiwygiad

Speech is a list of measures and legislation that will make a huge difference, not only in reforming the way that this country is run, but in helping us to get the economic recovery that we can through those measures, such as the banking reform Bill, the energy Bill, the Enterprise and Regulatory Reform Bill and the Groceries Code Adjudicator Bill.

Gwelliant 5 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU a'i hymrwymiad parhaus i:

a) lleihau'r diffyg a thrwy hynny sicrhau'r cyfraddau llog isaf erioed yn y Deyrnas Unedig, sydd o fudd i berchnogion tai ledled Cymru;

b) adfer sefydlogrwydd economaidd, gan greu cyfoeth i gynnal gwasanaethau cyhoeddus.

Gwelliant 6 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu Bil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd a chreu swydd Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd.

Andrew R.T. Davies: I move amendments 5 and 6 in the name of William Graham.

We will be supporting the Liberal Democrat amendments, but it will come as no surprise that we will not be supporting the Plaid Cymru amendment, amendment 1.

We agree entirely with the sentiment laid out in the Queen's Speech that fiscal responsibility and stability are critical to put this country back on the road of recovery. Many contributors this afternoon have referred to the IMF report yesterday. The comments made in this Chamber today do not seem to refer to the report that I saw. The report stated that what the UK Government

hollbwysig. Yr hyn sydd gennym yn Araith y Frenhines yw rhestr o fesurau a deddfwriaeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth enfawr, nid yn unig o ran diwygio'r modd y caiff y wlad hon ei rhedeg, ond o ran ein helpu i sicrhau'r adferiad economaidd y gallwn ei sicrhau drwy'r mesurau hynny, megis y Bil diwygio'r banciau, y Bil ynni, y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio a Bil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd.

Amendment 5 William Graham

Add as new point at end of motion:

Welcomes the UK Government's legislative programme and its continued commitment to:

a) reduce the deficit and thereby ensure record low interest rates in the United Kingdom, benefitting homeowners across Wales;

b) restore economic stability, creating the wealth to sustain public services.

Amendment 6 William Graham

Add as new point at end of motion:

Welcomes the Groceries Code Adjudicator Bill and the creation of the position of Groceries Code Adjudicator.

Andrew R.T. Davies: Cynigiau welliannau 5 a 6 yn enw William Graham.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, ond ni fydd yn syndod na fyddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru, sef gwelliant 1.

Rydym yn cytuno'n llwyr â'r farn a nodwyd yn Araith y Frenhines, sef bod cyfrifoldeb a sefydlogrwydd ariannol yn hollbwysig i roi'r wlad hon yn ôl ar y llwybr tuag at adferiad. Mae llawer o gyfranwyr y prynhawn yma wedi cyfeirio at adroddiad y Gronfa Ariannol Ryngwladol ddoe. Ymddengys nad yw'r sylwadau a wnaed yn y Siambr hon heddiw yn cyfeirio at yr adroddiad a welais i. Yn ôl

had done over the first two years of its tenure was to put down roots so that people can have confidence that this country is a safe haven for capital. That is why we have seen record low interest rates, and, if you look at the money markets today, you will see that the Government is able to borrow at 1.84% now, as opposed to nearly 4% when it came to power. That is valuable money that is going into our public services and not paying higher interest rates that ultimately would cost us more in the long term and drain money out of the economy. If you do not have credit worthiness in the marketplace, how on earth can you stabilise the country? We only need to look at what is going on in mainland Europe, across all those Mediterranean countries, and at our neighbours in the Republic of Ireland and the dilemmas in which they have found themselves. When the Government came in in May 2010, it was vital that we stopped the haemorrhaging of the £120 million per day in interest that we were having to pay and that we put a cap on the deficit that was rising out of all control, which was left by the Labour Government, which clearly had lost the will to carry on.

Simon Thomas: The Member made it clear that he wanted to stop the haemorrhaging of paying for the debt. Does he accept the Office for Budget Responsibility's analysis that this Government will end up with the same level of debt after five years as predicted under Alistair Darling? There is a difference between debt and deficit, and the debt is staying the same because the economy is not growing.

4.00 p.m.

Andrew R.T. Davies: It is interesting to see the former special adviser on his feet here in the Chamber as a Member. He has to accept that economic and trading conditions have deteriorated across the world since May 2010. Look at our biggest marketplace: the continent of Europe. It is proving more problematic to get growth in economies. Everyone accepts that, but, fundamentally,

yr adroddiad, yr hyn yr oedd Llywodraeth y DU wedi ei wneud yn ystod ei dwy flynedd gyntaf mewn Llywodraeth oedd bwrw gwreiddiau er mwyn i bobl allu teimlo'n hyderus bod y wlad hon yn hafan ddiogel ar gyfer cyfalaf. Dyna pam yr ydym wedi gweld y cyfraddau llog isaf erioed, ac o edrych ar y marchnadoedd arian heddiw, fe welwch fod y Llywodraeth yn gallu benthyca ar sail cyfradd o 1.84% yn awr, yn hytrach na chyfradd a oedd bron yn 4% pan ddaeth i rym. Dyna arian gwerthfawr sy'n cael ei gyfeirio at ein gwasanaethau cyhoeddus yn hytrach nag at dalu cyfraddau llog uwch a fyddai, yn y pen draw, yn costio mwy inni yn y tymor hir ac yn draenio arian allan o'r economi. Os nad oes gennych deilyngdod o ran credyd yn y farchnad, sut yn y byd y gallwch sefydlogi'r wlad? Nid oes ond angen inni edrych ar yr hyn sy'n digwydd ar dir mawr Ewrop, ar draws pob un o'r gwledydd hynny yn ardal Môr y Canoldir, ac ar ein cymdogion yng Ngwerniaeth Iwerddon a'r cyfyng-gyngor y maent ynddo. Pan ddaeth y Llywodraeth i rym ym mis Mai 2010, roedd yn hanfodol ein bod yn atal y gwaedlif, sef y £120 miliwn y dydd o log yr oeddem yn gorfod ei dalu, a'n bod yn rhoi terfyn ar y diffyg a oedd yn cynyddu allan o bob rheolaeth, a adawyd gan y Llywodraeth Lafur a oedd yn amlwg wedi colli'r ewyllys i barhau.

Simon Thomas: Nododd yr Aelod yn glir ei fod am atal y gwaedlif a oedd ynghlwm wrth orfod talu am y ddyled. A yw'n derbyn dadansoddiad y Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau, sef y bydd gan y Llywodraeth hon, yn y pen draw, yr un lefel o ddyled ar ôl pum mlynedd â'r lefel a ragwelwyd dan Alistair Darling? Mae gwahaniaeth rhwng dyled a diffyg, ac mae'r ddyled yn aros yr un fath am nad yw'r economi'n tyfu.

Andrew R.T. Davies: Mae'n ddiddorol gweld y cyn-gynghorydd arbennig ar ei draed yma yn y Siambr fel Aelod. Rhaid iddo dderbyn bod amodau economaidd ac amodau masnachu wedi dirywio ledled y byd ers mis Mai 2010. Edrychwch ar ein marchnad fwyaf: cyfandir Ewrop. Mae'n dod yn fwyfwy anodd sicrhau twf mewn economïau. Mae pawb yn derbyn hynny, ond, yn y bôn,

the Government has succeeded in retaining the confidence of the markets, allowing us to borrow money at a lower rate of interest, thus allowing more money for general expenditure. That has to be welcomed. I dread to think what would have happened had the taps been turned on with the left-wing ideology that your party and the Labour Party have talked of over the past two years.

There are various measures in the Queen's Speech, which have been touched on, particularly the ability of charities to claim back additional payments on small donations. For a country such as Wales, that is vital. There are more than 31,000 voluntary organisations in Wales and, according to the latest figures available, they generate £1.6 billion-worth of revenue in Wales that can support vital services for many communities up and down the country. I hope that there is cross-party support for that measure in the Queen's Speech.

The reforms of the electricity market are also desperately required to get a balance between sustainable electricity and value for the electricity bills that householders and industry have to pay. Many people feel that there is a disconnect between the market value and the bills that they are paying. I welcome the inclusion of that in the Queen's Speech.

I spoke to the Secretary of State a little earlier and touched on the welfare reforms that are proposed in relation to special educational needs, disabled children and adoption rights. This is welcomed across the United Kingdom. Our Deputy Minister for social services has her own piece of legislation coming through, but there will be areas for co-operation to ensure that any barriers to adoption and to improving child welfare and care can be overcome across the United Kingdom, but particularly in Wales, where we have a good tradition. I know that the Minister has previous experience and has led in this field on many cases.

On voter registration and working towards electoral reform, it is important that we ensure that people have confidence in the

mae'r Llywodraeth wedi llwyddo i gadw hyder y marchnadoedd, gan ein galluogi i fenthycu arian ar sail cyfradd llog is, gan ganiatáu mwy o arian, felly, ar gyfer gwariant cyffredinol. Rhaid croesawu hynny. Mae'n gas gennyf feddwl beth fyddai wedi digwydd pe bai'r tapiau wedi cael eu hagog â'r ideoleg adain chwith y mae eich plaid chi a'r Blaid Lafur wedi bod yn siarad amdani dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ceir amryw fesurau yn Araith y Frenhines, sydd wedi eu crybwyll, yn enwedig gallu elusennau i hawlio taliadau ychwanegol yn ôl ar roddion bach. I wlad megis Cymru, mae hynny'n hanfodol. Mae dros 31,000 o fudiadau gwirfoddol yng Nghymru ac, yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael, maent yn cynhyrchu gwerth £1.6 biliwn o refeniw yng Nghymru a all gefnogi gwasanaethau hanfodol i lawer o gymunedau ar hyd a lled y wlad. Rwyf yn gobeithio bod cefnogaeth drawsbleidiol i'r mesur hwnnw yn Araith y Frenhines.

Mae gwir angen diwygio'r farchnad drydan hefyd er mwyn cael cydbwysedd rhwng trydan cynaliadwy a gwerth am y biliau trydan y mae'n rhaid i ddeiliaid tai a diwydiant eu talu. Mae llawer o bobl yn teimlo bod diffyg cysylltiad rhwng gwerth ar y farchnad a'r biliau y maent yn eu talu. Rwyf yn croesawu cynnwys hynny yn Araith y Frenhines.

Siaradais â'r Ysgrifennydd Gwladol ychydig yn gynharach, a soniais am y diwygiadau lles a gynigir yng nghyswllt anghenion addysgol arbennig, plant anabl a hawliau mabwysiadu. Caiff hynny ei groesawu ar draws y Deyrnas Unedig. Mae gan ein Dirprwy Weinidog gwasanaethau cymdeithasol ei darn ei hun o ddeddfwriaeth a fydd yn ymddangos, ond ceir meysydd ar gyfer cydweithio er mwyn sicrhau bod modd goresgyn unrhyw rwystrau i fabwysiadu a gwella lles a gofal plant ar draws y Deyrnas Unedig, ond yn enwedig yng Nghymru, lle y mae gennym draddodiad da. Gwn fod gan y Gweinidog brofiad blaenorol a'i bod wedi arwain yn y maes hwn yng nghyswllt llawer o achosion.

O ran cofrestru pleidleiswyr a gweithio tuag at ddiwygio etholiadol, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod gan bobl hyder yn y broses

electoral process in this country. Sadly, over many years, we have seen instances in which people have had legitimate concerns about their ability to have confidence in the democratic process, and the Queen's Speech touched on specific legislation that would be brought forward on individual voter registration.

Above all, the speech highlights the need for co-operation between the various Governments in the devolved institutions, although different political colours may be in power. We have heard about rail electrification today, for example. We will need to rely on mutual co-operation if we are to see the benefits from across the grid. Wales and the United Kingdom would benefit from improvements via the electrification of the main line and the Valleys line, particularly as it would create the jobs and infrastructure investment that is so desperately needed.

The other day, I was in London and I travelled to Cambridge and the train on the main commuter line between London and Cambridge, which was electrified, was travelling at 106 mph, which meant that the journey was undertaken within 58 minutes. That is the type of route and transport infrastructure that companies looking to invest want to see. What bang can they get for their buck, if they invest in south Wales or other parts of the United Kingdom? It is vital that we get that, and I am more than happy to put my name to any cause that secures that in Wales. The Prime Minister also gave a commitment, back in April, to work tirelessly to make that happen.

Moving on, the National Crime Agency is an important part of the fabric of crime prevention that we have within the United Kingdom. The creation of that national body will be instrumental in dealing with organised crime, particularly trafficking and drug dealing, which does not recognise county and country boundaries. It transcends all boundaries. I am sure that many people will welcome that. I have concerns about the level of oversight of personal communications, and

etholiadol yn y wlad hon. Yn anffodus, dros flynyddoedd lawer, rydym wedi gweld achosion lle y mae pobl wedi mynegi pryderon dilys ynghylch eu gallu i deimlo'n hyderus yn y broses ddemocrataidd, a soniodd Araith y Frenhines am ddeddfwriaeth benodol a fyddai'n cael ei chyflwyno ar gofrestru pleidleiswyr unigol.

Yn anad dim, mae'r araith yn tynnu sylw at yr angen am gydweithio rhwng yr amryw Lywodraethau yn y sefydliadau sydd wedi eu datganoli, er y gall gwahanol liwiau gwleidyddol fod mewn grym ynddynt. Rydym wedi clywed am drydaneiddio rheilffyrdd heddiw, er enghraifft. Bydd angen inni ddibynnu ar gydweithio gan bawb os ydym am weld y manteision ar draws y grid. Byddai Cymru a'r Deyrnas Unedig yn elwa o welliannau yn sgîl trydaneiddio'r brif reilffordd a rheilffyrdd y Cymoedd, yn enwedig gan y byddai'n creu'r buddsoddiad mewn swyddi a seilwaith y mae angen mor daer amdano.

Y diwrnod o'r blaen, roeddwn yn Llundain a theithiais i Gaergrawnt, ac roedd y trê'n ar y brif reilffordd i gymudwyr rhwng Llundain a Chaergrawnt, a oedd wedi ei thrydaneiddio, yn teithio ar gyflymder o 106 milltir yr awr, a oedd yn golygu bod modd cwblhau'r daith mewn 58 munud. Dyna'r math o seilwaith llwybrau a thrafnidiaeth y mae cwmnïau sy'n ystyried buddsoddi am ei weld. Pa fanteision y gallant eu cael am eu harian, o fuddsoddi yn ne Cymru neu mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig? Mae'n hanfodol ein bod yn cael hynny, ac rwyf yn fwy na pharod i gefnogi unrhyw achos sy'n sicrhau hynny yng Nghymru. Yn ogystal, ymrwymodd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, yn ôl ym mis Ebrill, i weithio'n ddiflino i wneud i hynny ddigwydd.

Gan symud ymlaen, mae'r Asiantaeth Genedlaethol Troseddau yn rhan bwysig o wead y system atal troseddau sydd gennym yn y Deyrnas Unedig. Bydd creu'r corff cenedlaethol hwnnw'n allweddol i ddelio â throseddau cyfundrefnol, yn enwedig masnachu a gwerthu cyffuriau, nad yw'n cydnabod ffiniau siroedd a gwledydd. Mae'n croesi pob ffin. Rwyf yn siŵr y bydd llawer o bobl yn croesawu hynny. Rwyf yn pryderu ynghylch lefel yr oruchwyliaeth ar

I wish to ensure that assurances are built into that legislation and that people's privacy and the Government's regard for that privacy will be paramount when it draws up this legislation. We all understand the need to protect against terrorist incidents, because of the horrors that we see but, ultimately, we cannot trample on the rights that individuals should enjoy in a free country. I want to put that on the record as I think that it is fundamental.

I also want to touch on the subject of the supermarket ombudsman, or the groceries code adjudicator, to use the correct title. This has been in the pipeline for a considerable time, which is why we have tabled our amendment. This is not about supermarket-bashing, but about creating a fair and balanced market that, ultimately, can give the primary producer the confidence to trade, and about protecting the supermarkets from some of the excesses that they have indulged in, in light of the fines levelled by the Office of Fair Trading recently against supermarkets for unfair pricing in the dairy sector. We hope that that is the sort of incident in which the supermarket ombudsman will be able to intervene. Supermarkets offer a tremendous product range and a wonderful service, and they capture a large part of the market. However, when you have a dominant operator in the market, it is vital that we have a mechanism that gives confidence to primary producers. For Wales, where £3 billion-worth of food goods are produced, prepared and turned into a consumer product, that is a very important market for us to work with.

I also welcome the commitment to safeguard aid. It is vital that we identify the role that we can play in the world to assist those who are less fortunate than us. We are under severe financial pressure—make no bones about that—but compared with other parts of the world, we are blessed, both with our climate and our communities. If we can play our role in alleviating some suffering, whether medical or financial, in other parts of the

gyfathrebu personol, ac rwyf am wneud yn siŵr bod sicrwydd yn cael ei ymgorffori yn y ddeddfwriaeth honno ac y bydd preifatrwydd pobl a pharch y Llywodraeth tuag at y preifatrwydd hwnnw'n hollbwysig pan fydd yn llunio'r ddeddfwriaeth. Rydym i gyd yn deall yr angen am gamau i'n gwarchod rhag digwyddiadau terfysgol, oherwydd yr erchyllterau a welwn, ond yn y pen draw, ni allwn sathru ar yr hawliau y dylai unigolion eu mwynhau mewn gwlad rydd. Rwyf am i hynny gael ei gofnodi gan fy mod o'r farn bod hynny'n sylfaenol.

Rwyf hefyd am grybwyll yr ombwdsmon archfarchnadoedd, neu ddyfarnwr y cod cyflenwi bwydydd, o ddefnyddio'r teitl cywir. Mae'r mater hwn wedi bod ar y gweill ers cryn amser, a dyna pam yr ydym wedi cyflwyno ein gwelliant. Nid oes a wnelo â lladd ar archfarchnadoedd; yn hytrach, mae a wnelo â chreu marchnad deg a chytbwys sydd, yn y pen draw, yn gallu rhoi hyder i'r cynhyrchydd cynradd fasnachu, ac mae a wnelo â gwarchod yr archfarchnadoedd rhag rhywfaint o'r gormodedd y maent wedi ei fwynhau, yng ngoleuni'r dirwyon a ddyfarnwyd gan y Swyddfa Masnachu Teg yn ddiweddar yn erbyn archfarchnadoedd am arferion prisio annheg yn y sector llaeth. Rydym yn gobeithio mai dyna'r math o ddigwyddiad y bydd yr ombwdsmon archfarchnadoedd yn gallu ymyrryd ynddo. Mae archfarchnadoedd yn cynnig amrywiaeth wych o gynnyrch a gwasanaeth bendigedig, ac maent yn dal rhan fawr o'r farchnad. Fodd bynnag, pan fydd gennych un gweithredwr amlwg yn y farchnad, mae'n hanfodol bod gennym system sy'n rhoi hyder i gynhyrchwyr cynradd. I Gymru, lle y caiff gwerth £3 biliwn o gynnyrch bwyd ei gynhyrchu, ei baratoi a'i droi'n gynnyrch i ddefnyddwyr, mae hon yn farchnad bwysig iawn inni weithio gyda hi.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i ddiogelu cymorth. Mae'n hanfodol ein bod yn adnabod y rôl y gallwn ei chwarae yn y byd i gynorthwyo'r sawl sy'n llai ffodus na ni. Rydym dan bwysau ariannol difrifol—nid oes amheuaeth am hynny—ond o gymharu â rhannau eraill o'r byd, rydym wedi ein bendithio, o ran ein hinsawdd a'n cymunedau. Os gallwn chwarae ein rhan i leddfu rhywfaint o ddiodefaint, boed drwy

world, that is an obligation that we, as a wealthy country, should fulfil. I welcome the Government's commitment in the Queen's Speech to meeting our obligations by 2013.

However, above all, this Queen's Speech clearly sets out the path that we need to take, which is one of strong financial discipline, keeping the confidence of the markets so that we can move forward, creating a more enterprising and dynamic culture, and making sure that work does pay. Unemployment levels are coming down, as the latest figures have demonstrated. It will be rollercoaster; we accept that. However, thankfully, the figures released last month demonstrated that the number is reducing and, yesterday, figures showed that inflation is down to 3%. Let us look at the indicators, celebrate them when they are positive, and ensure that we stay on the track that leads to a more enterprising, dynamic and exciting country in which to live and prosper.

The Deputy Presiding Officer: I have 20 requests to speak. I will obviously not be able to call them all, but I remind Members to be as succinct as possible and I will then fit in as many speakers as I can.

Lynne Neagle: This is the Queen's Speech of a Government whose economic strategy has failed and of a coalition that finds itself in a political dead end. So wedded is it to the deficit-reduction strategy of 2010 that it is unable to face up to the economic reality of 2012. It is out of touch with the changing mood on the economy, with the growing number of people looking to the US and now to France to see that there is another, better way.

Europe is in crisis: unemployment is at record levels, people face rising fuel and energy bills, falling living standards and a lack of hope. Yet this Queen's Speech is desperately short of the kind of concrete measures needed to boost economic growth. It is bereft of practical steps to ease the

ddulliau meddygol neu ariannol, mewn rhannau eraill o'r byd, mae'n rhwymedigaeth y dylem ni, fel gwlad gyfoethog, ei chyflawni. Rwyf yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth yn Araith y Frenhines i gyflawni ein rhwymedigaethau erbyn 2013.

Yn anad dim, fodd bynnag, mae'r Araith hon gan y Frenhines yn nodi'n glir y llwybr y mae angen inni ei ddilyn, sef un o ddisgyblaeth ariannol gref, gan gadw hyder y marchnadoedd fel y gallwn symud ymlaen, creu diwylliant mwy mentrus a deinamig, a gwneud yn siŵr bod gweithio'n talu. Mae lefelau diweithdra yn gostwng, fel y mae'r ffigurau diweddaraf wedi dangos. Bydd yn anodd; rydym yn derbyn hynny. Diolch i'r drefn, fodd bynnag, mae'r ffigurau a ryddhawyd fis diwethaf yn dangos bod y nifer yn gostwng, a ddoe dangosodd ffigurau fod chwyddiant wedi disgyn i 3%. Gadewch inni edrych ar y dangosyddion, eu dathlu pan fyddant yn gadarnhaol, a sicrhau ein bod yn aros ar y llwybr a fydd yn arwain at wlad fwy mentrus, deinamig a chyffrous i fyw a ffynnu ynddi.

Y Dirprwy Lywydd: Mae gennyf 20 o geisiadau i siarad. Mae'n amlwg na fyddaf yn gallu galw arnynt i gyd, ond hoffwn atgoffa'r Aelodau y dylent fod mor gryno ag sy'n bosibl, a byddaf wedyn yn caniatáu amser i gynifer o siaradwyr ag y gallaf.

Lynne Neagle: Mae'r Araith hon gan y Frenhines yn araith gan Lywodraeth y mae ei strategaeth economaidd wedi methu, ac yn araith gan glymblaid sydd wedi cyrraedd pen draw llwybr gwleidyddol. Mae mor gaeth i'r strategaeth i leihau'r diffyg, a luniwyd yn 2010, nes ei bod yn methu ag wynebu'r realiti economaidd sy'n bodoli yn 2012. Nid yw'n deall bod teimladau pobl ynghylch yr economi yn newid, a bod nifer gynyddol o bobl yn edrych i gyfeiriad yr Unol Daleithiau ac yn awr i gyfeiriad Ffrainc ac yn gweld bod ffordd arall, well o weithredu.

Mae Ewrop mewn argyfwng: mae diweithdra yn uwch nag erioed, mae pobl yn wynebu biliau tanwydd ac ynni sy'n codi, safonau byw sy'n disgyn a diffyg gobaith. Eto i gyd, mae'r Araith hon gan y Frenhines yn ddifrifol o brin o'r math o fesurau pendant y mae eu hangen i hybu twf economaidd. Mae'n

burden on those who are struggling. Its only answer on the economy seems to be that same tired old rhetoric about the need to cut red tape.

Antoinette Sandbach: Will you take an intervention?

Lynne Neagle: No, not from you.

Rhetoric that we know is little more than thinly veiled code for yet more attacks on hard-won workers' rights. When unemployment is at the kind of levels that we have seen recently, it says it all about this Government that its only solution to our economic woes is to seek to make it easier to sack workers and mistreat staff. Even the measures in the speech that I instinctively support, such as the proposals to allow parents flexible leave, would be welcome were it not for the fact that they are being put forward by a Government that is hammering hard-working parents at every opportunity, cutting tax credits, child benefit, and the trust funds for their future. There are obvious parallels with the budget. There we saw a tax cut for the richest at the same time as those at the bottom were getting hit with cuts to their pension entitlement and a stealth tax on their lunch. I give way, but be quick.

Eluned Parrott: With regard to the cut in the higher rate of tax, can she tell me how many Labour MPs voted against the measure?

Lynne Neagle: It is quite obvious today that you are just here to stick up for the pernicious Tory Government at Westminster. This time, it is the overpaid executives who are being let off the hook. Moves toward increasing shareholder power over bonuses and remuneration packages might be small steps in the right direction, but they have not gone far enough in failing to make shareholders' votes on executive pay binding and by not allowing employees to sit on remuneration committees. Therefore, weak on corporate excess but tough on workers' rights seems to

amddifad o gamau ymarferol i ysgafnhau'r baich ar y sawl sy'n wynebu trafferthion. Ymddengys mai ei hunig ateb o ran yr economi yw'r un hen rethreg flinedig am yr angen i leihau biwrocratiaeth.

Antoinette Sandbach: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Lynne Neagle: Na wnaf, nid gennych chi.

Rhethreg yr ydym yn gwybod nad yw fawr ddim mwy na ffordd ddymunol o ddweud y bydd mwy fyth o ymosodiadau ar hawliau gweithwyr, y brwydrwyd yn galed i'w hennill. Pan fydd diweithdra ar y math o lefelau yr ydym wedi'u gweld yn ddiweddar, mae'r ffaith mai unig ateb y Llywodraeth hon i'n gofidiau economaidd yw ceisio ei gwneud yn haws diswyddo gweithwyr a cham-drin staff yn dweud y cyfan amdani. Byddai hyd yn oed y mesurau yn yr araith yr wyf wrth reddf yn eu cefnogi, megis y cynigion i ganiatáu absenoldeb hyblyg i rieni, yn fesurau i'w croesawu oni bai eu bod yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth sy'n gwneud i rieni sy'n gweithio'n galed ddioddef ar bob cyfle drwy dorri credydau treth, budd-dal plant a'r cronfeydd ymddiriedolaeth ar gyfer eu dyfodol. Ceir elfennau amlwg sy'n cydfynd â'r gyllideb. Yn y gyllideb, gwelsom y dreth yn cael ei thorri i'r bobl gyfoethocaf wrth i'r sawl sydd ar y gwaelod gael eu taro gan doriadau i'w hawliau o ran pensiwn a threth lechwraidd ar eu cinio. Rwyf am ildio, ond byddwch yn gyflym.

Eluned Parrott: O ran torri'r gyfradd treth uwch, a all ddweud wrthyf faint o Aelodau Seneddol Llafur a bleidleisiodd yn erbyn y mesur?

Lynne Neagle: Mae'n eithaf amlwg heddiw mai'r unig reswm yr ydych yma yw i amddiffyn y Llywodraeth Doriadau ddinistriol yn San Steffan. Y tro hwn, y swyddogion hynny a gaiff eu gordalu sy'n osgoi gorfod dioddef. Efallai fod camau tuag at gynyddu grym cyfranddalwyr dros daliadau bonws a pheynnau taliadau yn gamau bach i'r cyfeiriad iawn, ond nid ydynt wedi mynd yn ddigon pell wrth fetu â sicrhau bod pleidleisiau cyfranddalwyr ar gyflogau swyddogion yn gyfrwymol, a thrwy beidio â chaniatáu i weithwyr fod yn aelodau

be the message. We know that this is the thin end of the wedge, but the Tory right-wing at Westminster is champing at the bit to see the kind of reforms recommended in the Beecroft report: firing at will, an end to 90-day consultation periods, and irresponsible measures such as not requiring employers to check the immigration status of their staff. It says it all really that some Tories are listening to a man who got rich from an asset-stripping business model that nearly led us to the brink of disaster with Southern Cross and whose current portfolio of investments includes that well-known bastion of ethical business practice, Wonga.com.

Although I support the basic principles in the energy Bill that the Welsh Lib Dem amendment welcomes today, again, important opportunities have been missed. We need fundamental not incremental reform of the energy market, reforms that challenge the dominance of the so-called big six and that make a real difference to soaring energy prices for the poorest. I have already bemoaned the lack of measures to foster growth, but it is the whole approach to the economy that needs to change. We desperately need that VAT cut now, as well as the national insurance breaks for businesses that take on new workers and a proper plan to boost growth through spending on infrastructure, as we have done here in Wales under Welsh Labour.

More fundamentally, we must move away from the sort of stale conversation that has dominated debate on the economy in this so-called age of austerity. If the UK Government is serious about getting us out of this recession, we need to learn lessons from recent British economic success stories. Take those major investments at Nissan, the Vauxhall plant and Longbridge, and Tata Steel here in Wales as an example: they were all delivered because of a genuine social partnership between Government, business

o bwyllgorau taliadau. Felly, ymddengys mai'r neges yw gweithredu'n wan wrth ymdrin â gormodedd corfforaethol ond gweithredu'n llym wrth ymdrin â hawliau gweithwyr. Gwyddom fod gwaeth i ddod, ond mae'r Torïaid asgell dde yn San Steffan yn awyddus iawn i weld y math o ddiwygiadau a argymhellir yn adroddiad Beecroft: rhyddid i ddiswyddo pobl, rhoi terfyn ar gyfnodau ymgynghori 90 diwrnod, a mesurau anghyfrifol, megis peidio â mynnu bod cyflogwyr yn gwirio statws mewnfudo eu staff. Mae'r ffaith bod rhai Torïaid yn gwranddo ar ddyn a ddaeth yn gyfoethog o ganlyniad i fodel busnes wedi'i seilio ar werthu asedau, a'n harweiniodd bron iawn at drychineb gyda Southern Cross ac y mae ei bortffolio presennol o fuddsoddiadau'n cynnwys Wonga.com sy'n adnabyddus fel cadarnle arferion busnes moesegol, yn dweud y cyfan mewn gwirionedd.

Er fy mod yn cefnogi'r egwyddorion sylfaenol sydd yn y Bil ynni y mae gwelliant Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ei groesawu heddiw, unwaith eto mae cyfleoedd pwysig wedi eu colli. Mae arnom angen camau sylfaenol yn hytrach na chamau graddol i ddiwygio'r farchnad ynni, a diwygiadau sy'n herio amlygrwydd y chwe chwmmni mawr ac sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i brisiau ynni sy'n cynyddu'n aruthrol ar gyfer y bobl dlotaf. Rwyf eisoes wedi cwyno am y diffyg mesurau i feithrin twf, ond mae angen newid yr holl agwedd at yr economi. Mae gwir angen torri TAW yn awr, yn ogystal â'r seibiannau o ran yswiriant gwladol ar gyfer busnesau sy'n cyflogi gweithwyr newydd, a chynllun priodol i hybu twf drwy wario ar seilwaith, fel yr ydym wedi gwneud yma yng Nghymru dan y Blaid Lafur yng Nghymru.

Ar lefel fwy sylfaenol, rhaid inni symud i ffwrdd oddi wrth y math o sgwrs ddiflas sydd wedi bod yn flaenllaw mewn dadleuon am yr economi yn yr oes hon a elwir yn oes o gynilo. Os yw Llywodraeth y DU o ddifrif ynghylch ein cael ni allan o'r dirwasgiad hwn, mae angen inni ddysgu gwersi o straeon diweddar am lwyddiannau economaidd ym Mhrydain. Beth am gymryd y buddsoddiadau mawr yn Nissan, ffatri Vauxhall a Longbridge, a Tata Steel yma yng Nghymru fel enghraifft? Cawsant oll eu sicrhau

and trade unions, because everyone sat down, rolled up their sleeves and hammered out an agreement based on common goals. We are in this together, but that means moving away from the sort of divisive politics that has become the hallmark of this coalition—the politics that divide unions from business, worker from employer, and public sector from private sector. That is the kind of change that we need, and yet I see nothing in this Queen's Speech that will help to deliver it.

I conclude by saying that I very much regret the petty point-scoring today over the absence of the First Minister. Our Labour First Minister is at the joint ministerial committee, standing up for Wales. What a pity the Welsh Conservatives do not do a bit more of that themselves.

Nick Ramsay: It is always a pleasure to follow the Member's calm, reasoned and forward-looking comments. In fact, I always like it when the Member for Torfaen starts talking about the need to move away from divisive partisan politics. That was the one little bit of your speech that I agreed with, Lynne.

As other Members, particularly on this side, have done, I welcome the Secretary of State here today and thank her for her statement. I also welcome the chance to contribute to this debate on the Queen's Speech. It is always one of those debates in which you find yourself trying to untangle what is the responsibility of this place and the responsibility of Westminster, recognising that a great deal of the legislation in the Queen's Speech will have an impact in one way or another on what we do here.

4.15 p.m.

As for the legislation, I wish to mention the children and families Bill first. We have heard a lot deal of talk today about austerity, cuts and the need to reduce the deficit, and it

oherwydd partneriaeth gymdeithasol wirioneddol rhwng Llywodraeth, byd busnes ac undebau llafur, oherwydd bod pawb wedi eistedd i lawr, wedi torchi eu llewys ac wedi llunio cytundeb ar sail nodau cyffredin. Rydym yn y sefyllfa hon gyda'n gilydd, ond mae hynny'n golygu symud i ffwrdd oddi wrth y math o wleidyddiaeth gynhennus sydd wedi dod yn nodwedd o'r glymblaid hon—y wleidyddiaeth sy'n creu hollt rhwng undebau a byd busnes, gweithwyr a chyflogwyr, a'r sector cyhoeddus a'r sector preifat. Dyna'r math o newid y mae arnom ei angen, ond eto i gyd ni welaf ddim yn Araith y Frenhines a fydd yn helpu i'w gyflawni.

Hoffwn gloi drwy ddweud fy mod yn gresynu'n fawr iawn at ymdrechion plentynnaidd i sgorio pwyntiau heddiw ynghylch absenoldeb y Prif Weinidog. Mae ein Prif Weinidog Llafur yn y cydbwyllgor gweinidogion, yn amddiffyn buddiannau Cymru. Mae'n drueni nad yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn gwneud ychydig yn fwy o hynny eu hunain.

Nick Ramsay: Mae bob amser yn bleser dilyn sylwadau pwylllog, rhesymegol a blaengar yr Aelod. Yn wir, rwyf bob amser yn hoffi pan fydd yr Aelod dros Dorfaen yn dechrau siarad am yr angen i symud i ffwrdd oddi wrth wleidyddiaeth bleidiol gynhennus. Y darn bach hwnnw o'ch araith oedd yr un darn yr oeddwn yn cytuno ag ef, Lynne.

Fel y mae Aelodau eraill wedi gwneud, yn enwedig ar yr ochr hon, hoffwn groesawu'r Ysgrifennydd Gwladol yma heddiw a diolch iddi am ei datganiad. Rwyf hefyd yn croesawu'r cyfle i gyfrannu i'r ddadl hon ar Araith y Frenhines. Mae bob amser yn un o'r dadleuon lle'r ydych yn eich cael eich hun yn ceisio gwahaniaethu rhwng cyfrifoldeb y lle hwn a chyfrifoldeb San Steffan, gan gydnabod y bydd llawer iawn o'r ddeddfwriaeth yn Araith y Frenhines yn cael effaith rywsut neu'i gilydd ar yr hyn a wnawn yma.

O ran y ddeddfwriaeth, hoffwn sôn yn gyntaf am y Bil plant a theuluoedd. Rydym wedi clywed llawer o sôn heddiw am gynilo, toriadau a'r angen i leihau'r diffyg, ac

is sometimes easy to forget that there are other measures that Governments can take that are not related to having huge amounts of money and are not related purely to financial measures. In the case of the children and families Bill, the overdue changes to the adoption system that have been proposed, specifically the shortening of time for the adoption of ethnic minority children, is to be broadly welcomed. I have not heard anyone here saying that they would not welcome that. However, as the Secretary of State made clear in her system, this is, at this point at least, largely England-only legislation. Therefore, when you respond later, I would like to know how you are influencing the Welsh Government so that it gets on with implementing those sorts of changes because, at this juncture, that would be beneficial here as well.

Simon Thomas: I thank Nick Ramsay for giving away. He may know that the Children and Young People Committee is currently looking at adoption. The early evidence—it is not concluded, of course—is that this is not actually the main problem faced by adoption in Wales. We may need to be a little cautious in assuming that what applies in England applies in Wales as well.

Nick Ramsay: I welcome the Member's comments. Obviously, legislation here, as we know, can have differences. Nonetheless, there is a fundamental principle. My question about how you liaise with the Welsh Government still stands, and we need to see strong partnership there.

The Leader of the House, in her opening statement, probably gave the fullest and most detailed explanation of the relationship between the Welsh Government and the UK Government I have ever heard given. I suppose that people who have difficulty sleeping and who will be watching the re-runs later will be slightly nearer to sleep than they were before, and that is because of the intricate nature of what was being described, which many people would not necessarily

weithiau mae'n hawdd anghofio bod mesurau eraill y gall Llywodraethau eu cymryd nad ydynt yn gysylltiedig â chael symiau enfawr o arian ac nad ydynt yn ymwneud â mesurau ariannol yn unig. Yn achos y Bil plant a theuluoedd, dylid croesawu'n gyffredinol y newidiadau hir-ddisgwyliedig sydd wedi'u cynnig i'r system fabwysiadu, yn benodol y camau i fyrhau'r amser ar gyfer mabwysiadu plant o leiafrifoedd ethnig. Nid wyf wedi clywed neb yma'n dweud na fyddent yn croesawu hynny. Fodd bynnag, fel yr eglurodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei system, deddfwriaeth i Loegr yn unig yw hon yn bennaf, ar hyn o bryd o leiaf. Felly, pan fyddwch yn ymateb yn nes ymlaen, hoffwn wybod sut yr ydych yn dylanwadu ar Lywodraeth Cymru er mwyn iddi fwrw ati i weithredu'r mathau hynny o newidiadau, oherwydd, ar hyn o bryd, byddai hynny o fudd yma hefyd.

Simon Thomas: Diolch i Nick Ramsay am ildio. Efallai ei fod yn gwybod bod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar hyn o bryd yn edrych ar fabwysiadu. Yn ôl y dystiolaeth gynnar—nid yw'r broses wedi dod i ben, wrth gwrs—nid hon yw'r brif broblem y mae mabwysiadu'n ei hwynebu yng Nghymru mewn gwirionedd. Efallai fod angen inni fod yn ofalus wrth dybio bod yr hyn sy'n berthnasol yn Lloegr yn berthnasol yng Nghymru hefyd.

Nick Ramsay: Rwyf yn croesawu sylwadau'r Aelod. Mae'n amlwg, fel yr ydym yn gwybod, bod deddfwriaeth yn y fan hon yn gallu bod yn wahanol. Serch hynny, ceir egwyddor sylfaenol. Mae fy nghwestiwn ynghylch sut yr ydych yn cysylltu â Llywodraeth Cymru yn dal i sefyll, ac mae angen inni weld partneriaeth gref o ran hynny.

Yn ei datganiad agoriadol, rhoddodd Arweinydd y Tŷ yr esboniad llawnaf a mwyaf manwl a glywais erioed, fwy na thebyg, o'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Rwyf yn amau y bydd pobl sy'n cael trafferth cysgu ac a fydd yn gwylio'r trafodion unwaith eto'n ddiweddarach ychydig yn nes at fynd i gysgu nag yr oeddent o'r blaen, a hynny oherwydd natur gymhleth yr hyn a oedd yn cael ei ddisgrifio, na fyddai llawer o bobl yn ei

get, but I understood what you were saying, Leader of the House.

You spoke about the financial relationship between the Welsh Government and Westminster, and I was pleased that the Secretary of State spoke about the Barnett formula being reformed. It is easy to criticise the Barnett formula that currently serves Wales but, under the previous UK Government, I heard very little talk about the need to reform the Barnett formula. In fact, it was only when the UK coalition Government came into power in 2010 that this suddenly went up the agenda on all sides. That shows that this Government came in with a clear focus on something that will benefit Wales.

The Barnett floor was mentioned and I, too, like the Leader of the House and the Secretary of State, have had discussions, particularly with Gerry Holtham about this. In the medium term, it would be of assistance if we could get some sort of floor. We must recognise, however, that this is not a panacea and that the floor works when budgets are growing. It would not be so beneficial if you have a negative funding application. Again, this is not a complete alternative to the much needed reform of the Barnett formula that we hope to see coming forward at some point.

I am very disappointed that the Welsh Government cannot welcome our amendment in the name of William Graham that welcomes the UK legislative programme. Looking at what the amendment says, not supporting it will mean that the Welsh Government is voting against reducing the deficit, ensuring low interest rates and restoring economic stability. How on earth can you oppose those things? Even if you have some minor differences of opinion on certain aspects of how this is being done, how can you oppose economic stability? I really cannot understand that. With regard to the Secretary of State's comments earlier about where we would have been had we not had the UK coalition Government, I think, on the basis of your opposition to the amendment, we would be in a shocking position. The people of Wales will benefit a great deal from this.

ddeall o reidrwydd, ond deallais i'r hyn yr oeddech yn ei ddweud, Arweinydd y Tŷ.

Bu ichi sôn am y berthynas ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a San Steffan, ac roeddwn yn falch i'r Ysgrifennydd Gwladol sôn am ddiwygio fformiwla Barnett. Mae'n hawdd beirniadu fformiwla Barnett sy'n gwasanaethu Cymru ar hyn o bryd ond, dan Lywodraeth flaenorol y DU, ychydig iawn a glywais am yr angen i ddiwygio fformiwla Barnett. Yn wir, dim ond pan ddaeth Llywodraeth glymblaid y DU i rym yn 2010 y saethodd y mater hwn i fyny'r agenda'n sydyn ar bob ochr. Mae hynny'n dangos i'r Llywodraeth hon ddod i rym gyda ffocws clir ar rywbeth a fydd o fantais i Gymru.

Soniwyd am derfyn isaf Barnett, ac rwyf finnau, fel Arweinydd y Tŷ a'r Ysgrifennydd Gwladol, wedi cael trafodaethau, yn enwedig â Gerry Holtham, am hyn. Yn y tymor canolig, byddai o gymorth pe gallem gael rhyw fath o derfyn isaf. Rhaid inni gydnabod, fodd bynnag, nad yw hynny'n ateb pob problem a bod y terfyn isaf yn gweithio pan fydd cyllidebau'n tyfu. Ni fyddai mor fuddiol pe bai gennych ddyraniadau ariannu negyddol. Unwaith eto, nid yw hynny'n ddewis amgen llwyr i'r gwaith diwygio y mae ei angen yn fawr ar fformiwla Barnett, y gobeithiwn ei weld yn ymddangos rywbryd.

Rwyf yn siomedig iawn na all Llywodraeth Cymru groesawu ein gwelliant yn enw William Graham, sy'n croesawu rhaglen ddeddfwriaethol y DU. O edrych ar yr hyn y mae'r gwelliant yn ei ddweud, bydd peidio â'i gefnogi yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn pleidleisio yn erbyn lleihau'r diffyg, sicrhau cyfraddau llog isel ac adfer sefydlogrwydd economaidd. Sut yn y byd y gallwch wrthwynebu'r pethau hynny? Hyd yn oed os oes gennych rai mân wahaniaethau barn am rai agweddau ar y modd y caiff hynny ei wneud, sut y gallwch wrthwynebu sefydlogrwydd economaidd? Ni allaf ddeall hynny o gwbl. O ran sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol yn gynharach ynghylch ble y byddem wedi bod heb Lywodraeth glymblaid y DU, rwyf yn credu, ar sail eich gwrthwynebiad i'r gwelliant, y byddem mewn sefyllfa frawychus. Bydd pobl Cymru yn elwa'n fawr iawn o hyn.

Finally, I also welcome other good things, such as the Groceries Code Adjudicator Bill. I am grateful for the opportunity to contribute to this debate.

Simon Thomas: Rwy'n falch o gael cyfrannu at y ddadl hon. Hoffwn ddechrau drwy groesawu rhai o'r mesurau yn Araith y Frenhines, gan ddechrau gyda Bil derbyn Croatia, sy'n dangos bod dyfodol Ewrop yn cynnwys dyfodol nifer o wledydd annibynnol. Dyna yw dyfodol Cymru hefyd fel rhan o Ewrop, wrth gwrs. Wrth inni dderbyn Croatia yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, rydym yn gweld gwlad Groeg, fwy na thebyg, yn gadael yr ewro, sy'n rhoi cyd-destun economaidd caled i'n trafodion ni heddiw. Dim ond heddiw y mae'r Bundesbank yn yr Almaen wedi derbyn bod yn rhaid paratoi am y posibilrwydd y bydd gwlad Groeg yn gadael yr ewro. Felly, mae'n bwysig i ni bwysleisio beth y gallwn ni ei wneud yng Nghymru i dyfu'r economi yma. Hoffwn ganolbwyntio ar ddau fesur a allai effeithio ar ein gallu ni i dyfu economi werdd yng Nghymru, creu swyddi cynaliadwy a defnyddio'n perchnogaeth o'n hadnoddau naturiol.

Dechreuaf gyda'r Bil ynni. Rydym yn siomedig ym Mhlaid Cymru nad oes cyfle yn hwn i drosglwyddo'r grymoedd dros gydsyniad am brosiectau ynni dros 50 MW i Gymru. Dyma rywbeth a gynigiais yn San Steffan dros 10 mlynedd yn ôl. Rwy'n falch bod pawb yn cytuno gyda mi erbyn hyn—nid oedd neb yn cytuno ar y pryd—ond nid ydym yn gweld unrhyw gamau cyfreithiol gweithredol yn cael eu cymryd i'r perwyl hwnnw. Nid ydym yn cefnogi'r Bil ynni fel y mae ar hyn o bryd—

Antoinette Sandbach: According to a letter from Carwyn Jones, the Labour Welsh Assembly Government achieved agreement with the UK Labour Government in 2002 that there should be further devolution of energy consents. Despite the fact the One Wales Government and that Labour in the Assembly were working with Labour in Westminster, that devolution was never delivered. I would also like to put on record that our manifesto commitment is that the case for further devolution of powers over projects up to 100 MW should be made, and it is on that basis

Yn olaf, rwyf hefyd yn croesawu pethau da eraill, megis Bil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd. Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon.

Simon Thomas: I am pleased to be able to contribute to this debate. I would like to start by welcoming some of the Bills contained in the Queen's Speech, starting with the Croatian accession Bill, which shows that the future of Europe includes the future of a number of independent nations. That is also the future of Wales as part of Europe, of course. As we accept Croatia as a member of the European Union, we see Greece more than likely leaving the euro, which gives a very difficult economic context to today's debate. Just today, the Bundesbank in Germany has accepted that preparations have to be made for the possibility of Greece leaving the euro. Therefore, it is important for us to underline what we can do in Wales to grow the economy here. I want to concentrate on two Bills that could affect our ability to develop a green economy in Wales, create sustainable jobs and use our ownership of our own natural resources.

I will begin with the energy Bill. We in Plaid Cymru are disappointed that there is no opportunity here to transfer powers for energy projects over 50 MW to Wales. This is something that I proposed in Westminster over 10 years ago. I am pleased that everyone now agrees with me—no-one agreed at the time—but we have not seen any legal steps being taken towards this objective. We do not support the energy Bill as it currently stands—

Antoinette Sandbach: Yn ôl llythyr gan Carwyn Jones, cytunodd Llywodraeth Lafur Cynulliad Cymru â Llywodraeth Lafur y DU yn 2002 y dylid datganoli caniatadau ynni ymhellach. Er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru'n Un a bod y Blaid Lafur yn y Cynulliad yn gweithio gyda'r Blaid Lafur yn San Steffan, ni ddigwyddodd y datganoli hwnnw fyth. Hoffwn hefyd gofnodi mai'r ymrwymiad yn ein manifffesto yw y dylid cyflwyno'r achos o blaid datganoli pwerau dros brosiectau hyd at 100 MW ymhellach, ac ar y sail honno y ceir

that there is cross-party agreement. However, the fact remains that—

The Deputy Presiding Officer: Order. I call on Simon Thomas.

Simon Thomas: The fact is that Labour did not deliver for 13 years, and you have five years to deliver, so let us see if the Secretary of State promises to deliver that today. We will see what happens on that.

A throi yn ôl at y Bil, gwelwn y bydd newid sylweddol yn y system gymhorthdal a fydd yn disodli'r system bresennol sy'n cefnogi ynni adnewyddadwy ac yn dod i mewn â system *contracts for difference* newydd sydd mewn peryg o danseilio'r consensws, ac yn wir y gyfraith, yn erbyn cymhorthdal cyhoeddus i ynni niwclear. Mae'n siom fawr fod un blaid yma sydd bellach mewn grym yn San Steffan mor awyddus i roi cymhorthdal i ynni niwclear drwy nid yn unig y drws cefn, ond y drws ochr.

Hoffwn gynnig bod cyfle yma i ddathlu'r Jiwbilî, Ysgrifennydd Gwladol. Pa well ffordd i bobl Cymru ddathlu'r Jiwbilî na chael yn anrheg berchnogaeth dros diriogaeth Ystadau'r Goron yng Nghymru, fel gwaddol i ddatblygu ein heconomi werdd yma? Buasai hynny yn creu £2.5 miliwn y flwyddyn i Gymru y gallem ei ddefnyddio i adeiladu cronfa cyfoeth sofran ar sail ein hadnoddau naturiol. Yr hyn a ddigwyddodd yn Ynysoedd Shetland yn ôl yn y 1970au oedd y rhoddyd 1c y faril ar olew a ddaeth drwy Sullom Voe. Creodd hynny £300 miliwn dros 30 mlynedd i Ynysoedd Shetland. Pam nad ydym yn cael y cyfle i wneud hynny yn Aberdaugleddau yn sir Benfro ac ym mhob datblygiad ynni y byddwn yn ei weld yng Nghymru dros y cyfnod nesaf? Byddai hynny'n creu swyddi a chyfoeth yng Nghymru.

Wrth sôn am gyfoeth Cymru, beth am ddŵr? Mae Bil dŵr yn Araith y Frenhines. Nid oedd llawer o fanylion amdano, ond un o'r pethau a awgrymwyd yn yr araith oedd y byddai'r Bil yn cyflwyno mwy o farchnad i'r sector cyflenwi dŵr, ac rydym yn gwybod sut mae llawer o ddewis yn y farchnad cyflenwi

cytundeb trawsbleidiol. Fodd bynnag, erys y ffaith bod—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Galwaf ar Simon Thomas.

Simon Thomas: Y gwir amdani yw na lwyddodd y Blaid Lafur i gyflawni am 13 blynedd, ac mae gennych chi bum mlynedd i gyflawni, felly gadewch inni weld a fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn addo cyflawni hynny heddiw. Cawn weld beth fydd yn digwydd o ran hynny.

Returning to the Bill, we see that there is to be a significant change in the subsidy system to replace the current system that supports renewable energy and brings in a new contracts for difference system, which is in danger of undermining the consensus and, indeed, the law against public subsidy for nuclear energy. It is very disappointing that one party here, which is now in Government in Westminster, is so keen to subsidise nuclear energy not only through the back door, but through the side entrance.

I would like to propose that there is an opportunity here to celebrate the Jubilee, Secretary of State. What better way for the people of Wales to celebrate the Jubilee than by giving them ownership over the Crown Estates in Wales, as a legacy so that we can develop our green economy here? That would generate £2.5 million per annum for Wales that we could use to build a sovereign wealth fund on the back of our own natural resources. In the Shetland Islands in the 1970s, 1p a barrel was put on the oil that came through Sullom Voe. That generated £300 million over 30 years for the Shetland Islands. Why do we not get an opportunity to do something similar in Milford Haven in Pembrokeshire, and in all the energy developments that we will see in Wales over the coming period? That would create jobs and generate wealth in Wales.

Talking about Welsh wealth, what about water? There is a water Bill in the Queen's Speech. There is very little detail there, but one of the things suggested is that we introduce a greater market element into the water supply sector; we know that providing a great deal of choice in the electricity and

trydan a nwy wedi bod yn llwyddiant i gwsmeriaid. Bydd Plaid Cymru yn arbennig o wyladwrus er mwyn sicrhau nad yw'r Bil dŵr yn tanseilio sefyllfa unigryw Glas Cymru, achos rydym eisiau amddiffyn ei sefyllfa fel cwmni sy'n darparu dŵr i Gymru yn ddielw.

I want to conclude by mentioning two other pieces of legislation—one that is proposed and one that is missing. I want to welcome the Groceries Code Adjudicator Bill, another Plaid Cymru idea over the last 10 years that, at last, has seen legislative light. I hope that the regulator has teeth, because we see, in the badly planned retail parks, in our town centres and in the supply chain going back to farmers, what happens when you do not regulate the supermarket market properly.

The final issue that I want to address is that we needed to see a Bill and legislative proposals to deal with payday lenders in this Queen's Speech. The banking reform Bill could have done this. Two days ago, the Office of Fair Trading warned Wonga about its debt-collection practices. This Queen's Speech could have taken the opportunity to stop usury and impose interest rate caps now, while we wait for the Office of Fair Trading to report back on the whole of the market. Those are the issues that Plaid Cymru wanted to see addressed, and I hope that they will be addressed in future.

Eluned Parrott: I thank the Secretary of State for her earlier statement and I would like to reflect on some of those areas of the Queen's Speech that focus on boosting the economy and on two Bills in particular. First, I would like to welcome broadly the Enterprise and Regulatory Reform Bill. There are several measures in it that we can all support, particularly things like giving shareholders the power of veto over executive pay and the strengthening of our competition laws. I note Mick Antoniw's concerns over the reform of the employment tribunal system, however, and while I

gas supply sectors has been very successful for customers. Plaid Cymru will be particularly keen to ensure that the water Bill does not undermine the unique position of Glas Cymru, because we want to protect its position as a not-for-profit company providing water in Wales.

Hoffwn gloi drwy sôn am ddau ddarn arall o ddeddfwriaeth—un a gynigir ac un sydd ar goll. Rwyf am groesawu Bil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd, sef syniad arall gan Plaid Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf sydd, o'r diwedd, wedi gweld golau deddfwriaethol. Rwyf yn gobeithio y bydd gan y rheoleiddiwr ddannedd, oherwydd gallwn weld, yn y parciau manwerthu sydd wedi eu cynllunio'n wael, yng nghanol ein trefi ac yn y gadwyn gyflenwi sy'n mynd yn ôl i ffermwyr, beth sy'n digwydd pan nad ydych yn rheoleiddio'r farchnad archfarchnadoedd yn iawn.

Y mater olaf yr wyf am roi sylw iddo yw'r ffaith mai'r hyn yr oedd arnom angen ei weld oedd Bil a chynigion deddfwriaethol i ymdrin â benthycwyr diwrnod cyflog yn yr Araith hon gan y Frenhines. Gallai'r Bil diwygio'r banciau fod wedi gwneud hynny. Ddau ddiwrnod yn ôl, cafodd Wonga rybudd gan y Swyddfa Masnachu Teg am ei arferion casglu dyledion. Gallai'r Araith hon gan y Frenhines fod wedi achub ar y cyfle i roi terfyn ar usuriaeth a phennu cyfyngiadau ar gyfraddau llog yn awr, wrth inni aros i'r Swyddfa Masnachu Teg adrodd yn ôl ynghylch y farchnad gyfan. Dyna'r materion yr oedd Plaid Cymru yn awyddus i'w gweld yn cael sylw, a gobeithiaf y byddant yn cael sylw yn y dyfodol.

Eluned Parrott: Diolchaf i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei datganiad yn gynharach, a hoffwn fyfyrto ynghylch rhai o'r meysydd hynny yn Araith y Frenhines sy'n canolbwyntio ar roi hwb i'r economi, a myfyrio ynghylch dau Fil yn benodol. Yn gyntaf, hoffwn groesawu'n gyffredinol y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio. Mae'n cynnwys nifer o fesurau y gallwn i gyd eu cefnogi, yn enwedig pethau megis rhoi i gyfranddalwyr y pŵer i roi fetu ar gyflogau swyddogion a chryfhau ein deddfau ynghylch cystadleuaeth. Nodaf bryderon Mick Antoniw ynghylch diwygio'r system

welcome any steps that encouraged the positive resolution of disputes through arbitration, I would ask the Secretary of State to lobby to ensure that workers' rights are upheld and not diluted by this or any other measure.

Most particularly in this Bill, I really do welcome the establishment of the green investment bank, which will act to boost the green economy and create jobs that are environmentally and economically sustainable. It was a key part of the Liberal Democrat manifesto in 2010, and I am incredibly proud to see its introduction and the cross-party support that it has received at Westminster. I hope that it will enjoy similar support and a positive approach here in Wales.

Of course, we were all disappointed by the Welsh Government's failure to bring that bank to Cardiff. Nevertheless, this investment bank gives Wales a fantastic opportunity to apply for funding to boost the green economy here. I would ask the Welsh Government how it plans to engage with the green investment bank to make the very most of the opportunities that it presents, particularly given the failure to engage effectively not only on the location of the green investment bank, but on issues such as capital allowances or enterprise zones, on which Scotland so clearly managed to negotiate a better deal than Wales.

I am delighted to see the introduction of the banking reform Bill, originally mooted by Vince Cable well before the 2008 banking crisis. Separating high street banking from investment banking is absolutely crucial if we are to protect families' savings and avoid the kind of run on our banks that Northern Rock saw back in 2007. This is about protecting ordinary workers. This is about protecting ordinary people, and making sure that they will never again be in the firing line of risky investment practices. It will ring-fence household banking and prevent banks from using that capital—our money; ordinary people's money—to fund investment activities in the future. It will also act very

tribiwnlysoedd cyflogaeth, fodd bynnag, ac er fy mod yn croesawu unrhyw gamau a oedd yn annog pobl i ddatrys anghydfodau'n gadarnhaol drwy gyflafareddu, hoffwn ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol lobïo i sicrhau bod hawliau gweithwyr yn cael eu cynnal ac na fyddant yn cael eu gwanhau gan y mesur hwn nac unrhyw fesur arall.

Yn fwyaf penodol yn y Bil hwn, rwyf yn croesawu'n wirioneddol sefydlu'r banc buddsoddi gwyrdd, a fydd yn gweithredu i roi hwb i'r economi werdd a chreu swyddi sy'n gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol ac economaidd. Roedd yn rhan allweddol o fanifesto'r Democratiaid Rhyddfrydol yn 2010, ac rwyf yn hynod falch o'i weld yn cael ei gyflwyno ac o weld y gefnogaeth drawsbleidiol y mae wedi'i chael yn San Steffan. Rwyf yn gobeithio y bydd yn cael cefnogaeth debyg ac agwedd gadarnhaol yma yng Nghymru.

Wrth gwrs, roeddem i gyd yn siomedig gan fethiant Llywodraeth Cymru i ddod â'r banc hwnnw i Gaerdydd. Serch hynny, mae'r banc buddsoddi hwn yn rhoi cyfle gwych i Gymru wneud cais am gyllid i roi hwb i'r economi werdd yma. Hoffwn ofyn i Lywodraeth Cymru sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r banc buddsoddi gwyrdd i wneud y gorau o'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig, yn enwedig o ystyried y methiant i ymgysylltu'n effeithiol nid yn unig ynghylch lleoliad y banc buddsoddi gwyrdd ond ynghylch materion megis lwfansau cyfalaf neu ardaloedd menter, lle y llwyddodd yr Alban yn glir i sicrhau gwell bargaen na Chymru.

Rwyf wrth fy modd o weld y Bil diwygio'r banciau'n cael ei gyflwyno, sy'n Fil a grybwyllwyd yn wreiddiol gan Vince Cable ymhell cyn argyfwng bancio 2008. Mae gwahanu gweithgareddau banciau ar y stryd fawr oddi wrth eu gweithgareddau buddsoddi'n hollbwysig os ydym am warchod cynilion teuluoedd ac osgoi'r math o alw ar ein banciau a welodd Northern Rock yn ôl yn 2007. Mae a wnelo hyn â gwarchod gweithwyr cyffredin. Mae a wnelo hyn â gwarchod pobl gyffredin, a gwneud yn siŵr na fyddant byth eto'n gorfod dioddef oherwydd arferion buddsoddi y mae risg uchel yn perthyn iddynt. Bydd yn neilltuo gweithgareddau bancio ar gyfer aelwydydd

positively by helping to avoid the situation we had in 2008, when ordinary people had to bail out what they saw as billionaire bankers. It was an unacceptable situation and it should never happen again.

With regard to the issue of payday loans, which has been brought up, I would ask the Secretary of State to consider whether there is an opportunity within this particular Bill to introduce, via an amendment perhaps, some measures that will help to regulate payday lending, which is a particular blight on poorer economic areas.

I believe that this Queen's Speech makes a significant contribution to moving our economy forward, insofar as legislation can, so I cannot support Plaid's amendment. I would point out that very few of our economic levers are in fact moved by legislation, hence the weakness in the amendment, as Peter quite correctly pointed out. The IMF report yesterday has been spun in all sorts of interesting directions, and I am sure that I will hear even more during the remainder of today's debate. However, my contribution to the sport of selective quotation is from Christine Lagarde and is as follows:

'When I think back to May 2010, when the UK deficit was at 11%, and I try to imagine what the situation would be like today if no such fiscal consolidation programme had been decided, I shiver.'

The truth is, whenever those in Labour talk about the mess they left behind, they say that it was a global recession. When they talk about the economy today, the eurozone crisis apparently does not figure. Yet again, we see why you cannot trust Labour with our money.

ac yn atal banciau rhag defnyddio'r cyfalaf hwnnw—ein harian ni; arian pobl gyffredin—i ariannu gweithgareddau buddsoddi yn y dyfodol. Bydd hefyd yn gweithredu'n gadarnhaol iawn trwy helpu i osgoi'r sefyllfa a gawsom yn 2008, pan fu'n rhaid i bobl gyffredin achub bancwyr a oedd, yn eu barn nhw, â biliynau o bunnoedd i'w henw. Roedd yn sefyllfa annerbyniol, ac ni ddylai ddigwydd byth eto.

O ran y mater sy'n ymwneud â benthyciadau diwrnod cyflog, sydd wedi ei godi, hoffwn ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried a oes cyfle yn y Bil penodol hwn i gyflwyno, trwy welliant efallai, rai mesurau a fydd yn helpu i reoleiddio arferion benthycia diwrnod cyflog, sy'n bla mewn ardaloedd economaidd tlotach yn benodol.

Credaf fod yr Araith hon gan y Frenhines yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o symud ein heconomi yn ei blaen, i'r graddau y gall deddfwriaeth wneud hynny, felly ni allaf gefnogi gwelliant Plaid Cymru. Hoffwn nodi mai ychydig iawn o'n hysgogiadau economaidd a gaiff eu sbarduno mewn gwirionedd gan ddeddfwriaeth, a dyna pam y mae'r gwelliant yn wan, fel y nododd Peter yn gywir ddigon. Mae adroddiad y Gronfa Ariannol Ryngwladol ddoe wedi cael ei dynnu i bob math o gyfeiriadau diddorol o ran sbin, ac rwyf yn siŵr y byddaf yn clywed rhagor eto yn ystod gweddill y ddadl heddiw. Fodd bynnag, mae fy nghyfraniad i i'r gamp o ddyfynnu'n ddewisol wedi'i seilio ar yr hyn a ddywedodd Christine Lagarde, ac mae fel a ganlyn:

Byddaf yn arswydo wrth feddwl yn ôl i fis Mai 2010, pan oedd diffyg y DU yn 11%, ac wrth geisio dychmygu beth fyddai'r sefyllfa heddiw pe na bai rhaglen gyfuno ariannol o'r fath wedi ei phenderfynu.

Y gwir yw, pryd bynnag y mae'r sawl sydd yn y Blaid Lafur yn siarad am y llanast a adawsant ar ôl, byddant yn dweud mai'r dirwasgiad byd-eang oedd ar fai. Pan fyddant yn sôn am yr economi heddiw, nid yw argyfwng ardal yr ewro fel pe bai'n bwysig. Unwaith eto, rydym yn gweld pam na allwch ymddiried yn y Blaid Lafur i ofalu am ein harian.

Finally, I would add my voice to the voices of those Members who have called for electrification of the Valleys lines to go ahead. It is truly a crucial driver for the growth of the south Wales economy. We have heard in this Chamber that rail infrastructure is a reserved matter, but economic development is devolved, and the Welsh Government has invested directly in Welsh rail infrastructure in the past, including the opening of the line that passes my own home. I am therefore a little mystified by the sudden hardening of this particular line since the spring of 2010 or thereabouts, and I would call on the Welsh Government to work positively and in good faith with Westminster to achieve this goal for all of us. I would also call on the Secretary of State to be a positive, honest advocate for Wales in her dealings with the Westminster Government. We need you to be that strong voice. We need to understand that you are fighting for us. We need that

Julie Morgan: I am very pleased to welcome the Secretary of State to the Assembly. I would like to make some general comments about the Queen's Speech and then address some of the implications for children and families in Wales.

4.30 p.m.

First of all, it is an extraordinarily short Queen's Speech. The fact that there are only 15 Bills and 4 draft Bills is absolutely extraordinary. It is a programme rather like that at the end of a Parliament rather than in the middle of a Parliament, especially considering that it is two years since there was last a Queen's Speech. It has already been said in this Chamber today that what was needed was a boost for growth. The G8 has been discussing how to boost growth, but what has the UK Government been doing? The capital expenditure programme has been cut with no alternatives, and this follows an abysmal budget. We will not forget easily in this Chamber the caravan tax, the pasty tax and the granny tax, which hit so many of our constituents in ways that are so important to us.

Yn olaf, hoffwn gefnogi'r Aelodau hynny sydd wedi galw am i'r broses o drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd fynd rhagddi. Mae'n sbardun gwirioneddol bwysig ar gyfer twf yn economi'r de. Rydym wedi clywed yn y Siambr hon bod seilwaith rheilffyrdd yn fater a gadwyd yn ôl, ond mae datblygu economaidd wedi'i ddatganoli, ac mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n uniongyrchol yn seilwaith rheilffyrdd Cymru yn y gorffennol, gan gynnwys agor y rheilffordd sy'n pasio fy nghartref fy hun. Felly, mae'n ddirgelwch i mi pam y mae agwedd lymach wedi'i mabwysiadu'n sydyn at y mater hwn ers gwanwyn 2010 neu oddeutu'r adeg honno, a hoffwn alw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n gadarnhaol ac yn ddidwyll gyda San Steffan i gyflawni'r nod hwn ar ran pob un ohonom. Hoffwn alw hefyd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i fod yn eiriolwr cadarnhaol a gonest dros Gymru yn ei hymwneud â'r Llywodraeth yn San Steffan. Mae arnom angen ichi fod yn llais cryf. Mae angen inni ddeall eich bod yn ymladd ar ein rhan. Mae arnom angen hynny.

Julie Morgan: Rwyf yn falch iawn o groesawu'r Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad. Hoffwn wneud rhai sylwadau cyffredinol am Araith y Frenhines ac yna mynd i'r afael â rhai o'r goblygiadau ar gyfer plant a theuluoedd yng Nghymru.

Yn gyntaf, mae'r Araith hon gan y Frenhines yn eithriadol o fyr. Mae'r ffaith mai dim ond 15 o Filiau a 4 o Filiau drafft sydd ynddi'n hollol eithriadol. Mae'n rhaglen debyg i'r hyn a geir ar ddiwedd Senedd yn hytrach nag ynghanol Senedd, yn enwedig o ystyried bod dwy flynedd wedi pasio ers Araith ddiwethaf y Frenhines. Nodwyd eisoes yn y Siambr hon heddiw mai'r hyn yr oedd ei angen oedd hwb ar gyfer twf. Mae'r G8 wedi bod yn trafod sut i hybu twf, ond beth y mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ei wneud? Mae'r rhaglen gwariant cyfalaf wedi ei thorri heb unrhyw gynigion amgen, ac mae hynny'n dilyn cyllideb druenus. Nid ar chwarae bach y byddwn yn anghofio yn y Siambr hon am y dreth ar garafanau, y dreth ar basteiod a'r dreth ar bensynwyr, a darodd gynifer o'n hetholwyr mewn ffyrdd sydd mor bwysig inni.

Business leaders have reacted badly to the Queen's Speech, and comments by William Hague that businesses were 'complaining', and by Phillip Hammond that they were 'whingeing' have produced an angry response. The president of the Confederation of British Industry in England said that what was needed was 'delivery on promises made', and that he wants the Government to 'step up the pace'. The IMF said yesterday that the Government should be doing more to boost investment. There is clear evidence that the business community is unhappy with the latest budget.

In addition, as has already been said in this Chamber, the issue of regional pay hangs over Wales with all its huge dangers. Jonathan Price's analysis has shown up the Treasury's flawed evidence, its thinking has been exposed, and its case has been destroyed.

Antoinette Sandbach: Do you accept that it was Labour that introduced regional pay to Wales in the courts system?

Julie Morgan: We certainly had no intention of introducing widespread regional pay in the way that this is planned.

Yesterday, the Secretary of State introduced the Green Paper on changes to the electoral system, and it really felt like fiddling while Rome burns. She has no mandate and should be dealing with the real problems of real people in Wales.

I now want to comment on some of the proposals regarding children in the Queen's Speech. A lot of them affect England only, but some of them do affect Wales, and I generally welcome the sharing of parental leave between men and women, as my colleague Lynne Neagle said. It is a good move, and I am pleased that the Conservatives now support Labour's policies. They are late converts on these issues, but that is very welcome. However, it will not be a great advantage at a time when there is such a shortage of jobs. It is all very well being able to share parental leave, but you need a

Mae arweinwyr busnes wedi ymateb yn wael i Araith y Frenhines, ac mae sylwadau gan William Hague bod busnesau'n cwyno a sylwadau gan Phillip Hammond eu bod yn swian wedi ennyn ymateb blin. Dywedodd llywydd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yn Lloegr mai'r hyn yr oedd ei angen oedd camau i wireddu'r addewidion a wnaed, a'i fod am i'r Llywodraeth roi ei throed ar y sbardun. Dywedodd y Gronfa Ariannol Ryngwladol ddoe y dylai'r Llywodraeth fod yn gwneud mwy i hybu buddsoddi. Mae tystiolaeth glir bod y gymuned fusnes yn anfodlon â'r gyllideb ddiweddaraf.

Yn ogystal, fel y dywedwyd eisoes yn y Siambr hon, mae cyflogau rhanbarthol yn fater sy'n bygwth Cymru â'i holl beryglon enfawr. Mae dadansoddiad Jonathan Price wedi amlygu tystiolaeth ddiffygiol y Trysorlys, mae ei syniadau wedi eu datgelu, ac mae ei achos wedi ei ddinistrio.

Antoinette Sandbach: A ydych yn derbyn mai'r Blaid Lafur a gyflwynodd gyflogau rhanbarthol i Gymru yn system y llysoedd?

Julie Morgan: Yn sicr nid oeddem yn bwriadu cyflwyno cyflogau rhanbarthol ar raddfa eang yn y modd y mae hyn wedi ei gynllunio.

Ddoe, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol Bapur Gwyrdd ar newidiadau i'r system etholiadol, ac roedd materion dibwys fel pe baent yn cael sylw yn wyneb argyfwng. Nid oes ganddi fandad, a dylai fod yn ymdrin â phroblemau go iawn pobl go iawn yng Nghymru.

Hoffwn wneud sylwadau'n awr ar rai o'r cynigion ynghylch plant yn Araith y Frenhines. Mae llawer ohonynt yn effeithio ar Loegr yn unig, ond mae rhai ohonynt yn effeithio ar Gymru. Yn gyffredinol, rwyf yn croesawu rhannu absenoldeb rhiant rhwng dynion a menywod, fel y dywedodd fy nghydweithiwr, Lynne Neagle. Mae'n gam da, ac rwyf yn falch bod y Ceidwadwyr bellach yn cefnogi polisiau'r Blaid Lafur. Maent yn hwyr yn dod i ddeall y materion hyn, ond mae'n gam sydd i'w groesawu'n fawr. Fodd bynnag, ni fydd yn fantais fawr ar adeg lle y mae swyddi mor brin. Mae'n iawn

job to take leave from. Many of the jobs that do exist are part time, and there is not enough demand in the economy to boost the number of full-time jobs. This Queen's Speech does little to help.

We are also still waiting for the Government to fulfil its commitment to extend the right to request flexible working to all employees. Again, the right to work flexibly is only relevant if you have a job in the first place, but nevertheless, this would be a welcome move. Labour introduced the right to request flexible working for parents a considerable number of years ago, and I proposed that it should be extended to all carers and employees. I understand that the UK Government has said that it will do this, but it was not in this Queen's Speech, so I wonder if it would be possible to have some information about that. It has been a very successful policy and has meant that the vast majority of requests for flexible leave have been granted. For parents, this is a big issue, but not such a big issue as having the jobs there in the first place. I hope that the Secretary of State will be able to tell us something about that.

I also welcome the speeding-up of the family justice system. The Children and Young People Committee is doing an inquiry into adoption and we are all concerned about the number of children who have to wait a long time for parents.

In conclusion, this is a Queen's Speech with little ambition, in which the coalition Government could have addressed the real problems in the economy and for families, but chose not to. What has been left out seems more important than what was left in. It is riddled with sins of omission.

Janet Finch-Saunders: I begin by extending my thanks to the Secretary of State for Wales for her statement and address to the National Assembly for Wales today. I certainly recognise the importance of her role, and

gallu rhannu absenoldeb rhiant, ond mae arnoch angen swydd fel y gallwch fanteisio ar yr absenoldeb hwnnw. Mae llawer o'r swyddi sy'n bodoli yn swyddi rhan amser, ac nid oes digon o alw yn yr economi i gynyddu nifer y swyddi llawn amser. Nid yw'r Araith hon gan y Frenhines yn gwneud fawr ddim i helpu.

Rydym hefyd yn dal i aros i'r Llywodraeth gyflawni ei hymrwymiad i ymestyn yr hawl i ofyn am drefniadau gweithio hyblyg i bob gweithiwr. Unwaith eto, nid yw'r hawl i weithio'n hyblyg yn berthnasol oni bai bod gennych swydd yn y lle cyntaf. Serch hynny, byddai'n gam i'w groesawu. Cyflwynodd y Blaid Lafur yr hawl i ofyn am drefniadau gweithio hyblyg i rieni flynyddoedd lawer yn ôl, a chynigiais y dylid ymestyn yr hawl i bob gofawr a gweithiwr. Deallaf fod Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn gwneud hynny, ond nid oedd yn Araith y Frenhines. Felly, tybed a fyddai'n bosibl cael rhywfaint o wybodaeth am hynny? Mae wedi bod yn bolisi llwyddiannus iawn ac wedi golygu bod y rhan fwyaf o geisiadau am absenoldeb hyblyg wedi cael eu cymeradwyo. Mae'n fater pwysig i rieni, ond nid yw'n fater mor bwysig â chael swyddi yn y lle cyntaf. Gobeithio y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu dweud rhywbeth wrthym am hynny.

Rwyf hefyd yn croesawu cyflymu prosesau'r system cyfiawnder teuluol. Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn cynnal ymchwiliad i fabwysiadu, ac rydym i gyd yn pryderu am nifer y plant sy'n gorfod aros yn hir am rieni.

I gloi, prin yw'r uchelgais yn yr Araith hon gan y Frenhines, lle y gallai'r Llywodraeth glymblaid fod wedi mynd i'r afael â'r problemau go iawn yn yr economi ac ar gyfer teuluoedd, ond dewisodd beidio â gwneud hynny. Ymddengys fod yr hyn sydd wedi ei hepgor o'r araith yn bwysicach na'r hyn a adawyd ynddi. Mae llawer iawn o bethau a ddylai fod ynddi wedi eu hepgor.

Janet Finch-Saunders: Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Ysgrifennydd Gwladol Cymru am ei datganiad a'i hanerchiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru heddiw. Rwyf yn sicr yn cydnabod pwysigrwydd ei

would like to pay tribute to the way in which you carry out your duties with integrity, dedication and, at all times, a resolute commitment to the people of Wales and to our political institutions.

It is nearly two years since the Queen's Speech was last debated in this Chamber, and it is right and proper to say that, during that time, the UK coalition Government has achieved an astonishing amount, by way of principled economic and visionary social reform. We have seen action on the deficit, reform of the NHS, the ushering in of a new approach to education and capital investment in our roads, railways and infrastructure. All of this has been achieved against a backdrop of the most difficult set of Government finances ever inherited by any incoming Government. Indeed, *The Economist* was quite right in its lead article on 12 May to call the Conservative-led coalition the west's most radical Government. I sincerely doubt whether the Labour Government in Wales will ever become a challenger to that title.

Building upon the solid foundations of the past two years, this Queen's Speech can and will deliver for the people of the United Kingdom, and no more so than here in Wales. Our No. 1 priority has to be continued action on the deficit, coupled with a steadfast commitment to tackling it over the course of this Parliament. That is the only way to ensure financial and economic stability for all. Greek bond yields are trading at a staggering 30%, whereas, in Britain, five-year UK gilts were trading at just 0.83%. One only has to look at the problem in Europe to realise that if we stray off that track, we are in big trouble. Under the stewardship of a fiscally responsible Government, we have managed to keep interest rates low, while retaining our AAA credit rating and reducing the budget deficit by a quarter—yes, that is reducing the budget deficit by a quarter. Our fiscal choices mean that less debt will be passed on from this generation to the next. Our children should be allowed to play and not pay for the consequences of Labour's game of roulette with our nation's finances.

rôl, a hoffwn roi teyrnged i'r modd yr ydych yn cyflawni eich dyletswyddau gydag uniondeb, ymroddiad a chydag ymrwymiad pendant, bob amser, i bobl Cymru a'n sefydliadau gwleidyddol.

Mae bron i ddwy flynedd wedi pasio ers y tro diwethaf i Araith y Frenhines gael ei thrafod yn y Siambr hon, ac mae'n hollol gywir a phriodol dweud, yn ystod y cyfnod hwnnw, bod yr hyn y mae Llywodraeth glymblaid y DU wedi ei gyflawni'n rhyfeddol, o safbwynt diwygio economaidd egwyddorol a diwygio cymdeithasol gweledigaethol. Rydym wedi gweld camau gweithredu yng nghyswllt lleihau'r diffyg, diwygio'r GIG, cyflwyno agwedd newydd at addysg a buddsoddi cyfalaf yn ein ffyrdd, ein rheilffyrdd a'n seilwaith. Mae hyn i gyd wedi ei gyflawni yn erbyn cefndir sy'n cynnwys y set anoddaf o amodau ariannol a etifeddwyd erioed gan unrhyw Lywodraeth newydd. Yn wir, roedd *The Economist* yn eithaf cywir yn ei brif erthygl ar 12 Mai wrth alw'r glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr yn Llywodraeth fwyaf radical y gorllewin. Rwyf yn amau'n fawr a fydd y Llywodraeth Lafur yng Nghymru fyth yn gallu dod yn agos at gipio'r teitl hwnnw.

Gan adeiladu ar seiliau cadarn y ddwy flynedd ddiwethaf, gall Araith y Frenhines a bydd Araith y Frenhines yn cyflawni ar ran pobl y Deyrnas Unedig, ac yn unman yn fwy felly nag yma yng Nghymru. Rhaid mai ein prif flaenoriaeth yw parhau i weithredu yng nghyswllt y diffyg, gan ymrwmo'n gadarn i fynd i'r afael ag ef yn ystod y Senedd hon. Dyna'r unig ffordd o sicrhau sefydlogrwydd ariannol ac economaidd i bawb. Mae arenillion bondiau gwlad Groeg yn masnachu ar lefel syfrdanol o 30%, tra, ym Mhrydain, roedd stociau ymyl aur pum mlynedd y DU yn masnachu ar lefel o 0.83% yn unig. Nid oes ond angen ichi edrych ar y broblem yn Ewrop i sylweddoli y byddwn mewn trafferthion mawr os byddwn yn crwydro oddi ar y llwybr hwnnw. Dan stiwardiaeth Llywodraeth gyfrifol o safbwynt ariannol, rydym wedi llwyddo i gadw cyfraddau llog yn isel, gan gadw ein statws AAA o ran credyd a chael gwared ar chwarter y diffyg yn y gyllideb—ie, cael gwared ar chwarter y diffyg yn y gyllideb. Mae ein dewisiadau ariannol yn golygu y bydd llai o ddyled yn

cael ei throsglwyddo o'r genhedlaeth hon i'r genhedlaeth nesaf. Dylai ein plant gael chwarae a pheidio â gorfod talu am ganlyniadau gêm roulette y Blaid Lafur ag arian ein cenedl.

The greatest strength of the UK Government so far has been its ability to push ahead with the politics of fairness and compassion—Conservatism even in this difficult time of austerity. Compassion at home has meant that 24 million people will be £546 a year better off following the increase in personal tax allowances to £9,000 by April next year. Pensioners in Wales will benefit from an extra £5.30 a week, which is the largest ever rise in the weekly take-home state pension. There is also compassion, as our leader mentioned, for the poor across the world, with a commitment to spend 0.7% of gross national income on development aid by next year. That money will go to help change the lives of people who are considerably less fortunate than us.

The Queen's Speech contains a package of Bills that seeks to build upon the steady progress of the past couple of years. A Bill to reform the banking system has been mentioned, putting the lacklustre regulation of the past behind us for good. There is a Bill to reform the courts, which will make the system more efficient, modern and transparent, and the energy Bill to reform the energy market and to deliver cleaner energy and cheaper bills. There is a Bill to reduce the regulatory burden on enterprise and to reform directors' pay and, as has been mentioned, a Groceries Code Adjudicator Bill, which will ensure a fair deal for our Welsh farmers. There is a Bill to reform the electoral system to tackle electoral fraud and to make it easier for people to register. There are no gimmicks and no legislating for the sake of it. This Queen's Speech contains practical, sensible and promising reforms and I commend it to this Chamber and to the people of Wales. Together, we are putting Wales and Britain back on track on the basis of fairness, compassion and, above all, responsibility.

Jenny Rathbone: Janet Finch-Saunders

Cryfder mwyaf Llywodraeth y DU hyd yn hyn fu ei gallu i fwrw ymlaen â gwleidyddiaeth tegwch a thosturi—Ceidwadaeth hyd yn oed yn ystod y cyfnod anodd hwn o gynilo. Mae tosturi gartref wedi golygu y bydd 24 miliwn o bobl £546 y flwyddyn yn well eu byd yn dilyn y cynnydd mewn lwfansau treth personol i £9,000 erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Bydd pensïynwyr yng Nghymru yn elwa o £5.30 ychwanegol yr wythnos, sef y cynnydd mwyaf erioed ym mhensiwn wythnosol y wladwriaeth ar ôl didyniadau. Dangosir tosturi hefyd, fel y soniodd ein harweinydd, tuag at bobl dlawd ar draws y byd, gydag ymrwymiad i wario 0.7% o'n hincwm gwladol crynswth ar gymorth datblygu erbyn y flwyddyn nesaf. Bydd yr arian hwnnw'n mynd i helpu i newid bywydau pobl sydd dipyn yn llai ffodus na ni.

Mae Araith y Frenhines yn cynnwys pecyn o Filiau sy'n ceisio adeiladu ar gynnydd cyson y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae Bil i ddiwygio'r system fancio wedi ei grybwyll, gan roi rheoleiddio di-fflach y gorffennol o'r neilltu am byth. Ceir Bil i ddiwygio'r llysoedd, a fydd yn gwneud y system yn fwy effeithlon, modern a thryloyw, a cheir Bil ynni i ddiwygio'r farchnad ynni a darparu ynni glanach a biliau rhatach. Ceir Bil i leihau'r baich rheoleiddio ar fentrau a diwygio cyflogau cyfarwyddwyr, ac fel y soniwyd, ceir Bil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd, a fydd yn sicrhau bargaen deg i'n ffermwyr yng Nghymru. Ceir Bil i ddiwygio'r system etholiadol er mwyn mynd i'r afael â thwyll etholiadol a'i gwneud yn haws i bobl gofrestru. Nid oes unrhyw gimics nac unrhyw ddeddfu er mwyn deddfu. Mae'r Araith hon gan y Frenhines yn cynnwys diwygiadau ymarferol, synhwyrol ac addawol, ac fe'i cymeradwyaf i'r Siambr hon a phobl Cymru. Gyda'n gilydd, rydym yn rhoi Cymru a Phrydain yn ôl ar y trywydd cywir ar sail tegwch, tosturi ac, yn anad dim, cyfrifoldeb.

Jenny Rathbone: Ymddengys fod Janet

seems to inhabit a rather different world to the one in I which I live. However, pointing that out is not the reason why I wanted to speak in the debate today. I wanted to ask the Secretary of State, given that she is here, about the draft local audit Bill, which abolishes the Audit Commission and raises significant questions about the future of the national fraud initiative. The NFI uses data matching across mostly public sector organisations to detect fraud as well as mistakes. It matches pension records with records of deceased people to ensure that people are no longer being paid when they are no longer with us. It matches council tax records with electoral registers to ensure that people are not fraudulently claiming a single person discount. It matches housing benefit claimant records with payroll information to ensure that incomes are being properly declared. In doing so, it identified £276 million of overpayments and payments made in error last year, of which £6 million was in Wales. In the context of much less money being available to stretch across our public services, I find it difficult to understand why we are abolishing the Audit Commission, which was one of the experts in doing things more effectively.

Cheryl Gillan: I am most grateful to you for allowing me to intervene. I will try to set your mind at rest. The draft local audit Bill does not apply to Wales at all; I hope that that is helpful.

Jenny Rathbone: Thank you for that clarification. However, you will be aware that the Wales Audit Office collaborates with the Audit Commission and the relevant bodies in Scotland and Ireland. My point is, therefore, entirely relevant. The arrangements that your Government puts in place for how we are going to take forward the national fraud initiative are crucial to understanding how well we are going to be able to track down fraud in future. It is of concern, for example, that central Government departments are not automatically part of the national fraud

Finch-Saunders yn byw mewn byd sydd ychydig yn wahanol i'r un yr wyf i'n byw ynddo. Fodd bynnag, nid tynnu sylw at hynny oedd y rheswm pam yr oeddwn yn awyddus i siarad yn y ddadl heddiw. Roeddwn am ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol, o ystyried ei bod yma, am y Bil archwilio lleol drafft, sy'n diddymu'r Comisiwn Archwilio ac yn codi cwestiynau pwysig am ddyfodol y fenter twyll genedlaethol. Mae'r fenter yn defnyddio trefniadau paru data ar draws sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn bennaf i ganfod twyll yn ogystal â chamgymeriadau. Mae'n paru cofnodion ynghylch pensiynau â chofnodion ynghylch pobl sydd wedi marw er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael rhagor o daliadau pan fyddant wedi ein gadael. Mae'n paru cofnodion ynghylch y dreth gyngor â chofrestrau etholiadol er mwyn sicrhau nad yw pobl yn twylllo drwy hawlio gostyngiad person sengl. Mae'n paru cofnodion ynghylch y sawl sy'n hawlio budd-dal tai â gwybodaeth am gyflogresi er mwyn sicrhau bod incwm yn cael ei ddatgan yn gywir. Wrth wneud hynny, llwyddodd i ganfod gwerth £276 miliwn o ordaliadau a thaliadau a wnaed drwy gamgymeriad y llynedd, yr oedd gwerth £6 miliwn ohonynt yng Nghymru. Yng nghyd-destun y ffaith bod llai o arian o lawer ar gael i'w ymestyn ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus, rwyf yn ei chael yn anodd deall pam yr ydym yn diddymu'r Comisiwn Archwilio, a oedd yn un o'r arbenigwyr ar wneud pethau'n fwy effeithiol.

Cheryl Gillan: Rwyf yn hynod ddiolchgar ichi am ganiatáu imi ymyrryd. Hoffwn geisio tawelu eich meddwl. Nid yw'r Bil archwilio lleol drafft yn berthnasol i Gymru o gwbl; rwyf yn gobeithio bod hynny'n ddefnyddiol.

Jenny Rathbone: Diolch am yr eglurhad hwnnw. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cydweithio â'r Comisiwn Archwilio a'r cyrff perthnasol yn yr Alban ac Iwerddon. Mae fy mhwynt, felly, yn hollol berthnasol. Mae'r trefniadau y mae eich Llywodraeth yn eu rhoi ar waith ar gyfer y modd y byddwn yn symud y fenter twyll genedlaethol yn ei blaen yn hollbwysig o ran deall pa mor dda y gallwn ganfod twyll yn y dyfodol. Mae'n peri pryder, er enghraifft, nad yw adrannau'r Llywodraeth ganolog yn rhan o'r fenter twyll

initiative—only a couple of departments are currently part of it. The list of organisations that are voluntarily part of the initiative in Wales includes the Welsh Government, which is excellent, but it is incredibly important that we understand why HM Revenue and Customs is one of many central Government departments that are not part of the NFI when this was a key recommendation of the UK-wide NFI report. I would encourage the UK Government to think about that.

One of my constituents was convicted of an unbelievably huge fraud—a £250 million VAT carousel fraud, which is clearly of relevance to HM Revenue and Customs. In this particular instance, the fraud was detected, but there must be other instances where the failure to co-operate between all Government departments means that we are holding one hand behind our backs in detecting fraud. There is obviously a lot more that we can be doing in Wales to detect fraud. We can, for example, insist on the participation in the initiative of public bodies with which the Welsh Government has a contract. Cardiff University, for example, is the only one of our universities that is voluntarily part of the initiative; the others could and should be encouraged to join. Housing associations, for example, are not normally part of the initiative either, but there is obvious scope for fraud to be going on in their operations. In particular, I would like to ensure that registrars of deaths in all of our town halls automatically inform the people who issue bus passes and the social services that are paying for care homes, so that we are not continuing to pay for services that a person clearly no longer needs.

4.45 p.m.

William Powell: I thank the Secretary of State for her presence here today and for the contribution that she has made to today's proceedings. I will confine my remarks to the Groceries Code Adjudicator Bill, principally, and to the energy Bill. I strongly welcome the Groceries Code Adjudicator Bill announced in the Queen's Speech. As we have heard, the Bill will establish a groceries code

enedlaethol yn awtomatig—dim ond ychydig o adrannau sy'n rhan ohoni ar hyn o bryd. Mae'r rhestr o sefydliadau sydd wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r fenter yng Nghymru yn cynnwys Llywodraeth Cymru, sy'n ardderchog, ond mae'n hynod bwysig ein bod yn deall pam y mae Cyllid a Thollau EM yn un o nifer o adrannau'r Llywodraeth ganolog nad ydynt yn rhan o'r fenter twyll genedlaethol, pan oedd hynny'n un o argymhellion allweddol adroddiad y fenter ar gyfer y DU gyfan. Hoffwn annog Llywodraeth y DU i feddwl am hynny.

Cafodd un o'm hetholwyr ei ddyfarnu'n euog o dwyll anhygoel o fawr—twyll carwsél gwerth £250 miliwn yng nghyswllt TAW, sy'n amlwg yn berthnasol i Gyllid a Thollau EM. Yn yr achos penodol hwnnw, cafodd y twyll ei ganfod, ond rhaid bod achosion eraill lle y mae methiant i gydweithredu rhwng holl adrannau'r Llywodraeth yn golygu ein bod yn ceisio canfod twyll ag un llaw y tu ôl i'n cefnau. Mae'n amlwg bod llawer mwy y gallwn ei wneud yng Nghymru i ganfod twyll. Gallwn, er enghraifft, fynnu bod cyrff cyhoeddus y mae gan Lywodraeth Cymru contract â hwy'n cymryd rhan yn y fenter. Er enghraifft, Prifysgol Caerdydd yw'r unig un o'n prifysgolion sydd wedi gwirfoddoli i fod yn rhan o'r fenter; gallai a dylai'r lleill gael eu hannog i ymuno. Nid yw cymdeithasau tai, er enghraifft, yn rhan o'r fenter fel rheol chwaith, ond mae lle amlwg i dwyll fynd rhagddo yn eu gweithrediadau. Yn benodol, hoffwn sicrhau bod cofrestryddion marwolaethau ym mhob un o'n neuaddau trefi yn rhoi gwybod yn awtomatig i'r bobl sy'n dosbarthu tocynnau bysiau ac i'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n talu am gartrefi gofal, fel nad ydym yn parhau i dalu am wasanaethau y mae'n amlwg nad oes eu hangen mwyach ar unigolyn.

William Powell: Rwyf yn diolch i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei phresenoldeb yma heddiw ac am y cyfraniad y mae wedi'i wneud i'r trafodion heddiw. Rwyf am gyfyngu fy sylwadau i Fil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd yn bennaf, ac i'r Bil ynni. Rwyf yn croesawu'n fawr Bil Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Bwydydd a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines. Fel yr ydym wedi

adjudicator that, in effect, is a supermarket ombudsman, and something that all parties at this Assembly have reason to welcome. As long ago as 1998, the Liberal Democrat MP Colin Breed published a report into supermarkets and competition, which ultimately led to the Competition Commission establishing a voluntary code of practice. In this context, I would also like to pay tribute—despite earlier provocation—to my neighbour Simon Thomas for the work that he did when he was a member of another place in relation to this matter. I would also like to pay tribute to my friend Roger Williams, the MP for Brecon and Radnor, who has been very active in this particular field. However, the voluntary code of practice meant that it was ultimately ineffective because it relied on good will. Suppliers were disinclined to make complaints, the supermarkets were not held to account, and there was nobody overseeing the whole process to ensure that codes were properly adhered to. The next step in this lengthy process was the establishment of the groceries supply code of practice, which was more robust, but its main failing was the fact that there was still no arbiter. Finally, after many years, this Bill will establish a statutory role for an adjudicator to ensure that suppliers are able to make the case for a fair price for their products from the large supermarkets chains. This is a major step forward.

The Bill is aimed exclusively at the largest supermarkets—those with a groceries turnover of more than £1 billion annually—as it is felt that the biggest abuses occur at this end of the market. This Bill has been broadly welcomed by the farming unions and the wider public. Indeed, the NFU said that it should result in far fewer examples of flagrant bully-boy tactics by the largest supermarkets. This is to be welcomed by all of us. In the first instance, as the Secretary of State has reminded us, the groceries code will be enforced primarily through naming and shaming. However, there will be powers reserved to Ministers to impose fines and

clywed, bydd y Bil yn sefydlu dyfarnwr ar gyfer y cod cyflenwi bwydydd a fydd, i bob pwrpas, yn ombwdsmon archfarchnadoedd, ac mae hynny'n rhywbeth y mae gan bob plaid yn y Cynulliad hwn reswm i'w groesawu. Mor bell yn ôl ag 1998, cyhoeddodd Aelod Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol, Colin Breed, adroddiad ar archfarchnadoedd a chystadleuaeth, a arweiniodd yn y pen draw at sefydlu'r cod ymarfer gwirfoddol gan y Comisiwn Cystadleuaeth. Yn y cyd-destun hwn, hoffwn roi teyrnged hefyd i'm cymydog Simon Thomas —er gwaethaf y pryfocio'n gynharach—am y gwaith a wnaed ganddo mewn perthynas â'r mater hwn pan oedd yn aelod o sefydliad arall. Hoffwn roi teyrnged hefyd i'm cyfaill Roger Williams, yr Aelod Seneddol dros Frycheiniog a Sir Faesyfed, sydd wedi bod yn weithgar iawn yn y maes penodol hwn. Fodd bynnag, roedd y cod ymarfer gwirfoddol yn aneffeithiol yn y pen draw gan ei fod yn dibynnu ar ewyllys da. Roedd cyflenwyr yn amharod i wneud cwynion, nid oedd yr archfarchnadoedd yn cael eu dwyn i gyfrif, ac nid oedd neb yn goruchwyllo'r holl broses i sicrhau bod pawb yn cadw at y codau fel y dylent. Y cam nesaf yn y broses faith hon oedd sefydlu'r cod ymarfer ar gyfer cyflenwi bwydydd, a oedd yn god ymarfer mwy cadarn, ond ei brif fethiant oedd y ffaith nad oedd gan y maes ganolwr o hyd. O'r diwedd, ar ôl aros am flynyddoedd lawer, bydd y Bil hwn yn sefydlu rôl statudol ar gyfer dyfarnwr i sicrhau bod cyflenwyr yn gallu cyflwyno achos dros gael pris teg am eu cynnyrch gan y cadwyni archfarchnadoedd mawr. Mae hwn yn gam mawr ymlaen.

Dim ond yr archfarchnadoedd mwyaf sy'n cael eu targedu yn y Bil—sef yr archfarchnadoedd hynny y mae eu trosiant o ran bwydydd yn fwy nag £1 biliwn y flwyddyn—oherwydd y teimlad yw bod yr achosion mwyaf o anghyfiawnder yn digwydd ar y pen hwn o'r farchnad. Mae undebau'r ffermwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol wedi croesawu'r Bil hwn. Yn wir, dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr y dylai arwain at lawer llai o enghreifftiau o'r archfarchnadoedd mwyaf yn defnyddio tactegau bwlio digywilydd. Dylai pob un ohonom groesawu hyn. Yn y lle cyntaf, fel y mae'r Ysgrifennydd Gwladol

sanctions if necessary. This will give additional strength, which will ensure the effectiveness of the measure.

As for the energy Bill, during the next decade around a fifth of the existing power-generating capacity will come offline. Without the energy Bill, we would in the future see blackouts affecting millions of homes. I am reminded of the words of the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science at the launch of the cross-party group on energy, chaired by Angela Burns, when she referred to the essential importance of continuity of supply and the fact that the lights must stay on. This is essential. The reforms will attract £110 billion of investment in clean energy, fit for the twenty-first century, by providing investors with transparency, longevity and, vitally, certainty. Demand for electricity could also double by 2050, as it is increasingly used to power our transport and domestic heating. This leaves the UK with a significant energy gap that needs to be filled.

The energy Bill will introduce two main measures. The first will be a new system of low-carbon generation revenue support. These contracts will make investment in clean energy more attractive by removing long-term exposure to electricity price fluctuations. They will stabilise returns for those involved in energy generation at a fixed level, known as a 'strike price'. It will also insulate consumers by clawing back money from generators if the market price is higher than the strike price. Secondly, a capacity market will be established to reduce the likelihood of future blackouts by ensuring that there will be sufficient reliable capacity to meet demand. This will ensure that both consumers and industry will continue to benefit from a reliable source of electricity at an affordable cost.

wedi ein hatgoffa, caiff y cod bwydydd ei orfodi'n bennaf trwy enwi archfarchnadoedd a chodi cywilydd arnynt. Fodd bynnag, bydd gan Weinidogion bwerau wrth gefn er mwyn iddynt allu dirwyo a chosbi os bydd angen. Bydd hynny'n rhoi grym ychwanegol i'r mesur, a dyna fydd yn sicrhau ei fod yn effeithiol.

O ran y Bil ynni, yn ystod y degawd nesaf byddwn yn colli oddeutu un rhan o bump o'n capasiti cyfredol i gynhyrchu ynni. Heb y Bil ynni, byddem yn gweld toriadau trydan yn effeithio ar filiynau o gartrefi yn y dyfodol. Caf fy atgoffa o eiriau'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn lansiad y grŵp trawsbleidiol ar ynni a gaiff ei gadeirio gan Angela Burns, pan gyfeiriodd at bwysigrwydd hanfodol sicrhau parhad yn y cyflenwad a'r ffaith bod yn rhaid sicrhau na chaiff y golau ei ddiffodd. Mae hynny'n hanfodol. Bydd y diwygiadau'n denu buddsoddiad o £110 biliwn mewn ynni glân sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, trwy ddarparu tryloywder, hirhoedledd a sicrwydd i fuddsoddwyr, ac mae darparu sicrwydd yn hanfodol. Gallai'r galw am drydan ddyblu erbyn 2050 hefyd, oherwydd caiff trydan ei ddefnyddio fwyfwy yng nghyswllt ein trafnidiaeth a'n systemau gwresogi mewn cartrefi. Mae hynny'n golygu bod gan y DU fwlch sylweddol o ran ynni y mae angen ei lenwi.

Bydd y Bil ynni yn cyflwyno dau brif fesur. Bydd y cyntaf yn system newydd o gymorth refeniw ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel. Bydd y contractau hyn yn sicrhau bod buddsoddi mewn ynni glân yn fwy deniadol, trwy ddileu'r cysylltiad ag amrywiadau mewn prisiau trydan dros y tymor hir. Bydd y contractau'n sefydlogi enillion y sawl sy'n rhan o'r gwaith cynhyrchu ynni ar lefel benodol, a elwir yn 'bris gosod'. Bydd hefyd yn gwarchod defnyddwyr trwy hawlio arian yn ôl gan gynhyrchwyr ynni os yw pris y farchnad yn uwch na'r pris gosod. Yn ail, caiff marchnad gapasiti ei sefydlu i leihau'r tebygolrwydd o doriadau trydan yn y dyfodol trwy sicrhau y bydd digon o gapasiti dibynadwy ar gael i ateb y galw. Bydd hynny'n sicrhau y bydd defnyddwyr a'r diwydiant yn parhau i elwa o gael ffynhonnell ddibynadwy o drydan am bris fforddiadwy.

Rhodri Glyn Thomas: Ddirprwy Lywydd, gwnaethoch gais ar ddechrau'r ddadl hon i gyfranwyr fod yn fyr yn eu cyfraniadau. Yn anffodus, nid oes neb wedi cymryd unrhyw sylw, ond fe wnaf i barchu eich cais.

Rwyf yn hapus i estyn croeso i'r Ysgrifennydd Gwladol y prynhawn yma ac i ddweud fy mod yn gwerthfawrogi ei phresenoldeb gyda ni. Rwyf am gyfeirio at ddau beth yn benodol sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Ysgrifennydd Gwladol, gwnaethoch sôn am eich brwdfrydedd o ran trydaneiddio rheilffyrdd, ond byddwch yn ymwybodol bod siom wedi'i fynegi yn y fan hon a thrwy Gymru nad yw'r cynlluniau trydaneiddio ond yn cyrraedd Caerdydd ar hyn o bryd, a bod galwad cyffredinol yng Nghymru i ymestyn hynny i Abertawe, neu bydd y byd busnes yn credu bod busnes yng Nghymru yn dod i ben yng Nghaerdydd.

Rwy'n ymestyn hynny hefyd i gynnwys cynlluniau ar gyfer rheilffyrdd cyflymder uchel, oherwydd hyd yn oed pe bai trydaneiddio, mae perygl y bydd Cymru'n colli'r cyfle i gael rheilffyrdd cyflymder uchel er y byddant yn cael eu cyflwyno yn Lloegr ac o bosibl yn yr Alban. Roedd disgwyl y byddai Bil yn Araith y Frenhines yn ymwneud â'r mater hwn, ond hwyrach y gallwch esbonio pam nad ydy hynny wedi digwydd. A ydych chi o blaid ac mor frwdfrydig ynglŷn â chyflwyno rheilffyrdd cyflymder uchel i Gymru ag yr ydych o ran trydaneiddio rheilffyrdd yng Nghymru?

Yr ail bwynt rwyf eisiau ei godi yw buddsoddiad mewn trafndiaeth yng Nghymru. Rydym yn wynebu problem fawr oherwydd y toriadau mewn gwariant cyllideb cyfalaf i Gymru. Nid wyf yn gwneud pwynt gwleidyddol; mae'n ffaith bod y gyllideb honno wedi ei thorri o ryw 40%. A fydddech chi, a'r Gweinidog Cyllid hefyd, yn gefnogol i'r syniad o newid y rheolau ynglŷn â gwariant cyfalaf a refeniw, oherwydd byddai hynny yn caniatáu i ni yng Nghymru fynd i'r afael â phroblem tlodi trafndiaeth? Mae rhagdybiaeth mai tlodi tanwydd yw'r unig broblem sy'n ein hwynebu a bod gan bawb fynediad at drafndiaeth breifat neu gyhoeddus, ond mae pobl yng Nghymru yn

Rhodri Glyn Thomas: Deputy Presiding Officer, you requested at the start of this debate that contributors be succinct in their contributions. Unfortunately, no-one has taken any notice, but I will respect your request.

I am happy to extend a welcome to the Secretary of State this afternoon and to say that I appreciate her presence here with us. I want to refer to two specific issues relating to transport. Secretary of State, you mentioned your enthusiasm for the electrification of railways, but you will be aware that disappointment has been expressed in this place and throughout Wales that the plans for electrification extend only to Cardiff at present, and that there is a general call in Wales to extend that to Swansea, or the business world will believe that business in Wales ends in Cardiff.

I also extend that to include plans for high-speed railways, because even if there were to be electrification, there is a risk that Wales will miss the opportunity to have high-speed railways, although they will be introduced in England and possibly in Scotland. There was an expectation that there would be a Bill included in the Queen's Speech to deal with this issue, and perhaps you could explain why that is not the case. Are you in favour of and as enthusiastic about the introduction of high-speed railways into Wales as you are about the electrification of railways in Wales?

The second point that I want to raise is investment in transport in Wales. We face a major problem because of the cuts to capital budget expenditure in Wales. I am not making a political point; it is a fact that that budget has been cut by around 40%. Would you, and also the Minister for Finance, support the idea of changing the rules on capital and revenue expenditure, because that would allow us in Wales to get to grips with the problem of transport poverty? There is a presumption that fuel poverty is the only problem facing us and that everyone has access to private or public transport, but there are people in Wales who are facing the problem of transport poverty and who do not

wynebu'r broblem o dlodi trafndiaeth, heb fynediad at drafndiaeth o gwbl. Byddai symud oddi wrth brosiectau cyfalaf i gynlluniau referniw yn galluogi'r bobl hynny i gael fynediad at drafndiaeth. Byddwn yn falch iawn o gael clywed barn yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Cyllid ar y mater hwnnw.

Gyda hynny o eiriau, rwy'n parchu eich dymuniad, Ddirprwy Lywydd, inni fod yn gryno.

Julie James: I am pleased to be able to contribute to this debate in the presence of the Secretary of State for Wales today. I will raise three issues in the short time that I have available to me, two of which will be very short issues and one will be a slightly longer one.

The first very short issue is to welcome the Secretary of State's remarks in taking into account the reports of various committees here in the Assembly. I commend to her the recent report of the Enterprise and Business Committee and its Procurement Task and Finish Group on the need to encourage the inclusion of small business in procurement. I encourage her to emulate the strides that the Welsh Government has already taken and to take on board some of the recommendations at UK level that would assist in that laudable aim.

Secondly, I will add my voice to those who are very disappointed not to see some addressing of the payday loan issue, which is a pressing need. It seems to me that we could do something about the some of the practices that can only be described as usury. The pathetic state of some of the people attending my surgery is dreadful to behold. I think that that would be easy to do—

Antoinette Sandbach: The Office of Fair Trading carried out an inquiry and it is due to report later this year. I have made submissions to that inquiry from this Assembly and I hope that others took the opportunity to do that.

Julie James: I am pleased to say that there is

have any access to transport. Moving away from capital projects to revenue schemes would enable those people to access transport. I would be very pleased to hear the opinions of the Secretary of State and the Minister for Finance on that issue.

With those few words, I will respect your wish, Deputy Presiding Officer, for us to be succinct.

Julie James: Rwyf yn falch o allu cyfrannu at y ddadl hon heddiw ym mhresenoldeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Rwyf am godi tri mater yn yr amser byr sydd ar gael imi; bydd dau o'r materion hynny'n rhai byr iawn, a bydd un ychydig yn hwy.

Y mater byr iawn cyntaf yw croesawu sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch ystyried adroddiadau'r amryw bwyllgorau yma yn y Cynulliad. Rwyf am dynnu ei sylw at adroddiad diweddar y Pwyllgor Menter a Busnes a'i Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael, sy'n rhoi sylw i'r angen i annog cynnwys busnesau bach mewn prosesau caffael. Rwyf yn ei hannog i efelychu'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd eisoes ac i ystyried rhai o'r argymhellion ar lefel y DU a fyddai'n ein cynorthwyo i gyrraedd y nod canmoladwy hwnnw.

Yn ail, rwyf am gefnogi'r sawl sy'n siomedig iawn na chafwyd unrhyw ymgais i fynd i'r afael â benthyciadau diwrnod cyflog, sy'n fater pwysig iawn. Ymddengys i mi y gallem wneud rhywbeth am rai o'r arferion nad oes yr un gair arall i'w disgrifio ond usuriaeth. Mae'n ofnadwy gweld cyflwr truenus rhai o'r bobl sy'n dod i'm cymorthfeydd. Credaf y byddai'n hawdd gwneud hynny—

Antoinette Sandbach: Cynhaliodd y Swyddfa Masnachu Teg ymchwiliad, ac mae disgwyl iddo gyhoeddi adroddiad yn ei gylch yn ddiweddarach eleni. Rwyf wedi cyflwyno rhai sylwadau i'r ymchwiliad hwnnw o'r Cynulliad hwn, a gobeithiaf fod pobl eraill wedi cymryd y cyfle i wneud hynny.

Julie James: Rwyf yn falch o ddweud bod

cross-party support on the issue of payday loans in the Chamber. I just wanted to commend that to the Secretary of State and to ask her to take that back to the UK Government.

It will come as no surprise to my colleagues in the Chamber that the other thing that I want to address is the issue of electrification to Swansea. I am very disappointed at the lack of specific infrastructure proposals of that sort in the Queen's Speech. I acknowledge the work that the Secretary of State for Wales has done in getting the electrification as far as Cardiff. However, I urge her to consider that Wales does not stop at Cardiff, and, indeed, that the Valleys are not only the valleys that have been specifically mentioned; all of the valleys require electrification for that project to work.

I also want to acknowledge the work that you did for your constituents in getting the tunnel for the HS2. We all do the best that we can for our constituents and that is where we are coming from, across the Chamber, in Wales: we want to do the best for our constituents in exactly the same way as you did for yours. On that basis, I am very proud to work on a cross-party basis with everyone in the Chamber, and we have heard about that today. It makes no economic, social, environmental or common sense to stop the electrification at Cardiff, when you consider the costs involved in setting up the infrastructure to Cardiff and the very marginal additional cost to take it on to Swansea and to cover the Valleys. It makes no sense.

It is not just a matter of the business case; this will clearly be a political decision. We want to convey the message to you loudly and clearly that there is absolute consensus in Wales among industry, business and local government. All of the 750,000 to 1 million people who live west of Cardiff, who would rely on this infrastructure, are really desperate to be included in this project.

cefnogaeth drawsbleidiol i'r mater ynghylch benthyciadau diwrnod cyflog yn y Siambr. Roeddwn am dynnu sylw'r Ysgrifennydd Gwladol at hynny, a gofyn iddi gyfleu'r neges honno i Lywodraeth y DU.

